

# Datganiad o Gyfrifon

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr • 2020-21**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**
**Swyddfeydd Dinesig**
**Stryd yr Angel**
**PEN-Y-BONT AR OGWR**
**CF31 4WB**
**(01656) 643643**

# Cynnwys


**Adroddiad Naratif** ... 4

**Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon** ... 14

**Datganiadau Ariannol** ... 15

- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** ... 16
- **Datganiad ar gyfer y Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn** ... 17
- **Mantolen** ... 18
- **Datganiad Llif Arian Parod** ... 19

**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol** ... 20

**Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** ... 76

**Datganiad Llywodraethu Blynyddol** ... 80

**Rhestr Termau** ... 109

# Adroddiad Naratif

## " Un Cyngor, yn gweithio gyda'n gilydd i wella bywydau "

**Cyflwyniad**

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno Datganiad Cyfrifon 2020-21 ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor). Mae'n nodi perfformiad ariannol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf ac fe'i paratoir yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21.

Dros y 10 mlynedd ddiwethaf mae'r Cyngor wedi gwneud oddeutu £62 miliwn o arbedion ar sail gronnol ac mae angen mesurau effeithlonrwydd ac arbedion pellach yn y dyfodol. Mae'r broses o adnabod arbedion, gan newid y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio i sicrhau gwasanaethau modern, gwell a chydnerth, yn mynd rhagddi'n barhaus. Bydd angen parhau i gyflawni arbedion mewn blwyddyn ariannol anodd o leiaf yn y tymor byr a'r tymor canolig. O ystyried ansicrwydd economaidd sylweddol, yn anad dim effaith bosibl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ac effaith pandemig Covid-19, bydd y Cyngor yn parhau i wynebu heriau ariannol wrth iddo ymegnïo i ddarparu ei gasgliad helaeth o wasanaethau ar gyfer y cymunedau y mae'n eu cefnogi. Mae angen iddo barhau i wneud hynny gan barhau i fod yn gydnerth yn ariannol.


**Pen-y-bont ar Ogwr fel Cyngor**

Mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i lleoli'n gyfleus rhwng prifddinas Cymru, Caerdydd, i'r dwyrain a dinas Abertawe i'r gorllewin, oddeutu 20 milltir o'r naill a'r llall. A hithau'n nythu ychydig i'r de o goridor yr M, gyda mynediad rhwydd o'r ddwy ddinas bwysig, ac yn ffinio â Môr Hafren i'r de, mae ynghanol llain ddiwydiannol ac arfordirol De Cymru. Mae Pen-y-bont ar Ogwr fel Bwrdeistref Sirol yn gartref i fwy na 140,000 o drigolion ac yn dal i dyfu. Mae trefi'r Fwrdeistref Sirol yn cael eu hailddatblygu ac mae nifer o adeiladau hanesyddol a chanol y trefi wedi cael eu hadfywio dros y blynyddoedd diwethaf. I'r gogledd mae tref breswyl Maesteg, i'r de orllewin mae tref arfordirol Porthcawl ac i'r dwyrain mae Pen-coed. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn un o 22 o Gynghorau yng Nghymru, ac yn rhoi cyfrif am oddeutu 4.5% o boblogaeth y wlad.

| | |
|---|---|
| Poblogaeth | 147,049 |
| Arwynebedd tir | 98.5 milltir sgwâr |
| Aelwydydd | 63,609 |
| Cyflogeion y Cyngor | 5,858 |
| Cynghorwyr | 54 |




- Mae'r Cyngor yn rheoli sylfaen asedau, heb gynnwys y rhwydwaith ffyrdd, o £537 miliwn i ddarparu ei wasanaethau.
- Mae'r Cyngor yn cyflogi dros 5,800 o staff yn rhai llawn-amser a rhan-amser, i ddarparu ystod eang o wasanaethau gan gynnwys addysg, gofal cymdeithasol, cynnal a chadw priffyrdd a datblygu economaidd.
- Darperir nifer o wasanaethau gan drydydd parti, gan gynnwys casglu gwastraff, canolfannau hamdden, mentrau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofal preswyl, gofal cartref a gwasanaethau byw â chymorth.
- Mae gan y Cyngor 54 o Gynghorwyr etholedig sy'n cynrychioli pobl Pen-y-bont ar Ogwr ac yn pennu'r strategaeth a'r fframwaith cyllidebol ar y cyfan ar gyfer y Cyngor. Nodir cynrychiolaeth y Blaid Wleidyddol ar 31 Mawrth 2021 isod. Llenwyd y swydd wag ym mis Ebrill 2021.




Mae'r cyfansoddiad yn nodi sut y mae'r Cyngor yn gweithredu, sut y gwneir penderfyniadau a'r gweithdrefnau i'w dilyn i sicrhau bod penderfyniadau'n effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Mae'r Cyngor yn ethol Maer yn flynyddol i gyflawni rôl ddinesig a hyrwyddo'r sir. Mae'r Cyngor hefyd yn penodi arweinydd y Cyngor sy'n penodi Aelodau Cabinet, y mae gan bob un ohonynt gyfrifoldeb am bortffolio penodol o wasanaethau.

Rôl y Cabinet yw bod yn gyfrifol am y rhan fwyaf o benderfyniadau mawr; darparu arweinyddiaeth; a chynnig fframwaith y gyllideb a hefyd y gyllideb.

Pwyllgorau Craffu'n cefnogi gwaith y Cabinet a'r Cyngor trwy:

- Fonitro penderfyniadau'r Cabinet
- Galluogi'r holl Gynghorwyr, dinasyddion a rhanddeiliaid i leisio barn ynglŷn â materion sy'n ymwneud â'r Cyngor
- Cynhyrchu adroddiadau a llunio argymhellion i roi cymorth i ddatblygu polisïau a phenderfyniadau
- Cael y cyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau'r Cabinet a'r Cyngor yn y dyfodol drwy gyfarfodydd cyn penderfynu
- Bod â'r gallu i adolygu penderfyniad a wnaed ond nad yw wedi cael ei roi ar waith eto.


Mae pwyllgorau rheoleiddiol a phwyllgorau eraill yn rhoi cymorth i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor. Mae'r Cyngor wedi rhoi'r cyfrifoldeb i'r Pwyllgor Archwilio am adolygu a chymeradwyo Datganiadau Ariannol y Cyngor.

Caiff Bwrdd Rheoli Corfforaethol y Cyngor ei arwain gan y Prif Weithredwr ac mae'n cynnwys y 3 Chyfarwyddwr Corfforaethol, y Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyllid.

Mae'r Cyngor wedi cytuno ar egwyddor o ganolbwyntio adnoddau sy'n lleihau ar gymunedau ac unigolion â'r angen mwyaf. Mae wedi adnabod tair blaenoriaeth sydd wedi'u bwriadu i wella ansawdd bywyd pobl yn y fwrdeistref sirol gan newid natur y Cyngor yn sylweddol:

Y tair blaenoriaeth hon yw amcanion llesiant y Cyngor dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac maent yn nodi cyfraniad y Cyngor tuag at gyrraedd y saith nod cenedlaethol yn y Ddeddf:

**Ein hamcanion llesiant**




**Y saith nod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru):**

- *Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.*
- *Cymru lewyrchus*
- *Cymru gydnerth*
- *Cymru iachach*
- *Cymru sy'n fwy cyfartal*
- *Cymru o gymunedau cydlynus*
- *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*

**Llywodraethu**

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, y rhoddir cyfrif priodol amdano a'i fod yn cael ei ddefnyddio mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol. Mae dyletswydd ar y Cyngor hefyd dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau o ran effeithiolrwydd strategol, ansawdd gwasanaethau, argaeledd gwasanaethau, tegwch, cynaliadwyedd, effeithlonrwydd ac arloesi. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol sydd wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon yn nodi'n fanwl y trefniadau llywodraethu sydd gan y Cyngor.

**Covid-19**

Gosodwyd cyfyngiadau ar symud yn y DU ar 23 Mawrth 2020 mewn cam digynsail i geisio cyfyngu ar ledaeniad y coronafeirws. Roedd hyn yn dilyn camau gweithredu tebyg mewn gwledydd eraill ledled y byd. Sefydlodd Llywodraeth y DU nifer gyfyngedig o resymau lle gellid caniatáu i bobl adael eu cartrefi ac fe sefydlodd Llywodraeth Cymru fesurau dan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) Cymru 2020. O ganlyniad, bu'n rhaid i lawer o siopau a busnesau nad ydynt yn hanfodol gau, caewyd ysgolion ac fe'i gwnaed yn ofynnol i'r holl weithwyr heblaw gweithwyr allweddol weithio gartref lle'r oedd yn bosibl. Roedd y cyfyngiadau symud i'w cynnal am gyfnod o dair wythnos ar y dechrau, ond cafodd ei ymestyn dros yr ychydig fisoedd canlynol, gyda Phrif Weinidog Cymru yn cyhoeddi y byddai rheolau'r cyfyngiadau symud yn cael eu llacio yn raddol rhwng 1 Mehefin a Gorffennaf 2020. Fodd bynnag, cafwyd cyfnodau pellach o gyfyngiadau symud, y pythefnos o 'firebreak' rhwng 23 Hydref a 9 Tachwedd yn gyntaf, ac yna cyfyngiadau symud pellach o hanner nos 19 Rhagfyr 2020 yn sgil ymchwydd sylweddol mewn achosion o amrywiolyn newydd o'r feirws. Mae pandemig byd-eang COVID-19 wedi cael, a bydd yn parhau i gael, effaith ddigynsail ar gymdeithas ar y cyfan. Mae hyn wedi arwain at newidiadau sylweddol i reolaeth ar y Cyngor o ddydd i ddydd, a natur a'r modd y cyflawnir ei weithrediadau. Er mwyn sicrhau parhad gwasanaethau lle bynnag y bo modd, aeth y Cyngor ati ar fyrder i roi technoleg symudol i'w staff swyddfa ddiwedd mis Mawrth 2020 ac Ebrill 2020 er mwyn eu galluogi i weithio gartref o fewn amserlen fer iawn. Cynyddwyd gallu seilwaith TGCh y Cyngor hefyd er mwyn galluogi gweithio gartref. Mae'r holl staff swyddfa bellach â'r offer i weithio gartref. Mae diogelwch y rhwydwaith wedi cael ei gryfhau oherwydd bod llawer mwy yn gweithio o bell. Wrth symud ymlaen bydd yn rhaid i'r Cyngor ad-drefnu'r ffordd y mae rhai o'i wasanaethau a'i staff yn gweithio, gan sicrhau ei fod yn rhoi'r mesurau cadw pellter cymdeithasol angenrheidiol ar waith i gadw ei staff a defnyddwyr gwasanaethau'r Cyngor yn ddiogel.

Un rhan o'r ymateb cenedlaethol i effaith y pandemig oedd y cymorth ariannol ychwanegol a ddarparwyd i'r economi, gan gynnwys dosbarthu Grantiau Busnes ac ymestyn rhyddhad ardrethi busnes, a gweinyddwyd y ddau beth yma gan y Cyngor. Mae'r cynlluniau a weinyddir gan y Cyngor ar ran Llywodraeth Cymru yn cynnwys:

| Grant | Pwrpas | Dyddiad dechrau |
|---|---|---|
| Cam 1 Grantiau Busnes ac Elusennau | Darparu Grantiau Cymorth Busnes Ardrethi Annomestig i dalwyr ardrethi cymwys o fewn ffiniau'r Awdurdod Lleol. Roedd tair elfen i'r cynllun grant:<br>• Grant o £25,000 i fusnesau yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch gydag eiddo â gwerth ardrethol o rhwng £12,001 a £51,000<br>• Grant £10,000 i bob busnes sy'n gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach gyda gwerth ardrethol o £12,000 neu lai<br>• Grant £10,000 i gefnogi elusennau bach a Chlybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol (CASC) o fewn y sector manwerthu, hamdden a lletygarwch, gyda gwerth ardrethol o £12,000 neu lai. | Mawrth 2020 |
| Grant Ardrethi Annomestig Cyfnod Clo / Cyfnod Atal Byr | Er mwyn galluogi'r ddarpariaeth o Gymorth Busnes Ardrethi Annomestig Covid-19 i dalwyr ardrethi cymwys o fewn ffiniau'r Awdurdod Lleol. Diben y taliadau oedd cefnogi busnesau sy'n gymwys i gael rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach; busnesau manwerthu, lletygarwch a hamdden a orfodwyd i gau, a grantiau dewisol i fusnesau a gaewyd neu a gafodd eu heffeithio'n sylweddol gan gyfyngiadau symud y cyfnod atal byr; a grant dewisol i fusnesau a gafodd eu heffeithio'n sylweddol gan fesurau cloi lleol yn y 21 diwrnod cyn dechrau'r cyfnod atal byr. | Tachwedd 2020 |
| Cronfa Cyfyngiadau Busnes | Rhoi cymorth ariannol i fusnesau sy'n wynebu heriau gweithredol ac ariannol oherwydd cyfyngiadau Covid-19 o fewn y sectorau lletygarwch, twristiaeth a hamdden. Diben y gronfa oedd cefnogi llif arian busnesau er mwyn eu helpu i oroesi canlyniadau economaidd y cyfyngiadau a roddwyd ar waith. | Rhagfyr 2020 |

Mae cyfanswm o dros £50 miliwn wedi'i dalu i ystod eang o fusnesau ac elusennau drwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal â hyn, gwnaed taliadau grant eraill i unigolion gan gynnwys:

- Taliadau Gweithlu Gofal Cymdeithasol o £500
- Taliadau Hunanynysu i'r rhai ar incwm isel
- Taliadau Salwch Statudol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol

Nodir cyfanswm nifer a symiau'r taliadau a wnaed isod:

| **Grant** | **Nifer** | **Cyfanswm y grant a dalwyd** |
|---|---|---|
| Grantiau Busnes ac Elusennau Cam 1 | 2,449 | £30,220,000 |
| Grant Ardrethi Annomestig Cyfnod Clo / Cyfnod Atal Byr | 1,759 | £4,885,000 |
| Cronfa Cyfyngiadau Busnes (3 cham) | 4,562 | £14,957,000 |
| Taliadau Gweithlu Gofal Cymdeithasol (£500) | 3,245 | £1,862,572 |
| Taliadau Hunanynysu (gan gynnwys gweinyddu) | 372 | £222,370 |
| Taliadau Salwch Statudol atodol (gan gynnwys gweinyddu) | 1,006 | £278,689 |
| **CYFANSWM** | **13,393** | **£52,425,631** |

Y Cyngor oedd yn gyfrifol am weinyddu'r taliadau hyn. Roedd y gwaith o reoli maint a gwerth y grantiau hyn yn rhoi pwysau ar staff i sicrhau bod taliadau'n cael eu gwneud yn gyflym ac i'r busnesau a'r derbynwyr cywir,

yn ogystal â rheoli llif arian sylweddol ar adeg pan oedd ansicrwydd yn y farchnad ariannol. Gwnaed defnydd sylweddol o Swyddfa Rheoli Dyledion y Llywodraeth Ganolog i ddal balansau arian dros ben yn y tymor byr.


Ar 31 Mawrth 2021, roedd balansau arian parod y Cyngor a oedd yn gysylltiedig â grantiau busnes yn £358,000, i'w dalu i fusnesau ar ôl diwedd y flwyddyn unwaith y bydd yr hawliadau wedi'u cwblhau.

**Cronfa Caledi**

I gydnabod y pwysau cost ychwanegol a'r posibilrwydd o Gynghorau'n colli incwm o ganlyniad i'r pandemig, cytunodd Llywodraeth Cymru ar Gronfa Caledi i gefnogi'r Cyngor i dalu'r costau ychwanegol hyn ac i ad-dalu diffygion incwm. Derbyniodd y Cyngor £23.136 miliwn o'r gronfa hon, aeth £15 miliwn i gefnogi ceisiadau a wnaed am gostau penodol ychwanegol oherwydd Covid-19, £5.6 miliwn i hawliadau a wnaed am golli incwm penodol oherwydd Covid-19, a £2.536 miliwn mewn cyllid Caledi ychwanegol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Y prif feysydd a ariannwyd ar gyfer gwariant ychwanegol oedd: cymorth i unigolion digartref, wrth ddarparu llety iddynt; darparu Prydau Ysgol am Ddim (gan gynnwys yn ystod gwyliau'r ysgol); costau staffio ychwanegol ynghyd â darpariaethau i gefnogi ymbellhau cymdeithasol a dysgu mewn ysgolion; a chostau ychwanegol darparu gofal a chymorth ar gyfer bylchau mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion Aeth y cyllid ar gyfer colli incwm yn bennaf i gefnogi'r gostyngiad mewn incwm prydau ysgol ac i gyfrannu at y golled net a wnaed wrth redeg y gwasanaethau hamdden yn ystod y pandemig. Aeth y cyllid Caledi Ychwanegol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn bennaf at leddfu effaith Covid ar gynlluniau ar gyfer arbedion gwasanaeth a newidiadau pan osodwyd cyllidebau gwreiddiol ar gyfer 2020-21, ac aeth £1.121 miliwn at gostau sefydlu ffyrdd modern o weithio a thrawsnewid digidol.

**Perfformiad Ariannol**

Dros y 10 mlynedd ddiwethaf mae'r Cyngor wedi gwneud oddeutu £68 miliwn o ostyngiadau yn y gyllideb. Gan ystyried gwariant a gwasanaethau a ariennir â grantiau penodol, ffioedd neu daliadau, £438 miliwn oedd cyllideb gros y Cyngor ar gyfer 2020-21. Mae hyn yn cwmpasu costau rhedeg y Cyngor o ddydd i ddydd gan gynnwys staff, casglu gwastraff, ysgolion, gweithwyr gofal, gofalwyr maeth a gwasanaethau hamdden. Mae'r Cyngor yn cael cyllid refeniw gan Lywodraeth Cymru (Grant Cynnal Refeniw), o grantiau penodol, ardrethi busnes (Ardrethi Annomestig Cenedlaethol), y Dreth Gyngor, ffioedd a thaliadau ac o'i fuddsoddiadau fel a ddangosir isod.





Daw'r rhan fwyaf o gyllid y Cyngor gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Cynnal Refeniw (32%) a'i gyfran o ardrethi annomestig (busnes) gyda Grantiau eraill y Llywodraeth (gan gynnwys grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru), sy'n cyfrif am ychydig dros chwarter arall o incwm y Cyngor (29%). Mae'r dreth gyngor yn rhoi cyfrif am oddeutu 21% o'r incwm. Mae'r Cyngor yn gallu codi tâl am nifer o wasanaethau gan gynnwys gofal cymdeithasol, parcio ceir a thrwyddedu, sy'n rhoi cyfrif am 9% yn unig o gyfanswm incwm y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn gwario'i arian ar gyflogeion, gwariant sy'n gysylltiedig â safleoedd, costau cludiant, cyflenwadau a thaliadau i ddarparwyr 3ydd parti. Rhaid i'r Cyngor hefyd gwrdd â chostau cyllido cyfalaf (llog) fel rhan o'i drefniadau benthyca hirdymor. Ar ddiwedd 2019-20 creodd y Cyngor gronfa Covid-19 wrth gefn i ddarparu ar gyfer costau anhysbys yn y dyfodol mewn perthynas â'r pandemig a chynhaliwyd y gronfa hon drwy gydol y flwyddyn. Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru a'i Gronfeydd Caledi ond wedi'u cadarnhau ar


gyfer chwe mis cyntaf 2021-22 o ran talu costau Covid-19, ac nid y tu hwnt i hynny, mae'n ddigon posibl y bydd y Cyngor yn wynebu gorfod ariannu pwysau cost parhaus a cholled incwm yn y tymor byr.

O ganlyniad i reolaeth ariannol effeithiol ar draws y Cyngor drwy'r pandemig, a sicrhaodd bod arian cymwys wedi'i hawlio o Gronfa Caledi Llywodraeth Cymru ynghyd â chyllid grant atodol sylweddol gan Lywodraeth Cymru, llwyddodd y Cyngor wneud cyfraniad net i gronfeydd wrth gefn am y flwyddyn o £18.947 miliwn, ynghyd â chynnydd o £8.382 miliwn yng nghronfeydd wrth gefn ysgolion, a throsglwyddiad o £0.432 miliwn i'r Gronfa Gyffredinol. Bydd y rhain yn ariannu amrywiaeth o fentrau ac ymrwymiadau gwariant i dalu costau penodol. Caiff gwariant y Cyngor ei ddadansoddi isod.




**Gwariant y Gyfarwyddiaeth**

Roedd gwariant y Cyngor fesul Cyfarwyddiaeth o fewn 93.83% o'r gyllideb ar gyfer pob adran sy'n adlewyrchu rheolaeth ariannol a rheolaeth gyllidebol gadarn. Mae'r tabl isod yn dangos y gwariant net fesul Cyfarwyddiaeth gwasanaethau.




Cyflawnodd y Cyngor danwariant, ar ôl trosglwyddo £0.432 miliwn i'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd, neu 0.15% o'i gyllideb net. Mae hyn yn dangos ei reolaeth ariannol gadarn trwy gydol y flwyddyn a'i ymrwymiad i sicrhau nad yw'n gwario y tu hwnt i'w foddion. Mae'r tabl isod yn dangos sefyllfa cau pob Cyfarwyddiaeth a hefyd ar gyfer y cyllid gan y Llywodraeth nad yw ar gyfer Cyfarwyddiaeth benodol a chyllid arall i'r Cyngor. Mae adroddiad alldro'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn i'w weld ar wefan y Cyngor yma.

| CYFARWYDDIAETH | Cyllideb Net £'000 | Gwariant Net £'000 | (Tan) / gorwario £'000 | (Tan) / gorwario % |
|---|---|---|---|---|
| Addysg a Chymorth i Deuluoedd | 22,063 | 20,645 | (1,418) | (6.4) |
| Ysgolion | 101,449 | 101,449 | - | - |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles | 73,263 | 72,289 | (974) | (1.3) |
| Cymunedau | 28,493 | 26,502 | (1,991) | (7.0) |
| Prif Weithredwr | 18,774 | 17,678 | (1,096) | (5.8) |
| Gwasanaethau Eang y Cyngor | 42,843 | 49,592 | 6,749 | 15.8 |
| Cyllido ac ariannu | (286,885) | (288,587) | (1,702) | 0.6 |
| **Cyfanswm** | **-** | **(432)** | **(432)** | **(0.15)** |

**Mynd i'r afael â heriau yn y dyfodol**

Mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol wrth edrych tua'r dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys pwysau demograffig, megis poblogaeth sy'n heneiddio a nifer gynyddol o bobl ifanc ag anableddau cymhleth yn byw i fod yn oedolion ac yn ychwanegu'n gynyddol at y galw am ofal. Yn ogystal â hyn, mae ymrwymiadau cytundebol penodol wedi arwain at bwysau chwyddiant, a chynnydd uwch na chwyddiant yn y cyflog byw cenedlaethol wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn costau staffio, yn ogystal â galwadau i weithredu'r cyflog byw gwirioneddol, yn enwedig i staff Gofal Cymdeithasol. Mae setliad cyhoeddedig Llywodraeth Cymru ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2021-22 yn gynnydd o 4.3%. O ganlyniad i'r cylch gwariant blwyddyn ym mis Tachwedd 2020, nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi unrhyw arwyddion o'r lefelau ariannu tebygol ar gyfer 2022-23 ymlaen, sy'n ei gwneud yn anodd cynllunio ar gyfer y dyfodol, yn enwedig yn y blynyddoedd ar ôl Brexit.

Er bod y Cyngor yn parhau i wynebu pwysau cynyddol ar ei gyllideb, roedd wedi cymeradwyo cyllideb fantoledig ar gyfer 2021-22. Fodd bynnag, bydd canlyniadau parhaus pandemig Covid-19 yn cael effaith anochel ar incwm, costau, a chyllideb 2021-22 y Cyngor. Bydd angen i'r Cyngor adolygu ei flaenoriaethau a'i gyllidebau o ystyried effaith y pandemig yn y Fwrdeistref Sirol, a'u hailosod er mwyn eu galluogi i gyrraedd cyfnod adfer mwy sefydlog wrth i gyfyngiadau gael eu lleddfu.


Ar 31 Rhagfyr 2020, ar ddiwedd cyfnod pontio Brexit, dychwelodd y DU at annibyniaeth economaidd a gwleidyddol, ac nid yw bellach yn rhan o Farchnad Sengl nac Undeb Tollau'r Undeb Ewropeaidd (UE). Rhagwelwyd y byddai'r ansicrwydd ynghylch effaith gadael yr UE ar y DU yn creu heriau i'r Cyngor a'r cymunedau y mae'n eu cefnogi, a hynny dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. Yn ddi-os, mae effaith y pandemig wedi celu effaith uniongyrchol gadael Undeb Ewropeaidd, ac unrhyw effeithiau a allai fod wedi symud ymlaen. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio ochr yn ochr â phartneriaid i gael atebion ar faterion pwysig fel sut y bydd cyllid ar ôl Brexit yn cael ei ddarparu.

**Sefyllfa ariannol**

The Council manages significant assets and cash flows. During the year the Council:

- Roedd ganddo £537 miliwn o asedau hirdymor, gan gynnwys £529 miliwn o asedau gweithredol ar gyfer darparu gwasanaethau, £5 miliwn o eiddo buddsoddi a £2.5 miliwn o asedau anniriaethol
- Derbyniwyd £298 miliwn o gyllid grant, gyda £158 miliwn ohono yn gyllid craidd gan Lywodraeth Cymru – neu Grant Cynnal Refeniw; Cyfanswm y grant Budd-dal Tai a gweinyddu oedd £38 miliwn; a daeth £20.6 miliwn o Grant Caledi Llywodraeth Cymru i gefnogi Awdurdodau Lleol gyda'r costau ychwanegol a cholled incwm o ganlyniad i bandemig Covid-19.
- Fe greodd £41 miliwn o ffioedd a thaliadau ac incwm arall ar gyfer gwasanaethau a ddefnyddiwyd i ddarparu gwasanaethau

Mae'r Cyngor yn cynnal mantolen gref er gwaethaf yr heriau ariannol a wynebwyd yn 2020-21.




## Benthyca

Mae gan y Cyngor fenthyciadau tymor hir heb eu talu ar 31 Mawrth 2021 o £ 97.394 miliwn. Mae hwn yn gymysgedd o Fwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) o £ 77.617 miliwn ac Opsiynau Benthyciwr Opsiwn Benthyciwr (LOBOs) o £ 19.777 miliwn, i ariannu gwariant cyfalaf. Rhoddir mwy o fanylion mewn perthynas â benthyca yn nodyn 31. Dylid gweld y benthyca yng nghyd-destun cyfanswm gwerth asedau tymor hir y Cyngor, a ddangosir yn y Fantolen ar £ 537 miliwn. Caniateir benthyca yn unol â'r Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol cyn belled â bod y costau refeniw, ym marn y Prif Swyddog Cyllid, yn gallu cael eu talu ac yn unol â darbodus dangosyddion a chanllawiau. O ystyried cryfder y Fantolen, mae lefelau benthyca'r Cyngor rhesymol. Pe bai'r cyfle'n codi i'r Cyngor ad-dalu ei LOBOs er budd y Cyngor, yna bydd yn edrych i wneud hynny. Fodd bynnag, o ystyried y cyfraddau llog isel cyfredol, mae'n annhebygol y bydd y cyfle codi yn y dyfodol agos.

### Rhwymedigaeth Pensiwn: £310 miliwn

Mae gofynion Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19 (IAS19) mewn perthynas â buddion ar ôl cyflogaeth – h.y. pensiynau, wedi cael eu hymgorffori'n llawn yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, gydag enillion a cholledion actiwaraidd yn cael eu cydnabod mewn Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall, fel a esbonnir yn fanwl yn nodyn 30.

Mae cronfa wrth gefn pensiynau a rhwymedigaeth pensiwn wedi'u hymgorffori yng nghyfrifon y Cyngor, gan adlewyrchu o faint y mae elfen Pen-y-bont ar Ogwr o gronfa bensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Cronfa bensiwn RCTCB yn cael ei thanariannu o'i gymharu â'r rhwymedigaethau talu asesedig i bensiynwyr yn awr ac yn y dyfodol. Roedd rhwymedigaeth pensiynau'r Cyngor ar y cyfan ar 31 Mawrth 2021 yn £310.29 miliwn (£289.19 miliwn ar 31 Mawrth 2020). Mae'r rhwymedigaeth yn ystyried yr atebolrwydd 'underpin' bosibl yn sgil canlyniad achos McCloud/Sargeant, sef bod effaith trefniadau diogelu trosiannol a roddwyd ar waith pan gafodd cynlluniau pensiwn diffoddwyr tân a barnwyr eu diwygio yn gwahaniaethu ar sail oedran.

Nid yw'r rhwymedigaeth yn rhoi lwfans ar gyfer effaith Covid-19 na marwolaethau ychwanegol o ganlyniad i'r pandemig, a hynny oherwydd barn yr actiwari fod y cofrestriadau marwolaeth dros y cyfnod wedi symud y gyfradd marwolaethau ymhell y tu allan i ystod arferol y 4 degawd diwethaf, ac felly ni ddylid rhoi unrhyw bwys ar ddata 2020. Bwriad hyn yn bennaf yw sicrhau bod unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r pandemig yn realistig wrth symud ymlaen.

### Cyfalaf

Roedd Rhaglen Gyfalaf wreiddiol y Cyngor ar gyfer 2020-21, a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 26 Chwefror 2020, yn £56.434 miliwn. O ganlyniad i'r pandemig Covid-19 cafodd cynlluniau eu symud i 2021-22 gyda'r alldro terfynol ar gyfer 2020-21 yn £23.461 miliwn. Roedd y cynlluniau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys gosod ystafell ddosbarth symudol yn Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig ac adleoli Tîm Hyb y Dwyrain i Ysgol Gyfun Brynteg. Mae'r Hyb Dwyreiniol yn gyfleuster i'r Tîm Ardal Cymorth Cynnar, tîm amlddisgyblaethol sy'n caniatáu gwaith integredig agos gan ystod o weithwyr proffesiynol o amrywiaeth o wasanaethau ac asiantaethau nad ydynt yn rhai awdurdodau lleol, megis ymwelwyr iechyd a swyddogion cyswllt yr heddlu. Mae cael hyb ardal yn sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn lleol, a nod cymorth amlasiantaethol yw adnabod a chefnogi plant a theuluoedd a fyddai'n elwa o gymorth cynnar. Dechreuwyd

y gwaith o ailddatblygu Neuadd y Dref Maesteg, bydd yn darparu gwell cyfleusterau cymunedol, yn cynnwys llyfrgell y dref a mannau perfformio, yn caniatáu gwell hygyrchedd i ymwelwyr ac yn creu swyddi. Bydd y gwaith yn parhau i 2021-22.

Mae setliad cyfalaf llywodraeth leol yn rhoi £7.916 miliwn o gyllid cyfalaf i'r Cyngor ar gyfer 2021-22, £67,000 yn llai na 2020-21 ond £1.5 miliwn yn fwy nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae hyn oherwydd bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu £25 miliwn ychwanegol o grant cyfalaf cyffredinol (sydd wedi'i gynnwys yng nghyllidebau 2019-20 a 2020-21) i alluogi awdurdodau lleol i ymateb i'r cyd-flaenoriaethau o ddatgarboneiddio, gan gynnwys ar gyfer tai, ac adferiad economaidd yn sgil Covid-19. Ni soniwyd am 2022-23 na thu hwnt. Ym mis Chwefror 2021 cymeradwyodd y Cyngor raglen gyfalaf ddeng mlynedd o £170 miliwn fel y nodir yn y tabl isod. Mae'r tabl hefyd yn dangos alldro 2020-21.

| | **ALLDRO** | **CYNLLUN DENG MLYNEDD** | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2020-21** | 2021-2022 | 2022-2023 | 2023-2024 to 2030-2031 | **Cyfanswm** |
| **GWARIANT** | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Addysg a Chymorth i Deuluoedd | 4,877 | 11,549 | 2,792 | 47,082 | 61,423 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 587 | 2,284 | - | - | 2,284 |
| Cymunedau | 14,545 | 43,208 | 8,875 | 17,820 | 69,903 |
| Prif Weithredwyr | 3,452 | 3,393 | 2,450 | 19,600 | 25,443 |
| Ledled y Cyngor ac Eraill | | 1,929 | 367 | 8,943 | 11,239 |
| **Cyfanswm y Gwariant** | **23,461** | **62,363** | **14,484** | **93,445** | **170,292** |
| **CYLLID** | | | | | |
| Grantiau a chyfraniadau a106 | 15,583 | 14,303 | 5,372 | 52,817 | 72,492 |
| Derbyniadau Cyfalaf a Chyfraniadau Refeniw | 1,511 | 30,939 | 5,046 | 9,124 | 45,109 |
| Benthyciadau | 6,367 | 17,121 | 4,066 | 31,504 | 52,691 |
| **Cyfanswm y Cyllid** | **23,461** | **62,363** | **14,484** | **93,445** | **170,292** |

## Datganiadau Ariannol

Mae'r Datganiad Cyfrifon wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon, ac yn cynnwys y datganiadau ariannol canlynol:

**Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon**

Mae hyn yn nodi cyfrifoldebau priodol y Cyngor a'r swyddog Adran 151 ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

**Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES)**

Mae hyn yn cofnodi holl incwm a gwariant y Cyngor yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae cynghorau'n codi trethiant i dalu am wariant yn unol â gofynion statudol, a allai fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddu. Dangosir y sefyllfa drethiant yn y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid a'r Datganiad Symud mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

**Datganiad am Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn (MiRS)**

Mae'r Datganiad am Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn yn dangos y symudiad rhwng dechrau'r flwyddyn a diwedd y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cyngor, sydd wedi'u dadansoddi yn ôl 'cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy' – y rhai y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant – a chronfeydd wrth gefn 'annefnyddiadwy', y mae'n rhaid eu neilltuo at ddibenion penodol. Byddai cronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy'n cynnwys enillion a cholledion heb eu gwireddu (megis y Gronfa wrth Gefn Ailbrisio), lle byddai symiau ar gael dim ond pe bai'r asedau'n cael eu gwerthu, a chronfeydd wrth gefn sy'n adlewyrchu 'addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a chyllido dan reoliadau'. Mae'r gwarged neu'r diffyg ar y llinell Darparu Gwasanaethau yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Cyngor, y dangosir rhagor o

fanylion amdani yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol y mae'n ofynnol eu codi ar Falans Cronfa'r Cyngor at ddibenion pennu'r dreth gyngor. Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net yn dangos y symudiadau ym malans Cronfa statudol y Cyngor yn y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hynny.

**Mantolen**

Mae hwn yn cofnodi cipolwg ar asedau, rhwymedigaethau, balansau arian parod a chronfeydd wrth gefn y Cyngor ar y dyddiad diwedd blwyddyn. Mae asedau net y Cyngor (asedau llai rhwymedigaethau) yn cyfateb i'r cronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor.

**Datganiad Llif Arian**

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y rheswm dros newidiadau mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod y Cyngor yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r Cyngor yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a chyfwerth ag arian parod trwy ddosbarthu llif arian fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Swm o mae llif arian net sy'n deillio o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol i ba raddau y mae gweithrediadau'r Cyngor yn cael eu hariannu trwy drethiant ac incwm grant neu gan dderbynwyr gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Mae gweithgareddau buddsoddi yn cynrychioli i ba raddau y mae all-lif arian parod wedi'i wneud ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at ddarparu gwasanaeth y Cyngor yn y dyfodol. Mae llif arian sy'n deillio o weithgareddau cyllido yn ddefnyddiol wrth ragfynegi hawliadau ar lif arian yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyca) i'r Cyngor.

**Nodiadau i'r Cyfrifon**

Mae'r rhain yn nodi'r Polisïau Cyfrifyddu a fabwysiadwyd ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a datgeliadau sy'n ymwneud â'r datganiadau ariannol ac maent yn cynnwys datgeliadau pensiynau ac offerynnau ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid sy'n dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei ddefnyddio a'i ariannu o adnoddau (grantiau, ffioedd a thaliadau llywodraeth, treth gyngor a chyfraddau busnes) gan y Cyngor o'i gymharu â'r adnoddau hynny sy'n cael eu defnyddio neu eu hennill gan y Cyngor yn unol ag yn gyffredinol. arferion cyfrifyddu derbyniol. Mae hefyd yn dangos sut mae'r gwariant hwn yn cael ei ddyrannu at ddibenion gwneud penderfyniadau rhwng Cyfarwyddiaethau'r Cyngor. Mae incwm a gwariant y rhoddir cyfrif amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn cael eu cyflwyno'n llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**Casgliad**

Mae 2020-21 wedi bod yn flwyddyn heriol o ran pandemig Covid-19, ac yn heriol yn ariannol hefyd. Fodd bynnag, llwyddodd y Cyngor i aros o fewn ei gyllideb refeniw net er gwaethaf galwadau cynyddol am wasanaeth, yn enwedig o ystyried effaith pandemig Covid-19. Mae'n debygol y bydd y pandemig parhau i gael effaith fawr ar gyllid a darpariaeth gwasanaethau am y flwyddyn ariannol nesaf o leiaf, ac o bosibl y tu hwnt i hynny. Bydd y cyfnod heriol hwn yn cael effaith ariannol sylweddol arnom ni fel unigolion, ac ar ein trigolion, ein cymunedau a'n busnesau, a bydd angen ailedrych yn gyson ar y tybiaethau ariannol manwl sy'n sylfaen i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor er mwyn sicrhau gwydnwch ariannol parhaus y Cyngor.

# Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon

**Cyfrifoldebau'r Cyngor**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor:

- Wneud trefniadau priodol i weinyddu ei faterion ariannol ac i sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn y Cyngor, y Pennaeth Cyllid yw'r swyddog hwnnw.
- Rheoli ei faterion i sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau, a gwarchod ei asedau.
- Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

Signed: ____________________________________________ 22 Gorffennaf 2021

Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

**Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyngor yn unol â'r arferion priodol fel y maent wedi'u nodi yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod).

Wrth lunio'r Datganiad o Gyfrifon hwn, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso mewn modd cyson
- ffurfio barn ac amcangyfrifon rhesymol a darbodus
- cydymffurfio â Chod yr awdurdod lleol.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd:

- wedi cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a oedd yn gyfredol
- wedi cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

**Tystysgrif y Prif Swyddog Cyllid**

Rwy'n ardystio bod y Datganiad Cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 31 Mawrth 2021, ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.

Signed: ______________________________ 22 Gorffennaf 2021



# Datganiadau Ariannol

# Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

| 2019-20 | | | | | 2020-21 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros £'000 | Grantiau'r Llywodraeth £'000 | Incwm Gros £'000 | Gwariant Net £'000 | | Gwariant Gros £'000 | Grantiau'r Llywodraeth £'000 | Incwm Gros £'000 | Gwariant Net £'000 | Nodiadau |
| 164,452 | (28,167) | (10,326) | 125,959 | Addysg a Chymorth I Deuluoedd | 169,540 | (39,915) | (5,970) | 123,655 | |
| 99,469 | (7,332) | (17,919) | 74,218 | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 106,628 | (11,756) | (17,953) | 76,919 | |
| 53,945 | (8,090) | (5,466) | 40,389 | Cymunedau | 53,365 | (12,282) | (5,909) | 35,174 | |
| 74,483 | (50,653) | (2,961) | 20,869 | Prif Weithredwyr a Chyllid | 73,912 | (50,187) | (2,251) | 21,474 | |
| 18,453 | (175) | (300) | 17,978 | Gwasaneathau Canalog | 25,216 | (8,946) | (588) | 15,682 | |
| **410,802** | **(94,417)** | **(36,972)** | **279,413** | **Cost Gwasanaethau** | **428,661** | **(123,086)** | **(32,671)** | **272,904** | |
| | | | | **Gwariant Gweithredu Arall** | | | | | |
| 16,453 | | | 16,453 | Taliadau Praeseptau | 17,714 | | | 17,714 | 7 |
| 7,116 | | | 7,116 | Ardollau Taladwy | 7,471 | | | 7,471 | 7 |
| | | 215 | 215 | (Enillion)/colled ar waredu asedau (sefydlog) anghyfredol | 274 | | | 274 | |
| **23,569** | **-** | **215** | **23,784** | **Gwariant Gweithredu Arall** | **25,459** | **-** | **-** | **25,459** | |
| | | | | **Gwariant ac Incwm Cyllido a Buddsoddi** | | | | | |
| 4,551 | | | 4,551 | Llog sy'n daladwy ar ddyled | 4,550 | | | 4,550 | 31 |
| 48 | | | 48 | Elfen y llog mewn prydlesau cyllid (prydlesai) | 40 | | | 40 | 31 |
| 1,256 | | | 1,256 | Llog sy'n daladwy at daliadau unedol PFI | 1,203 | | | 1,203 | 13 |
| 6,120 | | | 6,120 | llog net ar Rwymedigaeth Buddion Diffiniedig Net | 6,460 | | | 6,460 | 30 |
| | | (1,099) | (1,099) | Llog Buddsoddiadua a Llog Arall sy'n Dderbyniadwy | | | (895) | (895) | 31 |
| | | | - | Newidiadau yng ngwerth teg eiddo buddsoddi | | | (455) | (455) | 22 |
| **11,975** | **-** | **(1,099)** | **10,876** | **Gwariant ac Incwm Cyllido a Buddsoddi** | **12,253** | **-** | **(1,350)** | **10,903** | |
| | | | | **Incwm Trethiant a Grantiau Amhenodol** | | | | | |
| | (145,354) | | (145,354) | Grant Cynnal Refeniw | | (157,816) | | (157,816) | 8 |
| | | (46,452) | (46,452) | Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | | | (45,312) | (45,312) | 9 |
| | | (96,957) | (96,957) | Y Dreth Cyngor | | (1,261) | (101,913) | (103,174) | 10 |
| | (11,798) | | (11,798) | Grantiau'r llywodraeth heb gysylltiad â gwasanaethau | | (12,325) | | (12,325) | 11 |
| **-** | **(157,152)** | **(143,409)** | **(300,561)** | **Incwm Trethiant a Grantiau Amhenodol** | **-** | **(171,402)** | **(147,225)** | **(318,627)** | |
| | | | | | | | | | |
| **446,346** | **(251,569)** | **(181,265)** | **13,512** | **(Gwarged) neu ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **466,373** | **(294,488)** | **(181,246)** | **(9,361)** | |
| | | (5,277) | (5,277) | (Gwarged) neu ddiffyg ar ailbrisio Eiddo, Peiriannau ac Offer | | | (10,416) | (10,416) | 29a |
| 4,476 | | | 4,476 | Colledion amhariad ar asedau anghyfredol a godwyd ar y Gronfa Ailbrisio | 2,646 | | | 2,646 | |
| 7,300 | | | 7,300 | (Enillion)/colledion Actiwaraidd ar rwymedigaethau pensiwn | 2,290 | | | 2,290 | 30 |
| | | | **6,499** | **(Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **(5,480)** | |
| | | | | | | | | | |
| | | | **20,011** | **Cyfanswm (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **(14,841)** | |

# Datganiad ar gyfer y Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn

| | Balans Cronfa'r Cyngor £'000 | Cronfeydd a Glustnodwyd £'000 | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf £'000 | Derbyniadau Cyfalaf heb eu Defnyddio £'000 | Cyfanswm y Cronfeydd Defnydd-iadwy £'000 | Cyfanswm y Cronfeydd Annefynydd-iadwy £'000 | Cyfanswm Cronfeydd yr Awdurdod £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019 a gariwyd ymlaen** | **8,776** | **48,107** | **17,922** | **1,482** | **76,287** | **95,561** | **171,848** |
| **Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn yn 2019-20** | | | | | | | |
| Cyfanswm Incwm a (Gwariant) Cynhwysfawr | (13,512) | | | | (13,512) | (6,499) | (20,011) |
| Addasiadau rhwng y sil gyfrifydda a'r sail ariannu o dan y rheoliadua (Nodyn 20) | 21,191 | | 686 | (1,165) | 20,712 | (20,712) | - |
| Trosglwyddiadau I Gronfeydd a Glustnodwyd (Nodyn 28) | (7,115) | 7,115 | | | - | | |
| **Cynnydd (Gostyngaid) yn 2019-20** | **564** | **7,115** | **686** | **(1,165)** | **7,200** | **(27,211)** | **(20,011)** |
| | | | | | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020 a gariwyd ymlaen** | **9,340** | **55,222** | **18,608** | **317** | **83,487** | **68,350** | **151,837** |

| | Balans Cronfa'r Cyngor £'000 | Cronfeydd a Glustnodwyd £'000 | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf £'000 | Derbyniadau Cyfalaf heb eu Defnyddio £'000 | Cyfanswm y Cronfeydd Defnydd-iadwy £'000 | Cyfanswm y Cronfeydd Annefynydd-iadwy £'000 | Cyfanswm Cronfeydd yr Awdurdod £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020 a gariwyd ymlaen** | **9,340** | **55,222** | **18,608** | **317** | **83,487** | **68,350** | **151,837** |
| **Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn yn 2020-21** | | | | | | | |
| Cyfanswm Incwm a (Gwariant) Cynhwysfawr | 9,361 | | | | 9,361 | 5,480 | 14,841 |
| Addasiadau rhwng y sil gyfrifydda a'r sail ariannu o dan y rheoliadua (Nodyn 20) | 18,697 | | 2,911 | (29) | 21,579 | (21,579) | - |
| Trosglwyddiadau I Gronfeydd a Glustnodwyd (Nodyn 28) | (27,626) | 27,626 | | | - | | |
| **Cynnydd (Gostyngaid) yn 2020-21** | **432** | **27,626** | **2,911** | **(29)** | **30,940** | **(16,099)** | **14,841** |
| | | | | | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021 a gariwyd ymlaen** | **9,772** | **82,848** | **21,519** | **288** | **114,427** | **52,251** | **166,678** |

# Mantolen

| 31 Mawrth 2020 £'000 | | | 31 Mawrth 2021 £'000 | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|
| | **Eiddo, Peiriannau ac Offer** | | | 21c |
| 425,796 | | Tir ac adeiladau eraill | 430,564 | |
| 6,742 | | Cerbydau, peiriannau, celfi ac offer | 7,843 | |
| 67,559 | | Seilwaith | 69,593 | |
| 4,912 | | Asedau cymunedol | 4,951 | |
| 816 | | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | 2,098 | |
| 17,108 | | Asedua gormodol nad ydynt yn cae eu cadw I'w gwerthu | 14,090 | |
| | **Asedau Treftadaeth - Regalia** | | | |
| 220 | **Dinesig** | | 220 | |
| 4,635 | **Eiddo Buddsoddi** | | 5,090 | 22 |
| 3,032 | **Ased anniriaethol** | | 2,471 | 21d |
| - | **Buddsoddiadau Hirdymor** | | - | 31 |
| **530,820** | **Asedau Hirdymor** | | **536,920** | |
| 25,097 | Buddsoddiadau Byrdymor | | 48,546 | 31 |
| 2,560 | Asedau sy'n cael eu cadw i'w gwerthu | | 2,500 | 24 |
| 678 | Stocrestrau | | 527 | |
| 36,342 | Dyledwyr Byrdymor | | 51,810 | 23 |
| 5,000 | Arian parod a Gwerthoedd Cyfwerth ag Arian Parod | | 3,050 | 31 |
| **69,677** | **Asedau Cyfredol** | | **106,433** | |
| (1,354) | Gorddrafft banc | | (4,703) | 31 |
| (915) | Benthyciadau Byrdymor | | (926) | 31 |
| (34,533) | Credydwyr Byrdymor | | (34,660) | 25 |
| (986) | Darpariaethau sy'n ddyledus mewn 1 flwyddyn | | (795) | 26 |
| **(37,788)** | **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | **(41,084)** | |
| (3,999) | Darpariaethau | | (3,120) | 26 |
| (97,401) | Benthyciadau Hirdymor | | (97,394) | 31 |
| | **Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill** | | | |
| (16,447) | | PFI a Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill | (16,802) | 27 |
| (289,190) | | Rhwymedigaeth Bensiynau Net | (310,290) | 30 |
| (3,835) | Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd o flaen llaw | | (7,985) | 21h |
| **(410,872)** | **Rhwymedigaethau Hirdymor** | | **(435,591)** | |
| **151,837** | **Asedau Net** | | **166,678** | |
| | **Cronfeydd Defnyddiadwy** | | | |
| 9,340 | | Cronfa'r Cyngor | 9,772 | |
| 55,222 | | Cronfeydd a Glustnodwyd | 82,848 | 28b |
| 18,608 | | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf | 21,519 | 28a |
| 317 | | Grantiau Cyfalaf heb eu Defnyddio | 288 | |
| | **Cronfeydd Annefnyddiadwy** | | | 29 |
| 145,386 | | Cronfa Ailbrisio | 148,639 | 29a |
| (289,190) | | Cronfa Bensiynau | (310,290) | 29b |
| 216,218 | | Cyfrif Addasu Cyfalaf | 217,810 | 29c |
| (706) | | Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol | (697) | |
| (3,358) | | Cyfrif Absenoldebau Iawndaledig Cronnol Byrdymor | (3,211) | |
| **151,837** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn** | | **166,678** | |

# Datganiad Llif Arian Parod

| 2019-20 £'000 | | 2020-21 £'000 | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| 13,512 | (Gwarged) / diffyg Net ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau | (9,361) | |
| (36,433) | Addasiadau i'r diffyg net ar y ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer symudiadau gwerthoedd heb fod yn arian parod | (24,527) | 34 |
| 12,723 | Addasiadau ar gyfer eitemau a gynhwyswyd yn y diffyg net ar y ddarpariaeth gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi a chyllido | 15,538 | |
| **(10,198)** | **Llifoedd Arian Parod Net p Weithgareddau Gweithredu** | **(18,350)** | 35 |
| 19,081 | Gweithgareddau Buddsoddi | 40,129 | 36 |
| (11,478) | Gweithgareddau Cyllido | (16,480) | 37 |
| **(2,595)** | **Cynnydd Net mewn Arian Parod a Gwerthoedd Cyfwerth ag Arian Parod** | **5,299** | |
| (1,051) | Arian Parod a Gwerthoedd Cyfwerth ag Arian Parod ar ddechrau'r Cyfnod Adrodd | (3,646) | |
| **(3,646)** | **Arian Parod a Gwerthoedd Cyfwerth ag Arian Parod ar ddiwedd y Cyfnod Adrodd** | **1,653** | |

Mae Datganiad Llif Arian Parod yn dangos y newidiadau mewn arian parod ac arian parod cyfatebol y Cyngor yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad hwn yn dangos sut mae'r Cyngor yn cynhyrchu ac yn defnyddio'r arian a chyfwerthoedd arian parod drwy ddosbarthu llif arian yn weithgareddau gweithredol, buddsoddi ac ariannu.




# Nodiadau i’r Datganiadau Ariannol

# Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol


| Nodyn | | Page Number |
|---|---|---|
| 1 | Datganiad o Bolisïau Cyfrifo | 22 |
| 2 | Dyfarniadau Critigol wrth Gymhwyso Polisïau Cyfrifyddu | 34 |
| 3 | Rhagdybiaethau a wnaed ynghylch y dyfodol a ffynonellau mawr eraill o ansicrwydd a amcangyfrifir | 34 |
| 4 | Dadansoddiad Gwariant a Chyllid | 36 |
| 5 | Datganiad Gwariant a Chyllido | 37 |
| 6 | Gwariant ac Incwm a Ddadansoddwyd yn ôl Natur | 39 |
| | **Nodiadau ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | |
| 7 | Praeseptau ac ardollau | 40 |
| 8 | Grant Cynnal Refeniw | 40 |
| 9 | Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR) | 40 |
| 10 | Y Dreth Gyngor | 40 |
| 11 | Grantiau | 41 |
| 12 | Lesoedd | 42 |
| 13 | Y Fenter Cyllid Preifat (PFI) | 42 |
| 14 | Trefniadau Cronfeydd Cyfun | 43 |
| 15 | Tâl y Swyddogion | 44 |
| 16 | Lwfansau'r Aelodau | 46 |
| 17 | Costau Archwilio Allanol | 47 |
| 18 | Cymryd rhan mewn Cydbwyllgorau a Threfniadau ar y Cyd | 47 |
| 19 | Trafodiadau Partïon Cysylltiedig | 47 |
| | **Nodiadau i'r Datganiad ar gyfer y Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn** | |
| 20 | Addasiadau rhwng Sail Cyfrifyddu a Sail Ariannu o dan y Rheoliadau | 49 |
| | **Nodiadau i'r Fantolen** | |
| 21 | Asedau anghyfredol | 52 |
| 22 | Eiddo Buddsoddi | 56 |
| 23 | Dyledwyr Byrdymor | 56 |
| 24 | Asedau a ddelir i'w Gwerthu | 57 |
| 25 | Credydwyr Byrdymor | 57 |
| 26 | Darpariaethau | 57 |
| 27 | PFI a Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill | 58 |
| 28 | Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy | 58 |
| 29 | Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy | 60 |
| 30 | Rhwymedigaethau Pensiynau, datgeliadau IAS 19 | 62 |
| 31 | Datgeliadau Offerynnau Ariannol | 68 |
| 32 | Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrod | 73 |
| 33 | Rhwymedigaethau Wrth Gefn | 74 |
| | **Nodiadau i'r Llif Arian Parod** | |
| 34 | Addasiadau ar gyfer Symudiadau Nad Ydynt yn Arian Parod | 75 |
| 35 | Gweithgareddau Gweithredol | 75 |
| 36 | Gweithgareddau Buddsoddi | 75 |
| 37 | Gweithgareddau Cyllido | 75 |

# 1. Polisïau Cyfrifo

## 1.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae’r Datganiad o Gyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 a’i sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn, sef 31 Mawrth 2021. Mae’n ofynnol i’r Cyngor baratoi Datganiad o Gyfrifon blynyddol yn ôl Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiadau) 2018, yn unol ag arferion cyfrifo priodol. Mae’r arferion hyn yn cynnwys Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod) 2020-21 a Chod Ymarfer Adrodd y Gwasanaeth 2020-21 a gefnogir gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Y confensiwn cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad o Gyfrifon yw cost hanesyddol yn bennaf, wedi ei addasu drwy ailbrisio gwerth rhai categorïau penodol o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

## 1.2 Safonau sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt wedi'u mabwysiadu eto

O dan y Cod Ymarfer ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21 (y Cod) mae’n ofynnol i’r Cyngor ddatgelu gwybodaeth sy’n ymwneud ag effaith ddisgwyliedig newid cyfrifyddu a fydd yn ofynnol yn ôl safon newydd sydd wedi’i chyhoeddi ond sydd heb ei mabwysiadu eto. Mae’r gofyniad hwn yn ymwneud â mabwysiadu’r safonau newydd neu ddiwygiedig a ganlyn yng Nghod 2020-21:

| Safon | Dyddiad effeithiol | Manylion pellach |
|---|---|---|
| **Diwygiadau i IfRS 3 Cyfuniadau Busnes** | **01 Ionawr 2022** | Mae’r Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) wedi gwneud newidiadau i IFRS 3 ‘Cyfuniadau Busnes’ sy’n diweddaru cyfeiriad a oedd wedi dyddio yn IFRS 3 heb newid ei ofynion yn sylweddol. Y newidiadau yw diweddaru IFRS 3 fel ei fod yn cyfeirio at Fframwaith Cysyniadol 2018 yn hytrach na Fframwaith 1989; ychwanegu at IFRS 3 ofyniad bod caffaelwr, ar gyfer trafodion a digwyddiadau eraill sydd o fewn cwmpas IAS 37 neu IFRIC 21, yn cymhwyso IAS 37 neu IFRIC 21 (yn hytrach na'r Fframwaith Cysyniadol) er mwyn nodi'r rhwymedigaethau y mae wedi'u cymryd arno mewn cyfuniad busnes; ac ychwanegu at IFRS 3 ddatganiad clir nad yw caffaelwr yn cydnabod asedau wrth gefn a gaffaelwyd mewn cyfuniad busnes. |
| **Diwygio Meincnod Cyfradd Llog: Diwygiadau i IFRS 9, IAS 39 ac IFRS 7** | **01 Ionawr 2020** | Mae'r IASB wedi cyhoeddi'r diwygiad hwn mewn ymateb i'r broses barhaus o ddiwygio meincnodau cyfradd llog ledled y byd. Nod y gwelliannau yw darparu rhyddhad ar gyfer cydberthnasau ‘hedging’. Disgwylir i lawer o gyfraddau cynnig rhwng banciau (IBORs) gael eu disodli gan y meincnod Cyfraddau Di-risg (RFRs) newydd. Un o'r materion mwyaf a gyflwynwyd drwy ddisodli IBORs yw'r effaith bosibl ar gyfrifyddu ‘hedge’ o ystyried y defnydd helaeth o feincnodau cyfradd llog mewn marchnadoedd ariannol byd-eang. |
| **Diwygio Meincnod Cyfradd Llog – Cam 2: Diwygiadau i IFRS 9, IAS 39, IFRS 7, IFRS 4 ac IFRS 16** | **01 Ionawr 2021** | Mae'r diwygiadau'n galluogi endidau i adlewyrchu effeithiau trosglwyddo o gyfraddau llog meincnod, megis cyfraddau cynnig rhwng banciau (IBORs) i gyfraddau llog meincnod amgen, heb arwain at effeithiau cyfrifyddu sydd ddim yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i ddefnyddwyr datganiadau ariannol. Mae'r diwygiadau'n effeithio yn bennaf ar endidau ag asedau ariannol, ar rwymedigaethau ariannol neu rwymedigaethau prydlesu sy'n destun diwygio meincnod cyfradd llog, a'r rhai sy'n cymhwyso'r gofynion cyfrifyddu ‘hedge’ yn IFRS 90 neu IAS 39 i berthynasau ‘hedging’ y mae'r diwygiad yn effeithio arnynt. |

Nid yw'r Cyngor o'r farn y bydd y newidiadau hyn yn cael unrhyw effaith ar Ddatganiadau 2020-21.

### 1.3 Croniadau incwm a gwariant

Rhoddir cyfrif am weithgarwch ariannol yn y flwyddyn y mae'n digwydd, nid yn unig pan dderbynnir neu pan wneir taliadau arian parod. Yn benodol:

- Caiff refeniw o werthu nwyddau ei gydnabod pan fydd y Cyngor yn trosglwyddo risgiau a manteision sylweddol perchnogaeth i'r prynwr a'i bod yn debygol y bydd y Cyngor yn elwa o fanteision ariannol y trosglwyddiad neu'r posibiliadau y mae'n ei gynnig o ran gwasanaethau.
- Caiff refeniw o ddarparu gwasanaethau ei gydnabod pan gall y Cyngor fesur yn ddibynadwy y canran o'r trosglwyddiad sydd wedi ei gwblhau a'i bod yn debygol y bydd y Cyngor yn elwa o fanteision ariannol y trosglwyddiad neu'r posibiliadau y mae'n ei gynnig o ran gwasanaethau.
- Cofnodir cyflenwadau fel gwariant wrth iddynt gael eu defnyddio - lle bo bwlch rhwng dyddiad derbyn cyflenwadau a'r defnydd ohonynt, cânt eu cynnwys fel stoc ar y Fantolen.
- Caiff treuliau sy'n gysylltiedig â derbyn gwasanaethau (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan gyflogwyr) eu cofnodi fel gwariant pan dderbynnir y gwasanaethau yn hytrach na phan wneir taliadau.
- Rhoddir cyfrif am incwm a llog sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau, ac sy'n daladwy ar fenthyciadau fel incwm a gwariant ar sail y gyfradd log gyfredol ar gyfer yr offeryn ariannol dan sylw, yn hytrach na'r llifoedd arian parod a osodwyd neu a bennwyd gan y contract.
- Pan gydnabuwyd refeniw a gwariant, ond na dderbyniwyd neu na thalwyd unrhyw arian parod, caiff dyledwr neu gredydwr ar gyfer y swm perthnasol ei gofnodi ar y Fantolen. Lle gallai amhariad fod ar ddyledion, bydd balans dyledwyr yn cael ei ostwng ar sail y gwahaniaeth rhwng y swm cario a llifoedd arian parod diwygiedig yn y dyfodol, a chodir tâl am yr amhariad hwnnw o refeniw.

### 1.4 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol

<u>Darpariaethau</u>

Os cynhelir digwyddiad gwneir darpariaeth sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu ffurfiannol ar y Cyngor sydd yn ôl pob tebyg yn gofyn am setliad drwy drosglwyddiad sydd o fudd economaidd neu yn cynnig posibiliadau o ran gwasanaethau, a gellir gwneud amcangyfrif rhesymol am gyfanswm y rhwymedigaeth. Er enghraifft, gallai'r Cyngor fod yn rhan o achos llys a allai arwain yn y pen draw at setliad neu at dalu iawndal.

Codir tâl am ddarpariaethau fel traul ar y llinell gwasanaeth priodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw'r Cyngor yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth. Mesurir y rhain yn unol â'r amcangyfrif gorau ar ddyddiad y fantolen o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth, gan ystyried unrhyw risg ac ansicrwydd perthnasol.

Pan wneir taliadau yn y pen draw, fe'u codir ar y ddarpariaeth a nodir ar y Fantolen. Caiff taliadau sydd wedi eu hamcangyfrif eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, ac os yw'n annhebygol y bydd angen gwneud trosglwyddiad buddiannau economaidd (neu fod y setliad yn is na'r disgwyl) caiff y ddarpariaeth ei gwyrdroi a'i chredydu yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

Os disgwylir y caiff cyfran neu'r cyfan o'r taliad sydd ei angen ar gyfer darpariaeth ei adhawlio gan barti arall (e.e. o hawliad yswiriant), caiff hyn ei gydnabod fel incwm ar gyfer y gwasanaeth perthnasol dim ond os oes sicrwydd pendant y derbynnir ad-daliad os yw'r Cyngor yn talu'r ddyled.

<u>Rhwymedigaethau Digwyddiadol</u>

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn bodoli os cynhaliwyd digwyddiad sy'n rhoi rhwymedigaeth bosibl ar y Cyngor y caiff ei fodolaeth ei gadarnhau dim ond yn achos neu yn niffyg achos digwyddiadau yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr dan reolaeth y Cyngor. Mae Rhwymedigaethau Digwyddiadol hefyd yn bodoli mewn amgylchiadau lle y gwneid darpariaeth fel arall ond ei bod naill ai'n annhebygol y bydd angen defnyddio llawer o adnoddau neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Ni chaiff rhwymedigaethau digwyddiadol eu cydnabod ar y Fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn yn y cyfrifon.

Asedau Digwyddiadol

Mae ased digwyddiadol yn bodoli os cynhaliwyd digwyddiad sy’n rhoi ased posibl i’r Cyngor y caiff ei fodolaeth ei gadarnhau dim ond yn achos neu yn niffyg achos digwyddiadau yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr dan reolaeth y Cyngor.

Ni chaiff asedau digwyddiadol eu cydnabod ar y Fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn yn y cyfrifon os yw’n debygol y daw manteision economaidd neu bosibiliadau o ran gwasanaethau i ran y Cyngor.

**1.5 Cronfeydd Wrth Gefn**

Mae’r Cyngor yn neilltuo symiau penodol fel cronfeydd wrth gefn at ddibenion polisïau’r dyfodol neu oherwydd digwyddiadau annisgwyl. Caiff cronfeydd wrth gefn eu creu drwy briodoli symiau o Weddill Cronfa’r Cyngor yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd. Os cyfyd gwariant sydd i’w dalu o gronfa wrth gefn, fe’i codir ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno i’w nodi yn erbyn y Gweddill neu’r Diffyg yn gysylltiedig â’r Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff y gronfa wrth gefn ei phriodoli wedyn yn ôl i Weddill Cronfa’r Cyngor yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd fel nad oes unrhyw daliadau net yn erbyn y dreth gyngor ar gyfer y gwariant.

Cedwir rhai cronfeydd wrth gefn i reoli’r prosesau cyfrifyddu ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol, buddiannau gweithwyr ac ymddeoliad. Mae’r rhain yn gronfeydd ‘na ellir eu defnyddio’ fel y disgrifir yn Nodyn 29 y cyfrifon.

**1.6 Grantiau a chyfraniadau’r Llywodraeth**

Boed grantiau llywodraeth a chyfraniadau trydydd parti yn cael eu talu ar gyfrif, mewn rhandaliadau neu ôl-daliadau, cânt eu cydnabod fel dyledion i’r Cyngor os oes sicrwydd rhesymol:

- y bydd y Cyngor yn cydymffurfio â’r amodau sydd ynghlwm â’r taliadau, ac
- y derbynnir y grant / cyfraniad.

Ni chaiff symiau y cydnabyddir eu bod yn ddyledus i’r Cyngor eu credydu i’r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr nes y bodlonir yr amodau sy’n gysylltiedig â’r grant neu’r cyfraniad. Mae’r amodau yn dynodi bod yn rhaid i’r manteision economaidd yn y dyfodol neu’r posibiliadau o ran gwasanaethau sydd ynghlwm â’r ased a brynir gyda’r grant neu’r cyfraniad gael eu defnyddio gan y sawl sy’n ei dderbyn fel y nodwyd, neu bydd yn rhaid dychwelyd y manteision economaidd neu’r posibiliadau o ran gwasanaethau i’r rhoddwr.

Os rhoddwyd arian fel grant neu gyfraniad ac nas bodlonwyd yr amodau ar gyfer hynny, yna nodir hyn fel credydwyr ar y Fantolen. Os bodlonir yr amodau, caiff y grant neu’r cyfraniad ei gredydu i’r llinell gwasanaeth perthnasol (grantiau a chyfraniadau refeniw wedi eu priodoli) neu i Incwm Grant Amhenodol a Threthiant (grantiau refeniw heb eu clustnodi a phob grant cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Os caiff grantiau cyfalaf eu credydu i’r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu gwyrdroi o Weddill Cronfa’r Cyngor yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd. Os nad yw’r grant wedi ei ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei symud i’r Gronfa Grantiau Cyfalaf Anghymwys. Caiff symiau yn y Gronfa Grantiau Cyfalaf Anghymwys eu trosglwyddo i’r Cyfrif Cymhwyso Cyfalaf ar ôl eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

**1.7 Buddion cyflogeion**

Buddion sy’n Daladwy yn ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr i weithwyr yw’r rheini sydd angen eu talu o fewn 12 mis o ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis enillion a chyflogau, gwyliau blynyddol â thâl, tâl absenoldeb salwch a bonysau ar gyfer gweithwyr presennol. Fe’u cydnabyddir fel gwariant ar wasanaethau yn y flwyddyn y mae gweithwyr yn rhoi gwasanaeth i’r Cyngor. Os nad yw gweithiwr wedi defnyddio’r gwyliau sy’n ddyledus iddo cyn diwedd y flwyddyn, mae modd cronni’r gwyliau a’u dwyn ymlaen i’r flwyddyn ariannol nesaf. Codir y croniad ar y llinell Cost Gwasanaeth priodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yna caiff ei wyrdroi o Weddill Cronfa’r Cyngor yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd fel y codir buddion gwyliau ar y refeniw yn y flwyddyn ariannol lle bu’r absenoldeb gwyliau.

Buddion Terfynu

Buddion terfynu yw'r symiau sy'n daladwy oherwydd penderfyniad y Cyngor i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad swyddog i dderbyn ymddeoliad gwirfoddol. Fe'u codir ar sail croniadau ar y llinell Cost Gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fo'r Cyngor yn amlwg wedi ymrwymo i ddiddymu cyflogaeth swyddog neu grŵp o swyddogion neu yn gwneud cynnig i annog diswyddiadau gwirfoddol.

Os yw buddion terfynu yn cynnwys cynyddu pensiynau, mae darpariaeth statudol yn gofyn bod angen codi ar Weddill Cronfa'r Cyngor y swm sy'n ddyledus gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn neu'r pensiynwr yn y flwyddyn honno, nid y swm y cyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd, mae angen gwneud dyraniadau i'r Gronfa Bensiwn ac oddi wrthi er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau tybiannol ar gyfer buddion terfynu sy'n cynnwys cynyddu pensiwn a'u disodli gan ddebydau am yr arian a delir i'r gronfa bensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau cyffelyb sy'n daladwy ond heb eto eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

Buddion ar ôl Cyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyngor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn gwahanol. Mae'r ddau gynllun yn cynnig buddion penodol i aelodau (cyfandaliadau ymddeol a phensiynau), a enillwyd pan oedd y gweithwyr yn gweithio i'r Cyngor.

Y Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan Pensiynau Athrawon ar ran yr Adran Addysg (DfE). Mae trefniadau'r cynllun hwn yn golygu na ellir neilltuo rhwymedigaethau am fuddion yn benodol i'r Cyngor fel arfer. Gan hynny, rhoddir cyfrif am y cynllun hwn fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig ac ni chaiff unrhyw rwymedigaethau i dalu buddion yn y dyfodol eu cydnabod ar y Fantolen. Mae'r Llinell Addysg a Chymorth i Deuluoedd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynnwys taliadau cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i Bensiynau Athrawon yn y flwyddyn.

Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – mae hawl gan weithwyr eraill i fod yn aelodau o Gronfa Pensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Cyfrifir Cynllun yr Awdurdod Lleol fel cynllun budd diffiniedig:

- Caiff ymrwymiadau'r cynllun pensiwn a briodolir i'r Cyngor eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio dull unedol arfaethedig h.y. asesiad o daliadau a wneir yn y dyfodol mewn cysylltiad â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan weithwyr. Mae hyn yn seiliedig ar dybiaethau ynglŷn â chyfraddau marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr ac ati, ac amcanestyniadau enillion arfaethedig ar gyfer gweithwyr presennol.
- Caiff yr ymrwymiadau eu gostwng i'w gwerth i gyfateb i brisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt.
- Caiff asedau'r gronfa bensiwn a briodolir i'r Cyngor eu cynnwys ar y Fantolen yn unol â'u gwerth teg:

    - Gwarannau wedi eu dyfynnu – pris cynnig cyfredol
    - Gwarannau heb eu dyfynnu – rhagamcan proffesiynol
    - Eiddo – gwerth y farchnad

- Caiff y newid yn yr ymrwymiad pensiwn net ei ddadansoddi i'r cydrannau canlynol:

    - Cost y gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni – wedi'i ddyrannu yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau y gweithiodd y cyflogeion iddynt
    - Cost y gwasanaeth blaenorol – y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i ddiwygio neu gwtogi cynllun y mae ei effaith yn ymwneud â nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – wedi'i ddebydu i'r Gwasanaethau Canolog yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
    - Y llog net ar yr ymrwymiad budd net diffiniedig (ased), h.y. y draul llog net ar gyfer y Cyngor - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad budd net diffiniedig (ased) sy'n deillio o dreigl amser ac a godir ar y llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant

Cynhwysfawr. Cyfrifir hyn drwy ddefnyddio'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir i fesur y rhwymedigaeth budd diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod i'r ymrwymiad budd diffiniedig net (ased) - gan ystyried unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad budd diffiniedig net (ased) yn ystod y cyfnod oherwydd cyfraniadau a thaliadau buddion.

- Adfesuriadau yn cynnwys:

- Yr enillion yn deillio o asedau'r cynllun – ac eithrio symiau wedi eu cynnwys yn y llog net a geir ar y ddyled budd diffiniedig (ased) – a godir ar y Gronfa Bensiwn ac ar yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.
- Enillion a cholledion actiwaraidd - newidiadau yn yr ymrwymiadau pensiwn net oherwydd ni ddigwyddodd pethau fel y rhagdybiwyd wrth lunio'r prisiad actiwaraidd diwethaf neu oherwydd bod yr actiwarïaid wedi diweddaru eu rhagdybiaethau - a godir ar y Gronfa Bensiwn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall:

  - Cyfraniadau i'r gronfa bensiwn - arian a delir fel cyfraniad y cyflogwr i'r gronfa bensiwn i setlo ymrwymiadau - ni chyfrifir hyn fel traul.

- Mewn perthynas â buddion ymddeol, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol codi ar falans Cronfa'r Cyngor am y swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i bensiynwyr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifwyd yn ôl y safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad am Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn, mae hyn yn golygu bod trosglwyddiadau i ac o'r Gronfa wrth Gefn Pensiynau i dynnu'r debydau a chredydau tybiannol ar gyfer buddion ymddeol allan a'u disodli â debydau am yr arian parod a dalwyd i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ar gyfer unrhyw symiau sy'n daladwy i'r gronfa ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Felly mae'r balans negatif sy'n codi ar y Gronfa wrth Gefn Pensiynau'n mesur yr effaith fuddiol i Gronfa'r Cyngor o ganlyniad i orfod rhoi cyfrif am fuddion ymddeol ar sail llifoedd arian yn hytrach na buddion a enillwyd gan gyflogeion.

- Mae gan y Cyngor hefyd rymoedd cyfyngedig i ddyfarnu buddion ymddeol dewisol yn achos ymddeoliad cynnar. Caiff unrhyw ymrwymiadau a ragwelir oherwydd dyfarniad i unrhyw aelod o staff (gan gynnwys athrawon) eu cronni yn y flwyddyn y penderfynwyd gwneud y dyfarniad a'u cyfrifo gan ddefnyddio'r un polisïau sy'n berthnasol i Gronfa Bensiwn yr Awdurdod Lleol.

**1.8 TAW**

Caiff TAW sy'n daladwy ei gynnwys fel traul dim ond i'r graddau nad oes modd ei adhawlio gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Caiff TAW y mae modd ei dderbyn ei eithrio o'r incwm.

**1.9 Gorbenion a Gwasanaethau Cefnogi**

Yn unol â newidiadau yn y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol (Y Cod) dangosir gorbenion a gwasanaethau cefnogi yn y gwasanaeth perthnasol lle gwnaethant darddu ac ni chant eu hailgodi ar feysydd cefnogi gwasanaethau. Caiff unrhyw incwm mewnol a ddaw yn sgil trosglwyddiadau rhwng adrannau ei ddangos yn y llinell darparu gwasanaeth a dangosir y tâl cyfatebol yn y llinell derbyn gwasanaeth.

**1.10 Asedau Anniriaethol**

Mae'r Cyngor yn cyfrifo meddalwedd yn asedau anniriaethol i'r graddau nad yw'r feddalwedd yn rhan greiddiol o system TG benodol ac y caiff ei chyfrifo fel rhan o eitem caledwedd Eiddo, Offer a Chyfarpar. Mae asedau anniriaethol yn berthnasol i gostau trwydded a datblygu meddalwedd System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS).

Rhoddir terfyn oes defnyddiol i bob meddalwedd, yn seiliedig ar asesiadau o'r cyfnod y mae disgwyl y bydd y feddalwedd o ddefnydd i'r Cyngor. Y ffigur oes ddefnyddiol mae Cyngor System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn ei ddefnyddio yw 8 mlynedd. Caiff yr ased anniriaethol ei amorteiddio ar sail llinell syth dros gyfnod yr oes ddefnyddiol ac fe'i codir ar y llinell Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**1.11 Eiddo, Offer a Chyfarpar**

Mae gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Offer a Chyfarpar yn cael ei gyfalafu ar sail croniadau, ar yr amod ei bod yn debyg y bydd y buddion economaidd yn y dyfodol neu'r potensial ar gyfer gwasanaeth sy'n perthyn i'r eitem yn llifo i'r Cyngor a bod modd i gost yr eitem gael ei mesur mewn modd dibynadwy. Mae gwariant sy'n cynnal potensial ased i roi buddion economaidd yn y dyfodol neu'r potensial ar gyfer gwasanaeth ond nad yw'n ychwanegu ato (sef trwsio a chynnal-a-chadw) yn cael ei godi fel traul pan fydd yn cael ei ysgwyddo.

Cydnabyddir yr holl wariant ar Eiddo, Offer a Chyfarpar, ni waeth beth am ei werth. Bernir nad yw gwariant o dan £40,000 yn peri gwelliant a'i fod wedi'i amharu ar unwaith, oni bai bod y gwariant dros gyfnod o fwy nag un flwyddyn yn adio'n gronnol i fwy na'r gwerth hwn.

**Mesur**

Mae asedau'n cael eu mesur ar y dechrau yn ôl eu cost, sef y pris prynu a'r holl wariant sydd i'w briodoli'n uniongyrchol i'r broses o ddod â'r ased i'r cyflwr sy'n angenrheidiol er mwyn iddo allu gweithredu yn y modd a fwriedir. Wedyn mae'r asedau'n cael eu cario yn y fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur a ganlyn:

- **Tir ac adeiladau** – gwerth cyfredol, a bennir fel y swm a gâi ei dalu am yr ased yn ei ddiben presennol (gwerth diben presennol – EUV)
- **Eiddo gweithredol anarbenigol** – gwerth diben presennol (EUV)
- **Eiddo gweithredol arbenigol (megis ysgolion)** – cost amnewid â dibrisiant (DRC)
- **Cerbydau, offer a chyfarpar** – cost hanesyddol â dibrisiant
- **Asedau cymunedol** – cost hanesyddol
- **Asedau sy'n cael eu hadeiladu** – cost hanesyddol (nes iddynt ddod yn weithredol)
- **Asedau seilwaith** – cost hanesyddol â dibrisiant
- **Asedau gormodol ac eiddo buddsoddi** – gwerth teg
- **Asedau a ddelir i'w gwerthu** – yr isaf o'r swm cario a'r gwerth teg llai costau gwerthu

Bernir mai ei werth teg yw cost ased a geir heblaw drwy ei brynu, oni bai nad oes sylwedd masnachol i'r caffaeliad (h.y. na fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian parod y Cyngor). Os felly, pan geir ased trwy gyfrwng cyfnewid, cost y caffaeliad yw swm cario'r ased a ildiwyd gan y Cyngor. Nid yw'r cyngor yn cyfalafu costau benthyca a ysgwyddir tra bo asedau'n cael eu hadeiladu.

**Ailbrisio**

Mae asedau a gynhwysir yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg neu eu gwerth presennol yn cael eu hailbrisio'n ddigon rheolaidd i sicrhau nad yw eu swm cario yn sylweddol wahanol i'w gwerth teg neu eu gwerth presennol ar ddiwedd y flwyddyn. Mae asedau eiddo'r Cyngor yn cael eu hailbrisio ar sail rhaglen dreigl dros dair blynedd. Mae enillion drwy ailbrisio ers 1 Ebrill 2007 yn unig yn cael eu cydnabod yn y Gronfa Ailbrisio, sef dyddiad sefydlu'r gronfa honno. Mae enillion drwy ailbrisiadau blaenorol wedi'u cyfuno yn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

**Amhariad**

Mae asedau'n cael eu hasesu ar ddiwedd pob blwyddyn i weld a oes arwydd y gall fod amhariad arnynt. Os ceir arwyddion ac os amcangyfrifir bod unrhyw wahaniaethau posibl yn sylweddol, amcangyfrifir faint o'r ased a all gael ei adfer ac, os yw hyn yn llai na swm cario'r ased, mae colled oherwydd amhariad yn cael ei gydnabod ar gyfer y diffyg. Lle mae enillion drwy ailbrisiadau blaenorol wedi bod yn erbyn yr ased a ddelir yn y Gronfa Ailbrisio, mae unrhyw golled ddilynol yn cael ei hysgrifennu i ddechrau yn erbyn y Gronfa Ailbrisio gronedig a chodir unrhyw falans yn erbyn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**Dibrisiant**

Darperir ar gyfer dibrisiant ar bob ased Eiddo, Peiriannau ac Offer drwy fynd ati'n systemataidd i ddyrannu eu symiau dibrisiant dros eu hoes ddefnyddiol. Ceir eithriadau ar gyfer:

- Asedau treftadaeth
- Asedau heb oes ddefnyddiol feidraidd a all gael ei chyfrifo, megis tir rhydd-ddaliol
- Asedau nad ydynt ar gael i'w defnyddio eto h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu, ac asedau a ddelir i'w gwerthu.

Cyfrifir dibrisiant ar werth yr ased ar ddechrau'r flwyddyn a hynny ar y seiliau a ganlyn:

| Ased | Polisi | Oes |
|---|---|---|
| Tir | Ni chodi dibrisiant | D/G |
| Adeiladau | Dibrisiant llinell syth ar yr amcangyfrif o'r oes weddilliol | Yn unol â chyngor y Prisiwr (rhwng 1 a 79 mlynedd) |
| Cerbydau, offer a chyfarpar | Dibrisiant llinell syth ar yr amcangyfrif o'r oes weddilliol | 3 - 10 mlynedd |
| Seilwaith – Pontydd | Dibrisiant llinell syth ar yr amcangyfrif o'r oes weddilliol | 30 mlynedd |
| Seilwaith – Ffyrdd | Dibrisiant llinell syth ar yr amcangyfrif o'r oes weddilliol | 15 mlynedd |
| Seilwaith - Arall | Dibrisiant llinell syth ar yr amcangyfrif o'r oes weddilliol | 1 - 30 mlynedd |

Mae enillion drwy ailbrisio yn cael eu dibrisio hefyd, gyda swm sy'n hafal i'r gwahaniaeth rhwng y gwerth presennol a'r dibrisiant yn cael ei godi ar yr asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi bod yn daladwy ar sail eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisio i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

**Cydranoli**

Mae asedau a brynir neu a ailbrisir yn ystod y flwyddyn yn cael eu hadolygu i gadarnhau a fydd i unrhyw ran o'r ased oes ddefnyddiol sy'n bur wahanol ac effaith sylweddol ar ddibrisiant. Os felly, bydd yr ased yn cael ei 'gydranoli' a phennir dibrisiant y rhannau gwahanol dros eu priod oes ddefnyddiol. O fewn portffolio asedau'r Cyngor ceir nifer o ddosbarthiadau o asedau lle nad ystyrir eu cydranoli, gan gynnwys:

- Cyfarpar – gan y bernir bod hwnnw'n amherthnasol
- Dosbarthiadau o asedau nad ydyn nhw'n cael eu dibrisio – megis tir, eiddo buddsoddi, asedau treftadaeth, asedau cymunedol ac asedau a ddelir i'w gwerthu.

**Gwarediadau ac Asedau Anghyfredol a Ddelir i'w Gwerthu**

Pan ddaw hi'n debygol y bydd swm cario ased yn cael ei adennill yn bennaf drwy werthiant yn hytrach na thrwy barhau i'w ddefnyddio, mae'n cael ei ailddosbarthu'n Ased a Ddelwir i'w Werthu. Dyma'r meini prawf ynglŷn a nodi asedau fel asedau sy'n cael eu dal i'w gwerthu:

- Ar gael i'w gwerthu ar unwaith yn eu cyflwr presennol
- Tebygol iawn o gael eu gwerthu
- Wrthi'n cael eu marchnata
- Disgwylir cwblhau'r gwerthu o fewn 12 mis.

Mae symiau a dderbynnir ar gyfer gwarediad o fwy na £10,000 yn cael eu categoreiddio fel derbyniadau cyfalaf.

**1.12 Asedau Treftadaeth**

Asedau Treftadaeth yw'r asedau hynny y bwriedir iddynt gael eu cadw mewn ymddiriedaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol oherwydd eu cysylltiadau diwylliannol, amgylcheddol neu hanesyddol. Mae Asedau Treftadaeth yn cael eu cydnabod a'u mesur (gan gynnwys trin enillion a cholledion ailbrisio) yn unol â

pholisïau cyfrifyddu'r awdurdod ar eiddo, offer a chyfarpar. Mae'r Cyngor yn cydnabod ei regalia dinesig a nifer o beintiadau fel asedau treftadaeth yn y Fantolen yn ôl y prisiad yswiriant. Ychwanegwyd gwerth y peintiadau at y Fantolen yn ystod 2017-18 ar sail prisiad yswiriant gan briswyr proffesiynol yn ystod y flwyddyn. Yn ôl y Cod, does dim isafswm cyfnod rhagnodedig rhwng prisiadau ac nid yw'r Cyngor yn bwriadu ailbrisio ei asedau treftadaeth yn y dyfodol agos oni fydd tystiolaeth o amhariad megis dirywiad neu niwed ffisegol, neu oni fydd amheuon ynglŷn â'u dilysrwydd yn codi.

### 1.13 Codiadau ar y gyllideb refeniw am asedau anghyfredol

Caiff gwasanaethau eu debydu gyda'r symiau canlynol i gofnodi gwir gost dal asedau sefydlog dros y flwyddyn:

- Dibrisiant a briodolir i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol
- Colledion ailbrisio a diffygiant asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth os nad oes enillion cronedig yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn y mae modd dileu'r ddyled yn eu herbyn.

Nid oes angen i'r Cyngor godi treth gyngor i ariannu dibrisiant, ailbrisio, colledion diffygiant neu amorteiddio. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddo wneud darpariaeth flynyddol ddarbodus o'r refeniw i gyfrannu at y lleihad yn ei anghenion benthyca cyffredinol. Manylir ar hyn yn Natganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw Blynyddol y Cyngor. Mae'n gwahaniaethu rhwng gwariant cyfalaf a gefnogir, gwariant cyfalaf nas cefnogir a Phrydlesi Ariannol / PFI. Caiff dibrisiant, ailbrisio a cholledion diffygiant ac amorteiddio eu disodli felly gan yr Isafswm Darpariaeth Refeniw hwn ar ffurf trosglwyddiad cymhwyso gyda'r Cyfrif Cymhwyso Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd am y gwahaniaeth rhwng y ddau. Mae'r Cyngor yn codi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar sail llinell syth dros 45 mlynedd. Mae hyn yn sicrhau bod costau gwariant cyfalaf a gefnogir yn cael eu gwasgaru'n gyfartal dros oes asedau, a bod y ddyled yn cael ei thalu'n llawn o fewn deugain a phump o flynyddoedd.

### 1.14 Gwariant Refeniw a Ariennir o Adnoddau Cyfalaf dan Statud (REFCUS)

Caiff arian a wariwyd yn ystod y flwyddyn ac y mae modd ei gyfalafu dan ddarpariaethau statudol ond nad yw'n arwain at greu asedau anghyfredol ei godi fel gwariant ar y gwasanaeth penodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn honno. Mae enghreifftiau o wariant o'r fath yn cynnwys grantiau gwella cartrefi, grantiau gwella trefi, dymchwel adeiladau ac astudiaethau dichonoldeb tir. Os yw'r Cyngor wedi penderfynu talu costau'r rhain o adnoddau cyfalaf sy'n bodoli eisoes neu drwy fenthyg, mae trosglwyddiad yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd o Weddill Cronfa'r Cyngor i'r Gronfa Cymhwyso Cyfalaf yn gwyrdroi'r symiau a godir fel nad oes effaith ar lefel y dreth gyngor. Os yw'r gwariant hwn wedi ei ariannu gan grantiau neu gyfraniadau, priodolir hyn i'r maes gwasanaeth perthnasol lle codwyd y gwariant.

### 1.15 Lesoedd

Caiff lesoedd eu cyfrif yn lesoedd cyllid os yw telerau'r les yn trosglwyddo bron iawn pob un o'r peryglon a'r manteision sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth yr eiddo, offer neu gyfarpar, o'r lesydd i'r lesddeiliad. Caiff pob les arall eu cyfrif yn lesoedd gweithredol.

Os yw les yn ymwneud â thir ac adeiladau, caiff yr elfennau tir ac adeiladau eu hystyried ar wahân ar gyfer dosbarthiad.

Caiff trefniadau nad oes ganddynt statws cyfreithiol les, ond sy'n cydnabod hawl i ddefnyddio ased yn gyfnewid am dâl, eu cyfrifo yn unol â'r polisi hwn os yw cyflawni'r cytundeb yn ddibynnol ar ddefnyddio asedau penodol.

**Y Cyngor fel Lessee**

<u>Prydlesau Gweithredu</u>

Codir rhenti a delir o dan brydlesi gweithredol ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel cost y gwasanaethau sy'n elwa o ddefnyddio'r eiddo, peiriannau neu offer ar brydles. Codir taliadau ar sail llinell syth dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyfateb i batrwm y taliadau (e.e. os oes cyfnod di-rent ar ddechrau'r brydles).

**Y Cyngor fel Lesydd**

Prydlesau Gweithredu

Pan fydd y Cyngor yn rhoi prydles weithredol dros eiddo neu eitem o beiriant neu offer, cedwir yr ased yn y Fantolen. Mae incwm rhent yn cael ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Gwneir credydau ar sail llinell syth dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyfateb i batrwm y taliadau (e.e. telir premiwm ar ddechrau'r brydles). Mae costau uniongyrchol cychwynnol yr eir iddynt wrth drafod a threfnu'r brydles yn cael eu hychwanegu at swm cario'r ased perthnasol a'u codi fel cost dros dymor y brydles ar yr un sail ag incwm rhent.

**1.16 Offerynnau Ariannol**

Offeryn ariannol yw contract sy'n creu ased ariannol yn y naill endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti yn yr endid arall. Nid yw trafodion heb gyfnewid, fel rhai sy'n gysylltiedig â threthi a grantiau'r llywodraeth yn creu offerynnau ariannol.

**Asedau Ariannol**

Ased ariannol yw'r hawl i gael buddion economaidd yn y dyfodol sydd o dan reolaeth y Cyngor ac a gynrychiolir gan arian parod, offerynnau ecwiti, neu hawl mewn contract i dderbyn arian parod neu asedau ariannol eraill, neu hawl i gyfnewid asedau a rhwymedigaethau ariannol ag endid arall a allai fod yn ffafriol i'r Cyngor. Dosberthir asedau ariannol ar sail dull dosbarthu a mesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer dal asedau ariannol a'u nodweddion o ran arian parod. Ceir tri phrif ddosbarth o asedau ariannol, wedi'u mesur ar sail:

- cost wedi'i hamorteiddio
- gwerth teg drwy elw neu golled (FVPL), a
- gwerth teg drwy incwm cynhwysfawr arall (FVOCI).

Model busnes y Cyngor yw dal buddsoddiadau i gasglu llifoedd arian parod contractiol. Mae asedau ariannol felly wedi'u dosbarthu'n gost amorteiddiedig am eu bod yn cael eu dal er mwyn talu prifswm a llog yn unig.

Asedau Ariannol a ddelir ar Gost Amorteiddiedig

Caiff asedau ariannol a fesurir ar sail cost amorteiddiedig eu cydnabod ar y Fantolen pan fydd y Cyngor yn barti i ddarpariaethau contractiol offeryn ariannol, ac fe'u mesurir i ddechrau ar sail gwerth teg, sef cost y trafodyn fel arfer. Wedi hynny cânt eu mesur ar sail eu cost amorteiddiedig. Mae credydau blynyddol i'r Llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (DIGC) yn cynrychioli buddsoddiadau a'r incwm sydd yn dderbyniadwy o ran llog. Ar gyfer asedau ariannol a ddelir gan y Cyngor, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir ar y Fantolen yw'r prifswm gweddilliol sy'n dderbyniadwy (plws incwm llog a buddsoddiad cronedig).

Bydd unrhyw enillion neu golledion ar ôl dileu cydnabyddiaeth o ased wedi'u credydu neu eu debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y DIGC.

Model Colli Credyd Disgwyliedig

Mae'r Cyngor yn cydnabod colledion credyd disgwyliedig ar ei holl asedau ariannol a ddelir ar gost amorteiddiedig, naill ai ar sail 12 mis neu ar sail oes. Dim ond colledion oes a gaiff eu cydnabod ar gyfer symiau derbyniadwy drwy fasnach (dyledwyr) a ddelir gan y Cyngor.

Cyfrifir colledion amhariad i adlewyrchu'r disgwyliad na cheir llifoedd arian parod yn y dyfodol oherwydd gallai'r benthyciwr fethu â chyflawni ei rwymedigaethau. Mae risg credyd yn ystyriaeth hollbwysig wrth asesu colledion. Os bydd risg wedi cynyddu'n sylweddol ers cydnabod offeryn yn wreiddiol, tybir colledion ar sail oes. Os nad yw'r risg wedi cynyddu'n sylweddol, neu os yw'n parhau'n isel, caiff colledion eu hasesu ar sail colledion disgwyliedig dros 12 mis.

**Rhwymedigaethau Ariannol**

Rhwymedigaeth ariannol yw rhwymedigaeth i drosglwyddo buddion economaidd a reolir gan y Cyngor a gall gael ei chynrychioli gan rwymedigaeth mewn contract i roi arian parod neu asedau ariannol neu rwymedigaeth i gyfnewid asedau a rhwymedigaeth ariannol ag endid arall a allai fod yn anffafriol i'r Cyngor. Caiff rhwymedigaethau ariannol y Cyngor eu mesur i ddechrau ar sail eu gwerth teg a'u cario ar sail eu cost amorteiddiedig. Mae taliadau blynyddol i'r adran Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer llogau sy'n daladwy yn cael eu seilio ar swm cario'r rhwymedigaeth, wedi'i luosi â'r gyfradd log sydd mewn grym ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r benthyciadau sydd gan y Cyngor, mae hyn yn golygu mai'r swm a welir yn y Fantolen yw'r prifswm sy'n dal ar ôl i'w ad-dalu ynghyd ag unrhyw logau cronedig a llog a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr am y flwyddyn yn unol â chytundeb y benthyciad.

Mae gan y Cyngor dri benthyciad Dewis Rhoddwr Benthyciadau Dewis y Benthyciwr (LOBO) a chanddynt gyfraddau llog grisiog. Defnyddiwyd y gyfradd log a oedd mewn grym ar gyfer y rhain fel eu bod yn symiau wedi'u hail-fesur ar gyfer y LOBOs ar y Fantolen.

Nid yw'r Cyngor yn dal unrhyw asedau na rhwymedigaethau ariannol ar sail Gwerth Teg, ond mae'n ofynnol iddo ddarparu gwybodaeth am werth teg fel bo'n briodol. Mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur wedi'u categoreiddio yn unol â'r tair lefel a ganlyn:

- Mewnbynnau Lefel 1 - dyfynbrisiau (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rwymedigaethau cyfatebol y gall y Cyngor eu cyrchu ar ddyddiad y mesuriad.
- Mewnbynnau Lefel 2 - mewnbynnau ar wahân i'r dyfynbrisiau sydd wedi'u cynnwys yn Lefel 1 sy'n arsylladwy ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
- Mewnbynnau Lefel 3 - mewnbynnau na ellir eu harsyllu.

**1.17 Rhestrau Eiddo a Chytundebau Hir Dymor**

Caiff rhestrau eiddo eu cynnwys ar y Fantolen yn ôl y gost isaf a'r gwerth net sylweddoladwy. Bydd gwaith sydd ar y gweill yn destun prisiad interim ar ddiwedd y flwyddyn a chaiff ei gofnodi ar y Fantolen ar sail y gost ac unrhyw elw y mae modd ei briodoli'n rhesymol i'r gwaith.

Caiff cytundebau hirdymor eu cyfrifo ar sail codi gwerth y gwaith a'r gwasanaethau a dderbynnir dan y cytundeb yn ystod y flwyddyn ariannol ar y Gwarged neu'r Diffyg.

**1.18 Mentrau Cyllid Preifat (PFI)**

Contractau a chytundebau i dderbyn gwasanaethau yw Mentrau Cyllid Preifat, lle caiff y cyfrifoldeb o sicrhau bod yr eiddo, offer a chyfarpar sydd ei angen i ddarparu'r gwasanaethau yn cael ei drosglwyddo i gontractwr y Mentrau Cyllid Preifat. Oherwydd y tybir mai'r Cyngor sy'n rheoli'r gwasanaethau a ddarperir dan Fenter y Mentrau Cyllid Preifat, ac oherwydd y trosglwyddir perchnogaeth yr eiddo, offer a chyfarpar i'r Cyngor heb dâl ychwanegol ar ddiwedd y cytundebau, caiff yr asedau a ddefnyddir dan y cytundebau eu dwyn ymlaen gan y Cyngor ar ei Fantolen yn rhan o Eiddo, Offer a Chyfarpar.

Cafodd cydnabyddiaeth wreiddiol yr asedau hyn ei chydbwyso gan y gydnabyddiaeth o ymrwymiad am y symiau sy'n daladwy i weithredwr y cynllun er mwyn talu am y buddsoddiad cyfalaf.

Caiff Asedau Anghyfredol ar y Fantolen eu hailbrisio a'u dibrisio yn yr un modd ag eiddo, offer â chyfarpar sydd ym mherchnogaeth y Cyngor.

Caiff y symiau sy'n daladwy i weithredwyr y Mentrau Cyllid Preifat bob blwyddyn eu dadansoddi fel a ganlyn:-

- gwerth teg y gwasanaethau a dderbynnir yn ystod y flwyddyn – wedi eu debydu i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- cost cyllido – tâl llog ar yr ymrwymiad sy'n weddill ar y Fantolen, wedi ei ddebydu i'r adran Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi ar y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
- taliad tuag at yr ymrwymiad – er mwyn lleihau'r ymrwymiad ar y Fantolen sy'n ddyledus i weithredwr y Mentrau Cyllid Preifat

Mae asedau Mentrau Cyllid Preifat yn dibynnu ar Ddarpariaeth Isafswm Refeniw. Mae Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw Blynyddol y Cyngor yn ystyried bod y tâl hwn yn gyfystyr ag ymrwymiad y les gyllid a gaiff ei lleihau ar gyfer y flwyddyn.

**1.19 Trefniadau ar y Cyd**

Mae'r Cyngor yn rhan o nifer o drefniadau ar y cyd gan gynnwys Cydbwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCRCD) sy'n cynnwys 10 o awdurdodau partner: Blaenau Gwent; Caerffili; Caerdydd; Merthyr Tudful; Sir Fynwy; Casnewydd; Rhondda Cynon Taf; Torfaen; Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr. Sefydlwyd y Cydbwyllgor i oruchwylio gwaith i ddarparu amryw o raglenni sydd wedi'u cynllunio i gynyddu cysylltedd ac i wella'r seilwaith ffisegol a digidol. Dosberthir cyfraniadau i'r cydbwyllgor fel Gwariant Refeniw a Ariennir o Gyfalaf o dan Statud (REFCUS). Nid yw'r Cyngor wedi cydgrynhoi asedau na rhwymedigaethau'r Cydbwyllgor. Mae'r Cyngor yn parhau i fod â chyfrifoldebau gweinyddol dros Amlosgfa Llangrallo ac mae datganiadau ariannol annibynnol yn dal i gael eu llunio a'u hadolygu ar gyfer y cydbwyllgor hwn. Mae gweithgarwch y trefniadau ar y cyd hyn wedi'u hepgor o ddatganiadau ariannol endid unigol y Cyngor ar sail perthnasedd yr asedau a'r boblogaeth.

**1.20 Incwm y Dreth Gyngor**

Caiff yr holl incwm o'r Dreth Gyngor ei ddangos yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Cyngor gydag archebiannau'r prif gyrff (yn bennaf Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru) yn cael eu cynnwys fel gwariant. Dangosir Incwm y Dreth Gyngor ar ffurf gros yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, gydag unrhyw symiau wedi'u dyrannu yn sgil Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor wedi'u cydnabod fel cost oddi mewn i gostau gwasanaethau net.

**1.21 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau mewn Polisïau Cyfrifyddu ac Amcangyfrifon a Chamgymeriadau**

Mae'n bosibl y cyfyd addasiadau cyfnod blaenorol o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifyddu neu i gywiro gwall sylweddol. Caiff newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu eu cyfrifo ar sail arfaethedig, h.y. yn y presennol ac yn y blynyddoedd i ddod y mae'r newid yn effeithio arnynt ac nid ydynt yn esgor ar addasiad cyfnod blaenorol. Caiff gwallau sylweddol a ddarganfyddir mewn ffigurau cyfnod blaenorol eu cywiro ar ôl eu darganfod drwy addasu'r balansau agoriadol a'r symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol. Ni newidir polisïau cyfrifyddu oni bai fod hynny'n ofynnol gan arferion cyfrifo priodol neu os yw'r newid yn cynnig gwybodaeth fwy dibynadwy neu briodol ynglŷn ag effaith y trosglwyddiadau, digwyddiadau ac amgylchiadau eraill ar sefyllfa neu berfformiad ariannol y Cyngor. Os gwneir newid, gwneir hynny yn ôl-weithredol (oni nodir yn wahanol) drwy addasu'r balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi newydd wedi bod yn berthnasol erioed.

**1.22 Arian Parod a Buddsoddiadau Cyfwerth ag Arian Parod**

Caiff arian parod ei gynrychioli gan arian mewn llaw ac adneuon gyda sefydliadau ariannol y mae modd eu had-dalu heb hysbysiad cosb o ddim mwy na 24 awr. Mae buddsoddiadau cyfwerth ag arian parod yn fuddsoddiadau sy'n aeddfedu mewn dim mwy na mis nau lai o'r dyddiad caffael ac y mae'n hawdd eu trosi i symiau gwybyddus o arian parod heb lawer o berygl o newid mewn gwerth. Yn y Datganiad Llif Arian, caiff arian parod a buddsoddiadau cyfwerth ag arian parod eu dangos llai na gorddrafftiau banc y maent i'w had-dalu ar gais. Maent yn ffurfio rhan greiddiol o reolaeth ariannol y Cyngor.

**1.23 Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen**

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau ffafriol neu anffafriol hynny sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad lle rhoddir awdurdod i ryddhau'r Datganiad o Gyfrifon. Mae dau fath o ddigwyddiad:

- digwyddiad sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o Gyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiad o'r fath
- digwyddiad sy'n arwydd o amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o Gyfrifon ei addasu i adlewyrchu newidiadau o'r fath, ond pe bai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith sylweddol, datgelir natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol tybiedig yn y nodiadau.

Ni chaiff digwyddiadau ar ôl dyddiad yr awdurdodi eu hadlewyrchu yn y Datganiad o Gyfrifon.

**1.24 Eiddo Buddsoddi**

Eiddo wedi ei fuddsoddi yw eiddo a ddefnyddir yn benodol i ennill rhent a/neu ar gyfer cynnydd yng ngwerth cyfalaf. Ni fodlonir y diffiniad os caiff yr eiddo ei ddefnyddio mewn unrhyw fodd i hwyluso darpariaeth gwasanaethau neu gynhyrchu nwyddau neu os yw'r eiddo yn cael ei ddal ar gyfer ei werthu. Caiff eiddo buddsoddi eu mesur yn y lle cyntaf ar sail eu cost ac yna ar sail eu gwerth teg, yn seiliedig ar y swm y gellid trosglwyddo'r ased rhwng partïon ymwybodol sy'n gweithredu hyd braich. Ni chaiff eiddo eu dibrisio ond eu hailbrisio bob blwyddyn yn seiliedig ar amgylchiadau'r farchnad ar ddiwedd y flwyddyn. Caiff enillion a cholledion o ran ailbrisio eu nodi yn y llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Chyllido ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff enillion a cholledion eu trin yn yr un modd wrth waredu eiddo.

Gofynnodd y Cyngor i'r priswyr allanol Cooke & Arkwright ddarparu prisiad ar bopeth ym mhortffolio buddsoddi'r Cyngor yn unol ag IFRS13 fel roedd y sefyllfa ar 31 Rhagfyr. Os nad yw hi'n bosibl mesur gwerth teg Eiddo Buddsoddi, Asedau Dros Ben ac Asedau a Ddelir i'w Gwerthu yn seiliedig ar ddyfynbrisiau mewn marchnadoedd gweithredol, (hynny yw mewnbynnau **Lefel 1**), mesurir eu gwerth teg gan ddefnyddio'r technegau prisio canlynol:

**Mewnbynnau lefel 2:** dyfynbrisiau ar gyfer asedau neu ymrwymiadau tebyg mewn marchnadoedd gweithredol ar ddyddiad y prisio.

**Mewnbynnau Lefel 3:** yn seiliedig ar y prisiadau diweddaraf, wedi'u haddasu os oes angen drwy ddefnyddio adolygiad mynegeio ac amhariad.

Prisiwyd y rhan fwyaf o'r eiddo buddsoddi gan ddefnyddio mewnbynnau Lefel 2 gyda nifer wedi eu prisio gan ddefnyddio mewnbynnau Lefel 3.

Caiff rhent a dderbynnir yn gysylltiedig ag eiddo buddsoddi ei gredydu i Gost Gwasanaethau net gan greu enillion ym Malans Cronfa'r Cyngor. Fodd bynnag, nid yw trefniadau statudol yn caniatáu i enillion na cholledion yn sgil ailbrisio a gwaredu gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Caiff yr enillion a'r colledion felly eu gwrth-droi ym Malans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn a'u trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf ac (ar gyfer unrhyw elw sydd yn fwy na £10,000 wrth werthu) i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf.

**1.25 Ysgolion yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn cadarnhau bod y cydbwysedd grym ar gyfer ysgolion lleol sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor (h.y. y categorïau hynny o ysgolion a ddynodir yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, fel y'i diwygiwyd) yn gorwedd gyda'r Cyngor. Mae'r Cod hefyd yn gosod amod y caiff asedau, dyledion a llif arian yr ysgolion hynny eu cydnabod yn natganiadau ariannol y Cyngor (ac nid yn y Cyfrifon Grŵp). Felly, caiff trafodion, llif arian a gweddill ysgolion eu dynodi ym mhob un o'r datganiadau ariannol fel petaent yn rhai a wnaed gan y Cyngor.

## 2. Dyfarniadau Critigol wrth Gymhwyso Polisïau Cyfrifyddu

Wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu uchod, bu'n rhaid i'r Cyngor wneud dyraniadau penodol ynghylch trafodion cymhleth neu'r rhai a oedd yn cynnwys ansicrwydd ynghylch digwyddiadau yn y dyfodol. Dyma'r dyfarniadau critigol a wnaed yn y Datganiad Cyfrifon:

Ceir llawer o ansicrwydd ynghylch lefelau cyllid llywodraeth leol yn y dyfodol. Er hynny, mae'r Cyngor wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd yn ddigonol eto i fod yn arwydd o amharu ar asedau'r Cyngor o ganlyniad i'r angen i gau cyfleusterau a lleihau lefelau'r ddarpariaeth gwasanaethau.

Bernir mai'r Cyngor sy'n rheoli'r gwasanaethau a ddarperir dan y cytundeb allanol ynglŷn â darparu Ysgol Gyfun ym Maesteg a hefyd yn rheoli gwerth gweddilliol yr ysgol ar ddiwedd y cytundeb. Mae'r polisïau cyfrifyddu ar gyfer cynlluniau PFI a chontractau tebyg wedi'u cymhwyso at y trefniant ac mae'r ysgol (a brisiwyd yn £22.9 miliwn) wedi'i chydnabod fel Eiddo, Offer a Chyfarpar ar Fantolen y Cyngor.

Mae gan y Cyngor nifer o fuddiannau mewn endidau eraill. Er hynny, nid yw'r trefniadau'n ddigon sylweddol i haeddu llunio datganiadau ariannol wedi'u cydgrynhoi wrth adolygu gwybodaeth feintiol ac ansoddol. Er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r Cod, mae ystod o ddatgeliadau naratif wedi'u gwneud mewn adrannau eraill o'r cyfrifon.

## 3. Rhagdybiaethau a wnaed ynghylch y dyfodol a ffynonellau mawr eraill o ansicrwydd a amcangyfrifir

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigurau wedi'u hamcangyfrif sy'n seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan y Cyngor ynghylch y dyfodol neu sydd fel arall yn ansicr. Mae amcangyfrifon yn cael eu gwneud gan gymryd i ystyriaeth brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Er hynny, am nad oes modd pennu'r balansau'n sicr, gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

I ddilyn, mae'r eitemau ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2021 y ceir risg arwyddocaol o addasiad sylweddol ar eu cyfer yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

**Eiddo, Offer a Chyfarpar**
Caiff asedau'r Cyngor eu hailbrisio ar raglen dreigl 3 blynedd. Mae gwerth yr asedau hyn wedi'i seilio ar gyfrifiadau a thechnegau amcangyfrif gan ddilyn canllawiau Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), ac yn unol â'r IFRS. Mae ailbrisio yn ystyried gwerth a chyflwr yr ased, cydrannau perthnasol a hefyd ddileu cydnabyddiaeth lle bo hynny'n briodol.

**Dibrisiant Eiddo, Offer a Chyfarpar**
Mae asedau'n cael eu dibrisio dros oes ddefnyddiol sy'n dibynnu ar ragdybiaethau ynghylch lefel y gwaith trwsio a chynnal a chadw a geir ar gyfer yr asedau unigol. Gallai'r hinsawdd economaidd gyfredol arwain at orfod gwario llai ar waith trwsio a chynnal a chadw, gan godi amheuon ynghylch yr oes ddefnyddiol a ddyrannwyd i asedau. Os caiff oes ddefnyddiol asedau ei chwtogi, mae dibrisiant yn cynyddu a bydd swm cario'r asedau'n gostwng.

**Eiddo Buddsoddi, Asedau Gormodol ac Asedau a Gedwir i'w Gwerthu**

Amcangyfrifon gwerth teg:
Rhoddodd y Cyngor gyfarwyddiadau i'r priswyr allanol Cooke & Arkwright ddarparu prisiadau ar 31 Rhagfyr 2020 ar gyfer holl bortffolio buddsoddi'r Cyngor. Cafodd y rhain eu prisio yn unol â'r IFRS13.

Pan nad oes modd i werthoedd teg Eiddo Buddsoddi, Asedau Gormodol ac Asedau a Gedwir i'w Gwerthu gael eu mesur ar sail prisiau a ddyfynnir mewn marchnadoedd gweithredol (**mewnbynnau Lefel 1**), mae eu gwerth teg yn cael ei fesur gan ddefnyddio'r technegau prisio a ganlyn:

**Mewnbynnau Lefel 2:** prisiau a ddyfynnir ar gyfer asedau neu rwymedigaethau tebyg mewn marchnadoedd gweithredol ar ddyddiad y Fantolen;

**Mewnbynnau Lefel 3:** prisiadau wedi'u seilio ar y prisiadau mwyaf diweddar, wedi'u haddasu i'r prisiad cyfredol drwy ddefnyddio mynegeiad ac adolygiad o amhariadau.

Os oes modd, mae'r mewnbynnau yn y technegau prisio hyn yn cael eu seilio ar y data sydd ar gael i'w weld, ond pan nad yw hyn yn bosibl, rhaid gwneud dyfarniad a mesur er mwyn sefydlu gwerthoedd teg. Mae'r dyfarniadau hyn fel rheol yn cynnwys ystyriaethau fel ansicrwydd a risg. Gallai newid yn y rhagdybiaethau a ddefnyddir effeithio ar y gwerth teg. Defnyddiodd y priswyr allanol y technegau prisio mwyaf priodol i bennu'r gwerth teg.

**Rhwymedigaeth Pensiynau**

Mae'r amcangyfrifon o'r rhwymedigaeth net i dalu pensiynau'n dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth ynglŷn â'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir, ar ba gyfradd y darogenir y bydd cyflogau'n cynyddu, newidiadau i oedran ymddeol, cyfraddau marwolaeth a'r enillion a ddisgwylir ar asedau cronfeydd pensiwn. Mae ffyrm o actiwarïaid ymgynghorol yn cael ei defnyddio i roi cyngor arbenigol i'r Cyngor am y rhagdybiaethau i'w defnyddio.

**4. Dadansoddiad Gwariant a Chyllid**

| 2019-20 | | | | 2020-21 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Net Taladwy i Gronfa'r Cyngor** | **Addasiadau rhwng Sail Ariannu a Sail Cyfrifyddu, a throsglwyddiadau i Gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd (Nodyn 5)** | **Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **Gwariant Net Taladwy i Gronfa'r Cyngor** | **Addasiadau rhwng Sail Ariannu a Sail Cyfrifyddu, a throsglwyddiadau i Gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd (Nodyn 5)** | **Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 115,059 | 10,900 | 125,959 | Addysg a Chymorth i Deuluoedd | 122,095 | 1,560 | 123,655 |
| 71,651 | 2,567 | 74,218 | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 72,289 | 4,630 | 76,919 |
| 25,746 | 14,643 | 40,389 | Cymunedau | 26,502 | 8,672 | 35,174 |
| 17,115 | 3,754 | 20,869 | Prif Weithredwyr | 17,677 | 3,797 | 21,474 |
| 31,551 | (13,573) | 17,978 | Gwasanaethau Canolog | 38,417 | (22,735) | 15,682 |
| **261,122** | **18,291** | **279,413** | **Cost net Gwasanaethau** | **276,980** | **(4,076)** | **272,904** |
| (261,686) | (4,215) | (265,901) | Incwm a Gwariant eraill | (277,412) | (4,852) | (282,265) |
| **(564)** | **14,076** | **13,512** | **Gwarged neu Ddiffyg** | **(432)** | **(8,928)** | **(9,361)** |
| 8,776 | | | Balans Agoriadol Cronfa'r Cyngor | 9,340 | | |
| 564 | | | Gwarged neu (Ddiffyg) ar Gronfa'r Cyngor ar gyfer blwyddyn | 432 | | |
| **9,340** | | | **Balans Cronfa Gyffredinol wrth gau ar 31 Mawrth** | **9,772** | | |

## 5. Datganiad Gwariant a Chyllido

| | Addasiadau rhwng Sail Ariannu a Sail Cyfrifyddu 2019-20 | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Addasiadau gan Gronfa'r Cyngor i gyrraedd Symiau'r Datganiad Incem a Gwariant Cynhwysfawr** | **Addasiadau at ddibenion cyfalaf (Nodyn 1)** | **Newid net ar gyfer addasiadau pensiwn (Nodyn 2)** | **Gwahaniaet hau eraill (Nodyn 3)** | **Cyfanswm addasiadau** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Addysg a Chymorth i Deuluoedd | 5,882 | 5,006 | 12 | 10,900 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | (1,345) | 3,789 | 123 | 2,567 |
| Cymunedau | 10,838 | 1,728 | 2,077 | 14,643 |
| Prif Weithredwyr | 1,739 | 1,737 | 278 | 3,754 |
| Gwasanaethau Canolog | (3,178) | - | (10,395) | (13,573) |
| **Cost net Gwasanaethau** | **13,936** | **12,260** | **(7,905)** | **18,291** |
| Incwm a Gwariant eraill o'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllido | (11,583) | 6,120 | 1,248 | (4,215) |
| **Gwahaniaeth rhwng gwarged neu ddiffyg Cronfa'r Cyngor a gwarged neu ddiffyg Datganiad Icnwm a Gwariant Cynhwysfawr ar y Ddarpariaeth o Wasanauthau** | **2,353** | **18,380** | **(6,657)** | **14,076** |

| | Addasiadau rhwng Sail Ariannu a Sail Cyfrifyddu 2020-21 | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Addasiadau gan Gronfa'r Cyngor i gyrraedd Symiau'r Datganiad Incem a Gwariant Cynhwysfawr** | **Addasiadau at ddibenion cyfalaf (Nodyn 1)** | **Newid net ar gyfer addasiadau pensiwn (Nodyn 2)** | **Gwahaniaet hau eraill (Nodyn 3)** | **Cyfanswm addasiadau** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Addysg a Chymorth i Deuluoedd | 6,846 | 4,806 | (10,092) | 1,560 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 813 | 3,964 | (147) | 4,630 |
| Cymunedau | 6,120 | 1,854 | 698 | 8,672 |
| Prif Weithredwyr | 1,688 | 1,726 | 383 | 3,797 |
| Gwasanaethau Canolog | (2,918) | - | (19,817) | (22,735) |
| **Cost net Gwasanaethau** | **12,549** | **12,350** | **(28,975)** | **(4,076)** |
| Incwm a Gwariant eraill o'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllido | (12,506) | 6,460 | 1,194 | (4,852) |
| **Gwahaniaeth rhwng gwarged neu ddiffyg Cronfa'r Cyngor a gwarged neu ddiffyg Datganiad Icnwm a Gwariant Cynhwysfawr ar y Ddarpariaeth o Wasanauthau** | **43** | **18,810** | **(27,781)** | **(8,928)** |

**Nodyn 1 – Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf**

Mae'r golofn ar gyfer addasiadau at ddibenion cyfalaf yn ychwanegu dibrisiant a lleihad yn y gwerth, ailbrisiad o enillion a cholledion, a Gwariant Refeniw a Ariennir gan Gyfalaf o dan Statud (REFCUS) at y llinell gwasanaethau, ac ar gyfer:

- Gwariant gweithredu arall – mae'n addasu ar gyfer gwaredu cyfalaf drwy drosglwyddo incwm o waredu asedau a'r symiau a ddilëwyd o'r asedau hynny

- Incwm a gwariant cyllido a buddsoddi – mae'r ffioedd statudol ar gyfer ariannu cyfalaf (h.y. y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw) a chyfraniadau refeniw eraill, yn cael eu tynnu o incwm a gwariant eraill gan nad yw'r rhain yn daladwy yn ôl arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol

- Incwm a gwariant grant amhenodol a threthiant – mae grantiau cyfalaf yn cael eu haddasu ar gyfer incwm nad yw'n daladwy yn ôl arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae grantiau refeniw yn cael eu haddasu o'r rhai hynny sy'n dderbyniadwy yn y flwyddyn i'r rhai hynny sy'n dderbyniadwy heb amodau neu y bodlonwyd eu hamodau yn ystod y flwyddyn. Credydir y llinell Incwm a Gwariant Grant Amhenodol a Threthiant â grantiau cyfalaf derbyniadwy yn y flwyddyn heb amodau neu y bodlonwyd eu hamodau yn ystod y flwyddyn.

**Nodyn 2 – Newid net ar gyfer Addasiadau Pensiwn**

Y newid net ar gyfer tynnu'r cyfraniadau pensiwn allan ac ychwanegu incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â Buddion Pensiwn Cyflogeion IAS19:

- Ar gyfer Gwasanaethau mae hyn yn golygu tynnu allan cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a wnaed gan yr awdurdod fel y'i caniateir gan statud a'i ddisodli â chostau gwasanaeth cyfredol a blaenorol
- Ar gyfer Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi – y CIES sy'n ysgwyddo'r llog net ar y rhwymedigaeth buddiant diffiniedig.

**Nodyn 3 – Gwahaniaethau eraill**

Gwahaniaethau eraill rhwng symiau a ddebydir/credydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a symiau sy'n daladwy/derbyniadwy i'w cydnabod o dan statud:

- Ar gyfer incwm a gwariant cyllido a buddsoddi, mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer y gwahaniaethau amseru ar gyfer premiymau a disgowntiau

- Mae'r taliad o dan incwm a gwariant grant amhenodol a threthiant yn dangos y gwahaniaethau rhwng yr hyn sy'n daladwy o dan reoliadau statudol ar gyfer y dreth gyngor ac ardrethi annomestig y rhagamcanwyd y byddant ar gael ar ddechrau'r flwyddyn a'r incwm a gydnabyddir o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae hwn yn wahaniaeth amseru oherwydd y caiff unrhyw wahaniaeth ei ddwyn ymlaen mewn Gwargedau a Diffygion ar y Gronfa Casgliadau yn y dyfodol.

**6. Gwariant ac Incwm a Ddadansoddwyd yn ôl Natur**

Mae’r tabl hwn yn nodi sut y defnyddiwyd y cyllid i’r Cyngor i ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Cynhwysa hyn drafodiadau arian parod a rhai nad ydynt yn arian parod, gan gynnwys addasiadau cyfrifyddu yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. **Cyflwynir dadansoddiad fesul segment o ffioedd, taliadau ac incwm arall yn gysylltiedig â gwasanaethau ar glawr y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.**

| 2019-20 £'000 | | 2020-21 £'000 |
|---:|---|---:|
| | **Gwariant** | |
| 196,559 | Treuliau cyflogeion | 202,256 |
| 194,015 | Treuliau gwasanaethau eraill | 207,816 |
| 20,228 | Dibrisiad, amorteiddiad, lleihad yng ngwerth | 18,590 |
| 11,975 | Taliadau llog | 12,253 |
| 23,569 | Praeseptau ac ardollau | 25,185 |
| 215 | Colled wrth waredu asedau | 274 |
| **446,561** | **Cyfanswm Gwariant** | **466,374** |
| | **Incwm** | |
| (36,972) | Ffioedd, taliadau a godir, ac incwm gwasanaethau eraill | (32,671) |
| (143,409) | Incwm gan y Dreth Cyngor, cyfraddau annomestig | (147,225) |
| (251,569) | Grantiau a chyfraniadau'r Llywodraeth | (294,490) |
| (1,099) | Incwm llog a Llog Derbyniadwy arall | (894) |
| - | Incwm arall | (455) |
| **(433,049)** | **Cyfanswm Incwm** | **(475,735)** |
| | | |
| **13,512** | **(Gwarged) neu Ddiffyg ar y ddarpariaeth o wasanaethau** | **(9,361)** |

# Nodiadau i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

## 7. Praeseptau ac ardollau

Praeseptau yw'r symiau sy'n cael eu talu i awdurdodau nad ydynt yn bilio (e.e. cynghorau cymuned) er mwyn iddyn nhw dalu eu costau. Ardollau yw'r symiau sy'n daladwy pan fydd gwasanaethau'n gweithio ar draws ardaloedd sy'n cynnwys mwy nag un Cyngor, naill ai ar sail gwasanaeth ar y cyd, lle mae un Cyngor yn gweinyddu'r gwasanaeth a'r Cynghorau eraill yn cyfrannu at y costau, neu gan gyrff allanol sy'n codi ardoll ar y Cynghorau priodol. Roedd y symiau a dalwyd fel a ganlyn:

| 2019-20 £'000 | | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| | **Praeseptau** | |
| 13,832 | Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru | 14,861 |
| 2,621 | Cynghorau cymuned | 2,853 |
| **16,453** | **Cyfanswm Praeseptau** | **17,714** |
| | **Ardollau** | |
| 6,747 | Awdurdod Tân ac Achub De Cymru | 7,056 |
| 260 | Gwasanaeth y Crwner | 306 |
| 91 | Gwasanaeth Archifau | 91 |
| 18 | Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe | 18 |
| **7,116** | **Cyfanswm Ardollau** | **7,471** |
| **23,569** | **Cyfanswm Praesptau ac Ardollau** | **25,185** |

## 8. Grant Cynnal Refeniw (RSG)

Dyma'r brif ffynhonnell gyllid o ran gwariant refeniw a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru. Y swm aderbyniwyd yn 2020-21 oedd £157.82 miliwn (£145.35 miliwn ar gyfer 2019-20).

## 9. Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)

Trefnir NNDR ar sail genedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru yn pennu'r gyfradd sydd i'w chodi yn y bunt (y lluosydd) ac, yn amodol ar effeithiau trefniadau pontio, mae busnesau lleol yn talu ardrethi a gyfrifir drwy luosi eu gwerth ardrethol â'r gyfradd yn y bunt (y lluosydd). Y lluosydd oedd 53.5c yn 2020-21 (52.6c yn 2019-20). Roedd cyfanswm gwerth ardrethol y Cyngor yn cyfateb i £98,037,269 ar 31 Mawrth 2021 (£99,152,723 ar 31 Mawrth 2020). Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gasglu cyfraddau sy'n ddyledus gan drethdalwyr yn ei ardal ond mae'n talu'r elw i'r gronfa NNDR a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Yna, mae Llywodraeth Cymru yn ailddosbarthu'r symiau sy'n daladwy'n ôl i awdurdodau lleol pro rata i boblogaeth oedolion yn ardal pob Cyngor.
Mae'r Cyngor yn derbyn cyfraniad uniongyrchol o'r gronfa NNDR. Dangosir yr incwm hwn ar wahân yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. £45.312 miliwn oedd y swm hwn yn 2020-21 (£46.452 miliwn yn 2019-20).

## 10. Treth y Cyngor

Mae Incwm y Dreth Gyngor yn deillio o daliadau a godir ar eiddo preswyl, sydd wedi cael eu dosbarthu'n ddeg band prisio yn seiliedig ar amcangyfrif o werth yr eiddo ar 1 Ebrill 2005. Cyfrifir taliadau trwy gymryd swm yr incwm y mae ei angen ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, pob Cyngor Cymuned a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru a rhannu hwn â sylfaen y Dreth Gyngor. Sylfaen y Dreth Gyngor yw cyfanswm yr eiddo ym mhob band wedi'i addasu yn ôl ffactor i drosi'r nifer yn ffigwr cyfwerth â Band D, sydd wedyn yn cael ei addasu ar gyfer disgowntiau. Wedyn mae'r sylfaen dreth gros yn cael ei lluosi â'r gyfradd gasglu amcangyfrifedig i roi'r Sylfaen dreth net a ddefnyddir fel sail i bennu'r gyllideb – 54,492.29 eiddo cyfwerth â Band D oedd hon ar gyfer 2020-21 (53,710.97 yn 2019-20). Y tâl cyfartalog ar gyfer eiddo ym Mand D yw £1,862.14 yn 2020-21 (£1,777.19 yn 2019-20 ar gyfartaledd) a chaiff hwn ei luosi â'r ffactor a nodir ar gyfer y band penodol i roi'r swm unigol sy'n ddyledus.

Cafodd biliau'r Dreth Gyngor eu seilio ar y lluosyddion a ganlyn ar gyfer bandiau A* i I ac roedd nifer yr anheddau ym mhob band fel a ganlyn:

| Band | A* | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llusydd | 5/9 | 6/9 | 7/9 | 8/9 | 9/9 | 11/9 | 13/9 | 15/9 | 18/9 | 21/9 |
| Anheddau trethadwy | 25 | 10,168 | 14,934 | 14,247 | 10,561 | 7,630 | 4,255 | 1,417 | 284 | 88 |

A* - ym Mand A ond wedi'i effeithio gan leihad anabledd. Mae dadansoddiad o'r enillion net o Dreth y Cyngor fel a ganlyn:

| 2019-20 £'000 | | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| (96,957) | Treth Gyngor Gasgladwy | (101,913) |
| 0 | Cronfa Caledi Llywodraeth Cymru | (1,261) |
| | Llai: | |
| 2,621 | Taladwy i Gynghorau Cymuned | 2,853 |
| 13,832 | Taladwy i Heddlu De Cymru | 14,861 |
| 417 | Darpariaeth ar gyfer peidio â thalu'r Dreth Gyngor Cynnydd / (Gostyngiad) | 1,450 |
| **(80,087)** | **Enillion Net o'r Dreth Gyngor** | **(84,010)** |

Derbyniodd y Cyngor £1.261 miliwn gan Gronfa Caledi Llywodraeth Cymru am golled incwm o'r Dreth Gyngor.

**11. Grantiau**

Yn ychwanegol at y Grant Cynnal Refeniw, credydodd y Cyngor y grantiau a'r cyfraniadau a ganlyn i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

| 2019-20 ailddatgan £'000 | Grantiau Penedol wedi'u credydu I Wasanaethau | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| (40,207) | Cymhorthdal Budd-dal Tai | (37,133) |
| (6,105) | Grant Ôl-16 | (6,584) |
| (4,895) | Grant Gwella Addysg | (4,953) |
| (4,592) | Grant Datblygu Disgyblion | (4,980) |
| (9,136) | Addysg a Chymorth I Deuluoedd Arall | (10,559) |
| (3,274) | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Arall | (4,759) |
| (4,911) | Eraill | (8,297) |
| (5,767) | Cefnogi Pobl | (5,955) |
| (858) | Chwaraeon, Chwarae a Lles Egnïol | (908) |
| (2,763) | Grant Gostyngiadau Teithio | (2,758) |
| (3,076) | Dechrau'n Deg | (3,031) |
| (870) | Grant Gwastraff Cynaliadwy | (727) |
| (874) | Gweinyddu Budd-dal Tai/Budd-dal Treth Gyngor | (737) |
| (2,168) | Cymunedau yn Gyntaf | (2,048) |
| (1,690) | Teuluoedd yn Gyntaf | (1,787) |
| - | Grantiau Covid | (24,643) |
| (2,280) | Grant Cyfalaf Cyffredinol | (1,689) |
| (951) | Grantiau Cyfalaf Eraill | (1,540) |
| **(94,417)** | **Cyfanswm** | **(123,088)** |

| 2019-20 £'000 | Grantiau Eraill y Llywodraeth a gredydwyd i Drethiant ac Incwm Grant Amhenodol | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| (11,798) | Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf | (12,325) |
| **(11,798)** | **Cyfanswm** | **(12,325)** |

| | | |
|---|---|---|
| **(106,215)** | **Cyfanswm** | **(135,413)** |

Mae'r tabl uchod yn cynnwys incwm grant covid o £24.643m. Mae hyn yn cynnwys y canlynol;

| Grantiau Covid | £'000 |
|---|---|
| Cyllid Caledi | (23,136) |
| Cynllun Cymorth Gofal Plant Coronafeirws | (562) |
| Profi, Olrhain a Gwarchod | (304) |
| Grantiau Cymorth Covid Eraill | (640) |
| **Cyfanswm** | **(24,643)** |

Yn ogystal â hyn, gweinyddodd y Cyngor nifer o grantiau eraill yn ymwneud â Covid ar ran Llywodraeth Cymru, nad oeddent yn pasio drwy'r CIES oherwydd bod yr awdurdod yn gweithredu fel asiant i Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain i'w gweld yn yr adroddiad naratif ar dudalen 7.

**12. Lesoedd**

Y Cyngor fel Lesddeiliad

Lesoedd Gweithredol

Dyma isafswm y taliadau sy'n ddyledus yn y dyfodol ar lesoedd nad oes modd ei ddileu:

| 2019-20 £'000 | | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| (681) | Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | (428) |
| (1,419) | Hwyrach na blwyddyn | (1,171) |
| (6,664) | Hwyrach a phum mlynedd | (6,491) |
| **(8,764)** | **Cyfanswm** | **(8,090)** |

Y gwariant a godwyd yn y flwyddyn ar y meysydd gwasanaeth oedd £0.694 miliwn a oedd yn cynnwys isafswm taliadau ar lesoedd o £0.069 miliwn a £0.625 miliwn ar gyfer rhenti digwyddiadol (£0.734 miliwn yn 2019-20 a oedd yn cynnwys £0.117 miliwn o isafswm taliadau les a £0.617 miliwn o renti digwyddiadol).

Y Cyngor fel Lesydd

Lesoedd Gweithredol

Mae'r Cyngor yn lesio eiddo at ddibenion economaidd i ddarparu llety fforddiadwy i fusnesau lleol. Dyma'r rhenti a dderbynnir yn y dyfodol o dan lesoedd gweithredol:-

| 2019-20 £'000 | | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| 102 | Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | 78 |
| 158 | Hwyrach na blwyddyn | 159 |
| 1,702 | Hwyrach a phum mlynedd | 1,681 |
| **1,962** | **Cyfanswm** | **1,918** |

**13. Y Fenter Cyllid Preifat (PFI)**

Yn ystod blwyddyn ariannol 2008-09, dechreuodd y Cyngor dalu, o dan drefniant y Fenter Cyllid Preifat (PFI), am ddarparu ysgol uwchradd ym Maesteg, sef trefniant a wnaed yn 2007-08 ac a fydd yn rhedeg tan fis Awst 2033. Ceir ymrwymiad o £30.5 miliwn (Gwerth Presennol Net) dros oes y contract, sydd i'w ariannu drwy gyfuniad o Gredydau PFI, y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru, ac adnoddau'r Cyngor/adnoddau dirprwyedig Ysgolion.

Rhennir cyfanswm y taliad unedol yn elfen tâl gwasanaeth, elfen ar gyfer ad-dalu'r rhwymedigaeth ac elfen ar gyfer llogau. Dangosir y taliadau isod:-

| 2019-20 £'000 | Tâl Unedol | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| 699 | Elfen Tâl Gwasanaeth | 693 |
| 1,256 | Elfen Llog | 1,203 |
| 690 | Rhwymedigaeth Prydles Ariannol | 743 |
| **2,645** | **Cyfanswm** | **2,639** |

Gwneir y taliadau hyn dros oes y contract PFI ac mae'r amcangyfrifon ar gyfer y blynyddoedd dilynol i'w gweld isod yn ôl y prisiau cyfredol:-

| Tâl Unedol | 2021-22 £'000 | 2022-23 i 2026-27 £'000 | 2027-28 i 2031-32 £'000 | 2032-33 i 2035-36 £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Elfen Tâl Gwasanaeth | 502 | 2,511 | 2,512 | 997 | 6,522 |
| Elfen Llog | 1,146 | 4,702 | 2,436 | 147 | 8,431 |
| Rhwymedigaeth Prydles Ariannol | 801 | 5,032 | 7,298 | 2,435 | 15,566 |
| **Cyfanswm** | **2,449** | **12,245** | **12,246** | **3,579** | **30,519** |

**14. Trefniadau Cronfeydd Cyfun**

Ceir rhai trefniadau ffurfiol ar gyfer cyllidebau cyfun rhwng y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg dan Adran 33 Deddf GIG (Cymru) 2006.

| Diben y bartneriaeth | Partner | Flwyddyn | Incwm gros y bartneriaeth £'000 | Gwariant gros y bartneriaeth £'000 | Cyfraniad yr awdurdod £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth Gwasanaethau Integredig yn defnyddio Cronfa Gyffredin. Darparu cyfleoedd dydd i bobl sy'n ymadfer ar ôl problemau iechyd meddwl. | Cwm Taf-Morgannwg University Health Board | **2019-20** | (600) | 600 | 300 |
| | | **2020-21** | (514) | 514 | 257 |
| Comisiynu integredig o gronfa gyffredin i gaffael offer cymunedol penodol i bobl gymwys yn ardal weinyddol y bartneriaeth. Rhondda Cynon Taf yw'r partner arweiniol. | Rhondda Cynon Taff CBC Merthyr Tydfil CBC Cwm Taf Morgannwg University Health Board | **2019-20** | (2,832) | 2,799 | 729 |
| | | **2020-21** | (3,012) | 3,317 | 691 |
| Darpariaeth gwasanaethau integredig yn defnyddio cronfa gyffredin i ddarparu gwasanaethau cymorth cymunedol | Cwm Taf-Morgannwg University Health Board | **2019-20** | (5,176) | 5,176 | 2,539 |
| | | **2020-21** | (4,686) | 4,686 | 2,231 |

## 15. Tâl Swyddogion

Mae pedwar datgeliad ar wahân yn ofynnol i sicrhau y cydymffurfir â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiadau) 2018 a Chod CIPFA.

**Datgeliad 1 – Y Gymhareb rhwng Cydnabyddiaeth Ariannol y Prif Weithredwr a chydnabyddiaeth ariannol ganolrifol holl gyflogeion y Cyngor**

Roedd y gymhareb rhwng cydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwr a chydnabyddiaeth ariannol ganolrifol holl gyflogeion y Cyngor yn 6.30 (2019-20: 6.28). Roedd cydnabyddiaeth ariannol ganolrifol yr holl gyflogeion yn £22,183 (2019-20: £21,166).

**Datgeliad 2 : Tabl o Gydnabyddiaeth Ariannol Swyddogion dros £60,000**

Mae nifer y gweithwyr (gan gynnwys athrawon) yr oedd eu tâl, heb gynnwys cyfraniadau pensiwn, yn £60,000 neu ragor am y flwyddyn, fel a ganlyn:

| 2019-20 gan gynnwys Costau Dileu Swyddi | Band Tâl | Nifer y gweithwyr | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2020-21 gan gynnwys Costau Dileu Swyddi (Nodyn 1) | 2020-21 heb gynnwys Costau Dileu Swyddi (Nodyn 2) | Nifer yr Athrawon yn y Ffigurau heb gynnwys Dileu Swyddi (Nodyn 2) | Nifer y Swyddogion heblaw Athrawon yn y Ffigurau heb gynnwys Dileu Swyddi (Nodyn 2) |
| 28 | £60,000 - £64,999 | 34 | 33 | 27 | 6 |
| 19 | £65,000 - £69,999 | 22 | 22 | 20 | 2 |
| 5 | £70,000 - £74,999 | 15 | 14 | 14 | - |
| 4 | £75,000 - £79,999 | 3 | 3 | 3 | - |
| 9 | £80,000 - £84,999 | 3 | 3 | 2 | 1 |
| 5 | £85,000 - £89,999 | 5 | 5 | 1 | 4 |
| 3 | £90,000 - £94,999 | 6 | 4 | 3 | 1 |
| 3 | £95,000 - £99,999 | 3 | 3 | 3 | - |
| 1 | £100,000 - £104,999 | 2 | 2 | 2 | - |
| 1 | £105,000 - £109,999 | 2 | 2 | 1 | 1 |
| 4 | £110,000 - £114,999 | 1 | 1 | - | 1 |
| - | £115,000 - £119,999 | 1 | 1 | 1 | - |
| - | £120,000 - £124,999 | - | - | - | - |
| - | £125,000 - £129,999 | - | - | - | - |
| 1 | £130,000 - £134,999 | - | - | - | - |
| - | £135,000 - £139,999 | 1 | 1 | - | 1 |
| - | £140,000 - £144,999 | - | - | - | - |
| - | £145,000 - £149,999 | - | - | - | - |
| 1 | £150,000 - £154,999 | - | - | - | - |
| **84** | | **98** | **94** | **77** | **17** |

Nodyn 1: Mae’r costau hyn yn cynnwys costau colli swyddi a thaliadau yn lle rhybudd ar adeg ymadael yn ogystal ag unrhyw gostau straen pensiwn perthnasol, sef costau talu budd sy’n daladwy gan y Cyngor i’r Gronfa Bensiwn yn gynnar pan fo aelod o staff dros 55 yn colli ei swydd.

Nodyn 2: Mae'r rhain yn swyddogion sydd yn dal yn eu swyddi, ac mae 94 o'r unigolion hynny yn derbyn tâl o £60,000 neu fwy, gan gynnwys: -

a) 77 o Benaethiaid a Dirprwy Benaethiaid, a
b) 17 o Uwch Reolwyr y Cyngor, gan gynnwys yr Uwch Swyddogion a ddangosir yn Datgeliad 3 isod, a Phenaethiaid Gwasanaeth.

**Datgeliad 3 – Tabl Cydnabyddiaeth Uwch Swyddogion (gan gynnwys Cyfraniadau Pensiynau)**

| Teitl Swydd | Cyflog | | Cyfraniadau Pensiwn (nodyn 1) | | Cyfanswm y Tal gan gynnwys Cyfraniadau | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 19-20 £ | 20-21 £ | 19-20 £ | 20-21 £ | 19-20 £ | 20-21 £ |
| Prif Weithredwr a Phennaeth Gwasanaeth Cyflogedig (Nodyn 2) | 132,099 | 139,768 | 28,137 | 27,674 | 160,236 | 167,442 |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd | 110,449 | 113,486 | 23,526 | 22,470 | 133,975 | 135,956 |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau (Nodyn 3) | 8,790 | 109,812 | 1,872 | 21,743 | 10,662 | 131,555 |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 110,449 | 109,073 | 23,526 | 21,596 | 133,975 | 130,669 |
| Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid (Nodyn 4) | - | - | - | - | - | - |
| Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol (Nodyn 5) | 53,937 | - | 10,840 | - | 64,777 | - |
| Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddiol (Nodyn 5) | 26,968 | 84,973 | 5,420 | 15,921 | 32,388 | 100,894 |
| Pennaeth Gwasanaethau Partneriaeth (Nodyn 6) | 56,327 | - | 11,998 | - | 68,325 | - |
| Pennaeth Gweithrediadau - Cymunedau (Nodyn 7) | 89,651 | - | 19,096 | - | 108,747 | - |

**Nodiadau**

| | |
|---|---|
| Nodyn 1 | Ni chafodd 'Treuliau Trethadwy' na 'Buddion mewn da' eu talu yn ystod y flwyddyn. Mae'r Cyfraniadau Pensiwn yn cyfeirio at daliadau gwirioneddol a wnaed. |
| Nodyn 2 | Nid yw'r Prif Weithredwr wedi cynnwys taliadau am Ddyletswyddau Etholiad gan nad oedd dim yn 2020-21. |
| Nodyn 3 | Penodwyd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau ar 1 Mawrth 2020. |
| Nodyn 4 | Mae sefyllfa'r Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid wedi bod yn wag yn ystod y flwyddyn gyda'r rôl yn cael ei chyflawni drwy drefniant dros dro. Penodir y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid o dan drefniant cytundebol gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Y gost o gynnal y trefniant hwn yn ystod y flwyddyn oedd £150,807 (2019-20: £115,557). |
| Nodyn 5 | Cafodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol ei ail-ddynodi'n Brif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddiol ar 1 Rhagfyr 2019. |
| Nodyn 6 | Cafodd Pennaeth y Gwasanaethau Partneriaeth Perfformiad ei ail-ddynodi'n Bennaeth Gwasanaethau Partneriaeth ar 1 Rhagfyr 2019. |
| Nodyn 7 | Roedd Pennaeth Gweithrediadau - Cymunedau yn adrodd i'r Prif Weithredwr nes i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau gael ei benodi ar 1 Mawrth 2020. |

**Datgeliad 4: Tabl ar Becynnau Ymadael**

Mae nifer y pecynnau ymadael gyda chyfanswm y gost fesul band (£oedd) a chyfanswm cost y swyddi a ddilëwyd yn orfodol ac fel arall wedi'u nodi yn y tabl isod:

| Band Cost y Pecynnau Ymadael (gan gynnwys taliadau Arbennig) | Dileu Swyddi'n Orfodol | | Ymadawiadau Eraill y Cytunwyd arnynt | | Cyfanswm Nifer y Pecynnau Ymadael fesul Band Cost | | Cyfanswm Cost y Pecynnau Ymadael fesul Band Cost | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 19-20 | 20-21 | 19-20 | 20-21 | 19-20 | 20-21 | 19-20 | 20-21 |
| £0 - £20,000 | 11 | 4 | 6 | 4 | 17 | 8 | 154,872 | 38,221 |
| £20,001 - £40,000 | 9 | 5 | 3 | - | 12 | 5 | 344,406 | 139,512 |
| £40,001 - £60,000 | 4 | 2 | - | - | 4 | 2 | 209,590 | 101,959 |
| £60,001 - £80,000 | 2 | - | - | - | 2 | - | 150,148 | - |
| £100,001 - £150,000 | 1 | - | - | - | 1 | - | 141,924 | - |
| | **27** | **11** | **9** | **4** | **36** | **15** | **1,000,940** | **279,692** |

**16. Lwfansau Aelodau**

Dangosir y lwfansau ar gyfer Cynghorwyr yn y tabl isod.

| 2019-20 £'000 | | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| 571 | Cyflog Sylfaenol (pob Aelod) | 581 |
| 481 | Uwch-gyflog | 468 |
| 49 | Cyflog Dinesig | 48 |
| **1,101** | **Total** | **1,097** |

Mae manylion llawn y trefniadau 'cyflog' ar gael ar wefan y Cyngor, ac mae manylion holl enillion yr aelodau hefyd yn cael eu cyhoeddi bob blwyddyn ar wefan y Cyngor.

https://www.bridgend.gov.uk/my-council/democracy-and-elections/councillors-remuneration/

## 17. Costau Archwilio allanol

Ysgwyddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y ffioedd a ganlyn ar gyfer archwilio ac arolygu allanol.

| 2019-20 £'000 | | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| 188 | Archwilio'r Datganiad Ariannol | 182 |
| 97 | Archwilio'r Perfformiad | 97 |
| **285** | **Gwasanaethau Archwilio Allanol** | **279** |
| 45 | Hawliau a Ffurflenni Grantiau | 37 |
| **330** | **Cyfanswm** | **316** |

## 18. Cymryd rhan mewn Cydbwyllgorau a Threfniadau ar y Cyd

Cymerodd y Cyngor ran mewn nifer o Gydbwyllgorau a Threfniadau ar y Cyd yn ystod y flwyddyn. Mae'r symiau a gyfrannodd y Cyngor wedi'u nodi isod.

| | 2019-20 £'000 Ailddatgan | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| Bargen Dinas Rhanbarth Prifddinas Caerdydd (CCRCD) | 103 | 293 |
| Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canol De | 571 | 554 |
| Gwasanaeth Mabwysiadu ar y Cyd | 949 | 949 |
| Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir | 1,686 | 1,658 |
| Gwasanaeth Archwilio Mewnol a Rennir | 270 | 179 |
| Gorfodi Parcio Sifil | 190 | - |
| Archifau Morgannwg | 92 | 92 |
| Cynnal a Chadw Cerbydau ar y Cyd | 139 | 124 |
| Amlosgfa Coychurch | - | - |
| Amlosgfa Margam | - | - |
| **Total** | **4,000** | **3,849** |

Cymerodd y Cyngor ran yn y Cydbwyllgor ar gyfer Llangrallo ac Amlosgfa Margam, ond nid oedd angen iddo wneud cyfraniad ariannol yn 2019-20 na 2020-21.

## 19. Trafodiadau Partïon Cysylltiedig

Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatgelu trafodion perthnasol gyda phartïon cysylltiedig – cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu ar y Cyngor neu i gael eu rheoli gan y Cyngor neu i fod dan ei ddylanwad. Mae datgelu'r trafodion hyn yn galluogi darllenwyr i asesu i ba raddau y gallai'r Cyngor fod wedi wynebu cyfyngiadau ar ei allu i weithredu'n annibynnol neu y gallai fod wedi cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Cyngor.

**Llywodraeth Cymru**
Mae gan Lywodraeth Cymru gryn ddylanwad dros weithrediadau cyffredinol y Cyngor – hi sy'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol y mae'r Cyngor yn gweithio ynddo, yn darparu'r rhan fwyaf o'i gyllid ar ffurf grantiau ac yn rhagnodi telerau llawer o'r trafodion sydd gan y Cyngor gyda phartïon eraill (e.e. biliau'r dreth gyngor). Nodir y grantiau a gafwyd oddi wrth adrannau'r llywodraeth yn Nodiadau 8 a 9 uchod.

**Aelodau**
Mae gan aelodau'r Cyngor reolaeth uniongyrchol dros bolisïau ariannol a gweithredu'r Cyngor. Mae buddiannau allanol yr Aelodau yn cael eu cadw ar gofrestr, sydd ar gael i'w harchwilio ar wefan y Cyngor. Dangosir cyfanswm lwfansau'r aelodau a dalwyd yn Nodyn 16. Roedd y taliadau a wnaed i sefydliadau lle'r oedd gan Aelodau fuddiant yn cynnwys Gofal a Thrwsio (Pen-y-bont ar Ogwr) £1,444,123 (£1,749,669 yn 2019-20), Canolfan Cyngor ar Bopeth Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr £288,501 (£280,303 yn 2019-20

(wedi'i ailddatgan)) a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr £698,952 yn 2020-21 (£596,607 yn 2019-20). Ym mhob achos, gwnaed y grantiau gan roi ystyriaeth briodol i ddatganiadau o fuddiant. Ni wnaeth yr aelodau perthnasol gymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth na phenderfyniad yn ymwneud â'r grantiau. Cyfanswm y taliadau eraill a wnaed i sefydliadau lle'r oedd aelodau'n datgan buddiannau oedd £500,714 (£610,597 yn 2019-20 (wedi'u hailddatgan)). Roedd balansau dyledus y Cyngor ar 31 Mawrth 2021 yn cynnwys Gofal ac Atgyweirio £23,299 (£5,965 yn 2019-20) ac Undeb Credyd Achubwyr Bywyd Pen-y-bont ar Ogwr Cyf £23,299 (£0 2019-20). Roedd y symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor ar 31 Mawrth 2021 yn cynnwys Cymdeithas Canolfan Sarn £9,986 (£0 yn 2019-20) a Valleys to Coast £37,821 (£44,285 yn 2019-20).

**Prif Swyddogion**
Yn ystod 2020-21 roedd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn eistedd ar Fwrdd Capita Glamorgan Consultancy Ltd. Mae'r Cyngor yn berchen ar 14.7% o gyfranddaliadau'r cwmni ac yn dal hawliau pleidleisio i'r gwerth hwn ar y Bwrdd. Yn ystod 2020-21 codwyd £921,102 (2019-20: £959,453) ar y Cyngor mewn perthynas â nwyddau, gwasanaethau a gwaith cyfalaf. Nid oedd unrhyw falans yn ddyledus gan y cyngor ar 31 Mawrth 2021 (£4,063 yn 2019-20). Yn ogystal, mae Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol Gweithrediadau yn eistedd ar Fwrdd CSC Foundry Ltd, sy'n gyfrwng at ddibenion arbennig sy'n is-gwmni sy'n gwbl eiddo i Gyd-bwyllgor y Fargen Ddinesig. Mae manylion y taliadau a wnaed i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi'u cynnwys yn nodyn 18 i'r cyfrifon.

Mae'r Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid yn Aelod Annibynnol o Fwrdd Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Ni chafodd y Cyngor unrhyw drafodion busnes gyda'r awdurdod iechyd yn 2020-21.

**Cyd-bwyllgorau eraill**

Dangosir manylion y symiau a dalwyd o dan Gyd-bwyllgorau yn Nodyn 18.

**Cyd-bwyllgor Archifau Morgannwg**
Rheolir a gweinyddir Swyddfa Cofnodion Morgannwg gan Gyd-bwyllgor Archifau Morgannwg o dan bwerau a roddir gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994.

**Amlosgfa Llangrallo**
Mae Amlosgfa Llangrallo o dan reolaeth Cyd-bwyllgor o Aelodau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg. Mae datganiadau ariannol y Cyd-bwyllgor hwn ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (www.bridgend.gov.uk).

**Amlosgfa Margam**
Mae Amlosgfa Margam o dan reolaeth Cyd-bwyllgor o Aelodau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sy'n rheoli'r Amlosgfa. Mae datganiadau ariannol y Cyd-bwyllgor hwn ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (www.npt.gov.uk)

**Cyrff Cyhoeddus Eraill**

Mae gan y Cyngor nifer o drefniadau cyllidebau cyfun gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg fel a nodir yn Nodyn 14. Mae hefyd yn talu ffi reoli i Ymddiriedolaeth Awen sy'n sefydliad nid er elw am wasanaethau diwylliannol. Talwyd swm o £3,736,426 i Awen yn 2020-21 (2019-20: £3,213,429) ac roedd balans o £17,540 yn dal yn ddyledus i'r Cyngor ar 31 Mawrth 2021 (2019-20: £66,756 yn ddyledus gan y Cyngor). Mae gan Fwrdd Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen ddau Gynghorydd sy'n aelodau o'i Bwrdd.

# Nodiadau i'r Datganiad ar gyfer y Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn

## 20. Addasiadau rhwng Sail Cyfrifyddu a Sail Ariannu o dan y Rheoliadau

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wnaed yng nghyfanswm yr Incwm a'r Gwariant Cynhwysfawr a gydnabuwyd gan y Cyngor yn y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol ar gyfer yr adnoddau y mae darpariaethau statudol yn pennu eu bod ar gael i'r Cyngor i dalu gwariant refeniw a chyfalaf yn y dyfodol.

Mae'r canlynol yn disgrifio'r cronfeydd wrth gefn y gwnaed yr addasiadau ar eu cyfer.

**Balans Cronfa'r Cyngor**

Dyma'r gronfa statudol y mae'n ofynnol i holl dderbyniadau'r Cyngor gael eu talu iddi ac y mae holl rwymedigaethau'r Cyngor i'w talu ohoni, ac eithrio i'r graddau y gall rheolau statudol ddarparu'n wahanol. Mae'r rheolau hyn hefyd yn cael pennu ym mha flwyddyn ariannol y dylai rhwymedigaethau a thaliadau effeithio ar Falans Cronfa'r Cyngor, heb gyd-fynd o reidrwydd â'r arferion cyfrifyddu priodol. Gan hynny, mae Balans Cronfa'r Cyngor yn crynhoi'r adnoddau y mae gan y Cyngor bŵer statudol i'w gwario ar ei wasanaethau neu ar fuddsoddiadau cyfalaf (neu'r diffyg neu'r adnoddau y mae'n ofynnol i'r Cyngor eu hadennill) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf**

Mae'r Gronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf yn cadw'r enillion yn sgil gwaredu tir neu asedau eraill, y mae'r statud yn eu cyfyngu rhag cael eu defnyddio heblaw i ariannu gwariant cyfalaf newydd neu i'w neilltuo i ariannu gwariant cyfalaf hanesyddol. Mae balans y gronfa'n dangos yr adnoddau sydd heb eu defnyddio at y dibenion hyn eto ar ddiwedd y flwyddyn.

**Grantiau Cyfalaf heb eu Defnyddio**

Mae'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf heb eu Defnyddio yn cadw'r grantiau a'r cyfraniadau a gafwyd tuag at brosiectau cyfalaf y mae'r Cyngor wedi bodloni'r amodau ar eu cyfer a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r arian gael ei ad-dalu fel arall, ond sydd heb eu defnyddio eto i dalu am wariant. Mae'r balans yn cael ei gyfyngu gan delerau'r grantiau ynglŷn â'r gwariant cyfalaf y gellir ei ddefnyddio ar ei gyfer a/neu ynglŷn â'r flwyddyn ariannol y caniateir hynny ynddi.

**Cronfeydd wrth Gefn Annefnyddiadwy**

Mae hyn yn cynnwys y Gronfa wrth Gefn Ailbrisio sy'n cadw'r enillion a wnaed gan y Cyngor yn sgil cynnydd yng ngwerth ei Eiddo, ei Beiriannau a'i Offer; y Gronfa Bensiynau wrth Gefn sy'n amsugno'r gwahaniaethau mewn amser sy'n codi yn sgil y gwahanol drefniadau cyfrifyddu ar gyfer buddion ôl-gyflogaeth ac ar gyfer buddion cyllid a hynny yn unol â'r darpariaethau statudol; y Cyfrif Addasu Cyfalaf sy'n amsugno'r gwahaniaeth mewn amser sy'n codi yn sgil y gwahanol drefniadau cyfrifyddu ar gyfer defnyddio asedau anghyfredol ac ar gyfer ariannu'r broses o gaffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny o dan ddarpariaethau statudol; y Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol sy'n amsugno'r gwahaniaeth mewn amser sy'n codi yn sgil y gwahanol drefniadau cyfrifyddu ar gyfer incwm a gwariant yn ymwneud ag offerynnau ariannol penodol ac ar gyfer dwyn colledion neu elwa ar enillion yn unol â darpariaethau statudol; a'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig Byrdymor sy'n amsugno gwahaniaethau a fyddai'n codi fel arall ar Falans Cronfa'r Cyngor drwy gronni absenoldebau iawndaledig a enillwyd ond nas cymerwyd yn ystod y flwyddyn.

Mae'r tablau isod yn cynnwys manylion yr addasiadau ar gyfer 2019-20 i ddibenion cymharu, a'r addasiadau ar gyfer 2020-21.

| 2019-20 | Cronfeydd Defnyddiadwy | | | Cronfeydd wrth gefn Annefnyddiadwy |
|---|---|---|---|---|
| | Balans Cronfa'r Cyngor £'000 | Cronfa wrth gefn Derbyniadau Cyfalaf £'000 | Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio £'000 | £'000 |
| **Addasiad i Adnoddau Refeniw** | | | | |
| ***Symiau y mae incwm a gwariant, sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, yn wahanol i'r refeniw am y flwyddyn a gyfrifwyd gyda nhw, yn unol â'r gofynion statudol:*** | | | | |
| Costau pensiynau (wedi eu trosglwyddo i'r Gronfa Pensiynau, neu ganddi) | 18,380 | | | (18,380) |
| Offerynnau Ariannol (wedi eu trosglwydd o Gyfrif Addasu yr Offerynnau Ariannol) | (9) | | | 9 |
| Tâl gwyliau (wedi'i drosglwyddo i Gronfa wrth gefn Absenoldebau wedi eu Croni) | 468 | | | (468) |
| Dirymu cofnodion wedi eu cynnwys yn y Gwarged neu'r Diffyg o'r Darpariaeth Gwasanaethau mewn cysylltiad a gwariant cyfalaf (codir yr eitemau hyn ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf) | 21,561 | | | (21,561) |
| **Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Refeniw** | **40,400** | **-** | **-** | **(40,400)** |
| **Addasiadau rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf** | | | | |
| Trosglwyddo derbyniadau o refeniw o werthiant asedau nad ydynt yn gyfredol i'r Gronfa wrth gefn Derbyniadau Cyfalaf | (926) | 926 | | |
| Darpariaeth statudol ar gyfer ad-dalu dyled (trosglwyddo o'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf) | (5,523) | | | 5,523 |
| Gwariant cyfalaf wedi'i ariannu gan falansau refeniw (trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf) | (962) | | | 962 |
| **Cyfanswm Addasiadau rhwng Addasiadau Refeniw a Chyfalaf** | **(7,411)** | **926** | **-** | **6,485** |
| **Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf** | | | | |
| Defnydd o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf | | (240) | | 240 |
| Defnydd o grantiau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf | (11,798) | | | 11,798 |
| Taliadau arian parod mewn cysylltiad â derbyniadau cyfalaf gohiriedig | | | (1,165) | 1,165 |
| **Cyfanswm addasiadau i Gronfeydd Cyfalaf** | **(11,798)** | **(240)** | **(1,165)** | **13,203** |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **21,191** | **686** | **(1,165)** | **(20,712)** |

| 2020-21 | Cronfeydd Defnyddiadwy<br>Balans Cronfa'r Cyngor<br>£'000 | Cronfeydd Defnyddiadwy<br>Cronfa wrth gefn Derbyniadau Cyfalaf<br>£'000 | Cronfeydd Defnyddiadwy<br>Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio<br>£'000 | Cronfeydd wrth gefn Annefnyddiadwy<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Addasiad i Adnoddau Refeniw** | | | | |
| ***Symiau y mae incwm a gwariant, sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, yn wahanol i'r refeniw am y flwyddyn a gyfrifwyd gyda nhw, yn unol â'r gofynion statudol:*** | | | | |
| Costau pensiynau (wedi eu trosglwyddo i'r Gronfa Pensiynau, neu ganddi) | 18,810 | | | (18,810) |
| Offerynnau Ariannol (wedi eu trosglwydd o Gyfrif Addasu yr Offerynnau Ariannol) | (9) | | | 9 |
| Tâl gwyliau (wedi'i drosglwyddo i Gronfa wrth gefn Absenoldebau wedi eu Croni) | (147) | | | 147 |
| Dirymu cofnodion wedi eu cynnwys yn y Gwarged neu'r Diffyg o'r Darpariaeth Gwasanaethau mewn cysylltiad a gwariant cyfalaf (codir yr eitemau hyn ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf) | 21,962 | | | (21,962) |
| **Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Refeniw** | **40,616** | **-** | **-** | **(40,616)** |
| **Addasiadau rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf** | | | | |
| Trosglwyddo derbyniadau o refeniw o werthiant asedau nad ydynt yn gyfredol i'r Gronfa wrth gefn Derbyniadau Cyfalaf | (3,213) | 3,213 | | |
| Darpariaeth statudol ar gyfer ad-dalu dyled (trosglwyddo o'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf) | (5,172) | | | 5,172 |
| Gwariant cyfalaf wedi'i ariannu gan falansau refeniw (trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf) | (1,209) | | | 1,209 |
| **Cyfanswm Addasiadau rhwng Addasiadau Refeniw a Chyfalaf** | **(9,594)** | **3,213** | **-** | **6,381** |
| **Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf** | | | | |
| Defnydd o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf | | (302) | | 302 |
| Defnydd o grantiau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf | (12,325) | | | 12,325 |
| Taliadau arian parod mewn cysylltiad â derbyniadau cyfalaf gohiriedig | | | (29) | 29 |
| **Cyfanswm addasiadau i Gronfeydd Cyfalaf** | **(12,325)** | **(302)** | **(29)** | **12,656** |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **18,697** | **2,911** | **(29)** | **(21,579)** |

# Nodiadau i'r Fantolen

**21. Asedau anghyfredol**

a) Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2021 nid oedd gan y Cyngor unrhyw ymrwymiadau cyfalaf o bwys.

| 2019-20 £'000 | | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| 6,088 | Neuadd Tref Maesteg | - |
| - | Cynllun Amddiffyn yr Arfordir Porthcawl | 5,960 |
| **6,088** | **Cyfanswm** | **5,960** |

b) Nodiadau ar Asedau Anghyfredol

Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir ac Ysgolion Gwirfoddol a Reolir

Mae'r Cyngor yn cydnabod ei unig Ysgol Wirfoddol a Reolir ar ei Fantolen, sef Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen-y-fai. Nid yw'r pedair ysgol gynradd wirfoddol a gynorthwyir na'r un ysgol gyfun wirfoddol a gynorthwyir yn asedau i'r Cyngor ac felly nid ydynt wedi eu cynnwys yn y Fantolen.

c) Prisio Asedau Anghyfredol

Mae Asedau Anghyfredol wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar y sail brisio a nodir yn y Datganiad Polisïau Cyfrifyddu. Mae'r holl asedau yn cael eu prisio ar sail 3 blynedd dreigl ar 31 Rhagfyr, a'u hadolygu ar 31 Mawrth, i gadarnhau na fu newidiadau sylweddol yn y gwerth yn ystod y cyfnod hwnnw. Gwnaed y prisiadau hyn gan Syrfewyr y Cyngor yn unol â'r Nodiadau Ymarfer a Chyfarwyddyd ar Ddatganiadau ar Brisio Asedau gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, ar gyfer asedau nad ydynt yn rhai buddsoddi. Caiff asedau buddsoddi eu prisio'n annibynnol gan Cooke & Arkwright.

| Crynodeb o Eiddo, Cyfarpar ac Offer (ECO) | Tir ac Adeiladau Eraill £'000 | Cerbydau, Cyfarpar ac Offer £'000 | Seilwaith £'000 | Asedau Cymunedol £'000 | Asedau Dros Ben £'000 | Asedau Wrthi'n Cael Eu Hadeiladu £'000 | Cyfanswm Asedau ECO £'000 | Asedau Menter Cyllid Preifat Wedi'u Cynnwys Yn ECO £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu Brisiad** | | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 440,031 | 9,591 | 221,634 | 4,949 | 17,715 | 662 | **694,582** | 22,868 |
| **Ychwanegiadau** | 7,398 | 2,679 | 8,145 | - | - | 753 | **18,975** | - |
| Dibrisiant ac Amhariad Cronnus wedi'u hysgrifennu allan i'r Swm Cario Gros | (4,583) | - | - | - | (185) | - | **(4,768)** | - |
| Codiadau/(gostyngiadau) ailbrisio a gydnabyddir yn y Gronfa wrth Gefn Ailbrisio | 2,471 | - | - | - | (1,096) | - | **1,375** | - |
| Codiadau/(gostyngiadau) ailbrisio a gydnabyddir yn y Gwarged/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | 499 | - | - | - | (660) | - | **(161)** | - |
| Dadgydnabod - gwarediadau | (987) | (26) | - | - | (10) | - | **(1,023)** | - |
| Dadgydnabod - arall | (213) | - | - | - | - | - | **(213)** | - |
| Symudiadau Eraill mewn Cost neu Brisiad | (745) | - | - | - | 1,344 | (599) | **-** | |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **443,871** | **12,244** | **229,779** | **4,949** | **17,108** | **816** | **708,767** | **22,868** |
| **Dibrisiant ac Amhariadau Cronnus** | | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | (9,610) | (4,513) | (156,487) | (37) | (185) | - | **(170,832)** | (3) |
| Cost Dibrisiant am y Flwyddyn | (11,151) | (1,015) | (5,490) | - | - | - | **(17,656)** | (1,213) |
| Dibrisiant ac Amhariadau Cronnus wedi'u hysgrifennu allan i'r Swm Cario Gros | 4,583 | - | - | - | 185 | **-** | **4,768** | - |
| Amhariad cronnus wedi'i ddileu ( lle nad oedd balans cyfrif ar 1 Ebrill ) | (2,656) | - | - | - | - | **-** | **(2,656)** | - |
| Colledion/(Gwrthdroadau) Amhariad a gydnabyddir yn y Gronfa wrth Gefn Ailbrisio | (574) | - | - | - | - | **-** | **(574)** | - |
| Colledion/(Gwrthdroadau) Amhariad a gydnabyddir yn y Gwarged/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | 1,264 | | (243) | - | - | - | **1,021** | - |
| Dadgydnabod - gwarediadau | 69 | 26 | - | - | - | - | **95** | - |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **(18,075)** | **(5,502)** | **(162,220)** | **(37)** | **-** | **-** | **(185,834)** | **(1,216)** |
| | | | | | | | | |
| **GLÎN ar 1 Ebrill 2019** | **430,421** | **5,078** | **65,147** | **4,912** | **17,530** | **662** | **523,750** | **22,865** |
| | | | | | | | | |
| **GLÎN ar 31 Mawrth 2020** | **425,796** | **6,742** | **67,559** | **4,912** | **17,108** | **816** | **522,933** | **21,652** |

| Crynodeb o Eiddo, Cyfarpar ac Offer (ECO) | Tir ac Adeiladau Eraill £'000 | Cerbydau, Cyfarpar ac Offer £'000 | Seilwaith £'000 | Asedau Cymunedol £'000 | Asedau Dros Ben £'000 | Asedau Wrthi'n Cael Eu Hadeiladu £'000 | Cyfanswm Asedau ECO £'000 | Asedau Menter Cyllid Preifat Wedi'u Cynnwys Yn ECO £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu Brisiad** | | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 443,871 | 12,244 | 229,779 | 4,949 | 17,108 | 816 | **708,767** | 22,868 |
| **Ychwanegiadau** | 6,192 | 2,685 | 7,526 | 46 | 70 | 3,373 | **19,892** | |
| Dibrisiant ac Amhariad Cronnus wedi'u hysgrifennu allan i'r Swm Cario Gros | (5,531) | - | - | - | - | - | **(5,531)** | |
| Codiadau/(gostyngiadau) ailbrisio a gydnabyddir yn y Gronfa wrth Gefn Ailbrisio | 8,055 | - | - | - | (285) | - | **7,770** | |
| Codiadau/(gostyngiadau) ailbrisio a gydnabyddir yn y Gwarged/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | 1,063 | - | - | (8) | (303) | - | **752** | |
| Dadgydnabod - Gwarediadau | (973) | - | - | - | - | - | **(973)** | |
| Dadgydnabod - arall | - | - | - | - | (2,500) | - | **(2,500)** | |
| Symudiadau Eraill mewn Cost neu Brisiad | 2,091 | - | - | - | - | (2,091) | **-** | |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **454,768** | **14,929** | **237,305** | **4,987** | **14,090** | **2,098** | **728,177** | **22,868** |
| **Dibrisiad ac Amhariadau Cronnus** | | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | (18,075) | (5,502) | (162,220) | (37) | - | - | **(185,834)** | (1,216) |
| Cost Dibrisiant am y flwyddyn | (10,542) | (1,473) | (5,305) | - | - | (11) | **(17,331)** | (1,213) |
| Dibrisiant ac Amhariad Cronnus wedi'u hysgrifennu allan i'r Swm Cario Gros | 5,531 | - | - | - | - | - | **5,531** | |
| Amhariad cronnus wedi'i ddileu ( lle nad oedd balans cyfrif ar 1 Ebrill ) | | | | | | | **-** | |
| Acc. Dibrisiant WO i'r GCA | (975) | - | - | - | - | - | **(975)** | |
| Colledion/(Gwrthdroadau) Amhariad a gydnabyddir yn y Gronfa wrth Gefn Ailbrisio | - | - | - | - | - | - | **-** | |
| Colledion/(Gwrthdroadau) Amhariad a gydnabyddir yn y Gwarged/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | (178) | (111) | (186) | - | - | - | **(475)** | |
| Dadgydnabod - gwarediadau | 46 | | | | | | **46** | |
| Symudiadau Eraill | (11) | - | (1) | 1 | - | 11 | **-** | |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **(24,204)** | **(7,086)** | **(167,712)** | **(36)** | **-** | **-** | **(199,038)** | **(2,429)** |
| | | | | | | | | |
| **GLÎN ar 1 Ebrill 2020** | **425,796** | **6,742** | **67,559** | **4,912** | **17,108** | **816** | **522,933** | **21,652** |
| | | | | | | | | |
| **GLÎN ar 31 Mawrth 2021** | **430,564** | **7,843** | **69,593** | **4,951** | **14,090** | **2,098** | **529,139** | **20,439** |

d) Asedau Anniriaethol.

Mae'r ased Anniriaethol yn cyfeirio at System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, WCCIS. Ar 31 Mawrth 2021, gweddill oes yr ased oedd 3 blynedd.

| **Asedau anniriaethol** | **£'000** |
|---|---|
| **Cost neu brisiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 6,040 |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **6,040** |
| **Dibrisiant ac Amhariadau Cronedig** | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | (2,447) |
| Tâl Dibrisiant am y flwyddyn | (561) |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **(3,008)** |
| | |
| **Gwerth Llyfr Net ar 1 Ebrill 2019** | **3,593** |
| | |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2020** | **3,032** |

| **Asedau anniriaethol** | **£'000** |
|---|---|
| **Cost neu brisiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 6,040 |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **6,040** |
| **Dibrisiant ac Amhariadau Cronedig** | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | (3,008) |
| Tâl Dibrisiant am y flwyddyn | (561) |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **(3,569)** |
| | |
| **Gwerth Llyfr Net ar 1 Ebrill 2020** | **3,032** |
| | |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2021** | **2,471** |

e) Ffynonellau Cyllid ar gyfer Gwariant Cyfalaf

| **2019-20 £'000** | | **2020-21 £'000** |
|---|---|---|
| (5,215) | Benthyciadau | (6,367) |
| (13,902) | Grantiau'r Llywodraeth | (15,280) |
| (240) | Derbyniadau cyfalaf | (302) |
| (1,168) | Cyfraniad refeniw | (1,209) |
| (2,297) | Cyfraniad arall | (303) |
| **(22,822)** | **Cyfanswm** | **(23,461)** |

f) Gwariant Refeniw a Ariennir gan Gyfalaf o dan Statud

Mae a wnelo'r rhain â gwariant cyfalaf nad ydynt arwain at ased diriaethol anghyfredol. Maent yn cynnwys grantiau adnewyddu a chyfraniadau at wariant cyfalaf a ysgwyddir gan bartïon eraill.

| 2019-20 £'000 | | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| 3,847 | Gwariant Refeniw a Ariannwyd o Gyfalaf o dan Statud | 3,569 |
| (3,230) | Grantiau a Chyfraniadau | (3,228) |
| **617** | **Cyfanswm** | **341** |

g) <u>Y gofyniad ar gyfer cyllido cyfalaf a chyllido gwariant cyfalaf</u>

| 2019-20 £'000 | Gofyniad Cyllido Cyfalaf | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| **172,084** | **Gofyniad Diwygedig ar gyfer Cyllido Cyfalaf Agoriadol** | **171,776** |
| | **Buddsoddiad Cyfalaf** | |
| 18,975 | Eiddo, Peiriannau, Offer | 19,892 |
| 3,847 | Gwariant Refeniw a Ariannwyd o Gyfalaf o dan Statud | 3,569 |
| | **Ffynhonnell Cyllid** | |
| (16,199) | Grantiau a chyfraniadau | (15,583) |
| (240) | Derbyniadau Cyfalaf a defnyddiwyd | (302) |
| (1,168) | Cyfraniadau Refeniw | (1,209) |
| (2,885) | Isafswm y Ddarpariaeth Refeniw | (2,927) |
| (1,948) | Benthyca Heb Gymorth MRP | (1,502) |
| (690) | MRP yr Ysgol PFI | (743) |
| **171,776** | **Gofyniad Cyllido Cyfalaf Cau** | **172,971** |
| | **Esboniad y Symudiadau yn y Flwyddyn** | |
| 1,053 | Cynnydd/(Gostyngiad) yn yr Angen Isorweddol i Fenthyca (gyda chymorth ariannol y llywodraeth) | 1,059 |
| (671) | Cynnydd/(Gostyngiad) yn yr Angen Isorweddol i Fenthyca (heb gymorth ariannol y llywodraeth) | 879 |
| (690) | Asedau a gafwyd o dan Gontract PFI | (743) |
| **(308)** | **Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Gofyniad Cyllid Cyfalaf** | **1,195** |

h) <u>Derbyniadau Cyfalaf Ymlaen Llaw</u>

Mae hyn yn cynnwys cyfuniad o grantiau cyfalaf a dderbyniwyd ymlaen llaw mewn perthynas â chynlluniau gwres arfaethedig (£2.168m) ynghyd â chyfraniadau adran 106 a dderbynnir gan ddatblygwyr a fydd yn cael eu hymrwymo a'u defnyddio i ariannu cynlluniau presennol a rhai yn y dyfodol, yn unol â gofynion penodol y cytundebau (£5.817m).

**22. Eiddo Buddsoddi**

Mae'r tabl a ganlyn yn crynhoi'r symudiad yng ngwerth teg eiddo buddsoddi yn ystod y flwyddyn:

| 2019-20 £'000 | | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| 4,635 | **Balans ar 1 Ebrill** | 4,635 |
| - | Enilliad/(colled) Net o addasiadau gwerth teg | 455 |
| **4,635** | **Balans ar 31 Mawrth** | **5,090** |

**23. Dyledwyr Byrdymor**

Yr arian sy'n ddyledus i'r Cyngor ar ôl gwneud darpariaeth ar gyfer dyledion y mae'n bosibl na chant eu hadennill yw hyn. Rhestrir y prif ddyledwyr isod:

| 2019-20 £'000 | | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| 8,118 | Derbyniadau Masnach | 12,873 |
| 3,056 | Rhagdaliadau | 4,957 |
| 25,168 | Symiau Derbyniadwy Eraill | 33,980 |
| **36,342** | **Balance as at 31 March** | **51,810** |

Mae'r Cyngor yn casglu taliadau NNDR ar ran Llywodraeth Cymru. Gan fod y Cyngor wedi talu mwy o arian nag yr oedd wedi'i gasglu ar 31 Mawrth 2021, roedd y swm ychwanegol hwn wedi'i gynnwys ar y Fantolen fel dyled o £3.968 miliwn. Y swm cyfatebol ar gyfer 2019-20 oedd dyled o £0.613 miliwn.

### 24. Asedau a Gedwir i'w Gwerthu

| 2019-20 £'000 | | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| 2,560 | Balans ar 1 Ebrill | 2,560 |
| | Asedau a ddad-ddosbarthwyd fel Asedau a Gedwir i'w Gwerthu: Eiddo | |
| - | Peiriannau ac Offer | 2,500 |
| - | Asedau a Werthwyd | (2,560) |
| **2,560** | **Balans ar 31 Mawrth** | **2,500** |

### 25. Credydwyr Byrdymor

Dyma'r arian sy'n ddyledus gan y Cyngor ac fe'i dadansoddir fel a ganlyn:

| 2019-20 £'000 | | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| (5,883) | Taliadau Masnach | (2,346) |
| (28,650) | Taliadau Eraill | (32,314) |
| **(34,533)** | **Balance as at 31 March** | **(34,660)** |

### 26. Darpariaethau

Mae gan y Cyngor ddwy ddarpariaeth fel y'i nodir isod:

| | Yswiriant £'000 | Darpariaethau Eraill £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2020** | 4,907 | 78 | **4,985** |
| Symiau a ddefnyddiwyd yn 2020-21 | (1,070) | | **(1,070)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **3,837** | **78** | **3,915** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Darpariaethau < 1 yr | 717 | 78 | **795** |
| Darpariaethau > 1 yr | 3,120 | - | **3,120** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **3,837** | **78** | **3,915** |

<u>Darpariaeth Yswiriant (Hunan-gyllido / MMI)</u>

<u>Hunan-gyllido</u>
Mae gan y Cyngor gronfa hunan-yswirio. Mae'r Ddarpariaeth Yswiriant hon wedi'i neilltuo er mwyn talu'r gost a amcangyfrifir i'r Cyngor yn sgil rhwymedigaethau nad ydynt wedi eu talu ar gyfer y blynyddoedd polisi hyd at 2020-21 o ran Rhwymedigaeth Cyflogwr, Rhwymedigaeth Gyhoeddus ac Eiddo. Er hynny, ansicr yw union gost hawliadau unigol ac amser y taliadau. Mae gan y Cyngor hefyd

gronfa wrth gefn sydd wedi'i neilltuo ar gyfer Yswiriant, sy'n gweithredu fel clustog ychwanegol ar gyfer y gronfa yn ychwanegol at gyfanswm y rhwymedigaeth sydd heb ei dalu, er mwyn caniatáu ar gyfer digwyddiadau annisgwyl, dirywiad sy'n waeth na'r disgwyl yn y cronfeydd cyfredol a cholledion yn y dyfodol sy'n uwch na'r disgwyl o ran amlder a chost.

Darpariaethau eraill
Crëwyd darpariaeth newydd yn ystod y flwyddyn i ddarparu ar gyfer gwerth taliadau iawndal posibl yn y dyfodol yn deillio o ymgyfreitha sydd ar ei hanner.

**27. PFI a Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill**

| 2019-20 £'000 | | Symud yn y flwyddyn £'000 | Wedi'i symid i Gredydwyr Byrdymor £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| 15,567 | Rhwymedigaeth Prydles PFI Ysgol Maesteg | | (801) | 14,766 |
| 349 | Ganolfan Arloesi | | (107) | 242 |
| 200 | Contract Gwastraff | | (50) | 150 |
| 13 | Escrow (Clwb Pêl-droed) | | (13) | - |
| 318 | Benthyciad Llywodraeth Cymru – Cwm Llyfni | 1,455 | (129) | 1,644 |
| **16,447** | **Balans ar 31 Mawrth** | **1,455** | **(1,100)** | **16,802** |

Mae Rhwymedigaeth Les Cyllid y PFI yn cyfateb i werth teg yr ased sefydlog ar gyfer y PFI Ysgolion ar y dyddiad y daeth yr ased i Fantolen y Cyngor, sef £21.898 miliwn (Gorffennaf 2008). Caiff hyn ei ddibrisio dros oes y contract PFI yn unol â gwerth y taliad unedol a gymerir fel yr elfen lesio cyfalaf bob blwyddyn. Y swm a gofnodwyd ar gyfer 2020-21 oedd £743,000 ac mae £801,000 wedi'i drosglwyddo i Gredydwyr Byrdymor gan adael rhwymedigaeth hirdymor heb ei thalu o £14.766 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.

Cydnabuwyd Rhwymedigaeth Ariannol y Ganolfan Arloesi o £0.917 miliwn yn 2009-10 fel benthyciad o ran sylwedd. Mae hyn yn cael ei gofnodi ar gyfer y pedair blynedd ar ddeg o'r benthyciad sydd yn weddill. Y swm a gofnodwyd yn 2020-21 oedd £98,000, ac mae £106,000 wedi'I drosglwyddo i Gredydwyr Byrdymor gan arwain at rwymedigaeth ariannol o £0.243 miliwn ar 31 Mawrth 2021.

Mae rhwymedigaeth y Contract Gwastraff i'w ad-dalu fesul rhandaliad o £50,000 y flwyddyn.

Mae'r rhwymedigaeth Escrow hirdymor yn gronfa a fydd yn cael ei chynnal a'i chynyddu i ganiatáu ar gyfer adfer caeau chwarae yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr – Pen-coed yn y dyfodol.

**28. Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy**

Mae'r nodiadau canlynol yn rhoi manylion Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy y Cyngor:

**a) Cronfa wrth gefn Ddefnyddiadwy ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf**

Derbyniadau cyfalaf yw'r rhain sydd ar gael i gyllido gwariant cyfalaf yn y dyfodol.

| 2019-20 £'000 | | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| 17,922 | Balans ar 1 Ebrill | 18,608 |
| 926 | Derbyniadau Cyfalaf a Dderbyniwyd | 3,213 |
| (240) | Derbyniadau a ddefnyddiwyd i ariannu gwariant cyfalaf | (302) |
| **18,608** | **Balans ar 31 Mawrth** | **21,519** |

**b) Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd**

Rhoddir manylion y Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd ar 31 Mawrth 2021 yn y Fantolen isod:

| Balans Agoriadol 2019-20 £'000 | Gwarchodfa | Symud yn ystod 2020-21<br>Ychwanegladau / Ailddosbarthu £'000 | <br>Tynnu i lawr gan Gyfarwyddiaethau £'000 | Balans Cau 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **9,340** | **Cronfa'r Cyngor** | **432** | | **9,772** |
| | **Cronfeydd Wrth Gefn Corfforaethol:** | | | |
| 21,078 | Cyfraniad Rhaglen Gyfalaf | 8,530 | (688) | **28,920** |
| 5,276 | Cronfa Wrth Gefn Hawliadau Mawr | (500) | - | **4,776** |
| 4,992 | Ailgyflunio Gwasanaeth | - | - | **4,992** |
| 12,142 | Cronfeydd Corfforaethol Eraill | 3,187 | (1,397) | **13,932** |
| **43,488** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Corfforaethol** | **11,217** | **(2,085)** | **52,620** |
| | **Cronfeydd Wrth Gefn Eraill:** | | | |
| 5,441 | Cronfeydd Wrth Gefn y Gyfarwyddiaeth | 6,069 | (1,287) | **10,223** |
| 2,489 | Gwarchodfa Bargen y Ddinas | 2,899 | (188) | **5,200** |
| **7,930** | **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Gyfarwyddiaeth** | **8,968** | **(1,475)** | **15,423** |
| 108 | Balans Ysgolion Dirprwyedig | 8,382 | | 8,490 |
| **51,526** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn ac eithrio Cronfeydd Cydraddoli** | **28,567** | **(3,560)** | **76,533** |
| 3,696 | **Cydraddoli a Chronfeydd Wrth Gefn Grantiau** | 3,729 | (1,110) | **6,315** |
| **55,222** | **CYFANSWM CRONFA'R CYNGOR** | **32,296** | **(4,670)** | **82,848** |
| | | | | |
| **64,562** | **CYFANSWM CYNNWYS CRONFA'R CYNGOR** | **32,728** | **(4,670)** | **92,620** |

**Cronfa'r Cyngor**

Trosglwyddwyd £0.432 miliwn i Gronfa'r Cyngor ar gyfer 2020-21. Cynyddodd hyn y balans ar y Gronfa i £9.772 miliwn ar 31 Mawrth 2021 (£9.340 miliwn ar 31 Mawrth 2020).

**Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd eraill**

Roedd y swm a drosglwyddwyd i Falansau a Glustnodwyd, heb gynnwys Balans Cronfa'r Cyngor, yn gynnydd net o £27.626 miliwn yn 2020-21 (gostyngiad net o £7.115 yn 2019-20). Ceir trosolwg o bob cronfa sydd wedi'i chlustnodi isod.

**Cronfeydd wrth Gefn Corfforaethol**

Cyfraniad at Raglenni Cyfalaf

Sefydlwyd y gronfa hon sydd wedi'i chlustnodi fel cyfraniad refeniw at y rhaglen gyfalaf, er mwyn galluogi cynlluniau i symud ymlaen yn gynt er mwyn lleihau'r pwysau ar y gyllideb refeniw gan gyflymu gwaith i wireddu derbyniadau cyfalaf.

Cronfa a Glustnodwyd ar gyfer Hawliadau Mawr

Mae'r gronfa hon wedi'i chreu yn bennaf i dalu'r diffyg ar y gronfa bensiwn a hawliau o dan gontractau cyfalaf mawr, ac i liniaru hawliadau posibl eraill yn erbyn y Cyngor.

Costau Ad-drefnu Gwasanaethau / Diswyddo
Mae'r gronfa wrth gefn hon wedi'i sefydlu i gwrdd â chostau posibl yn ymwneud ag ailfodelu gwasanaethau a costau diswyddo canlyniadol.

**Cronfeydd Wrth Gefn y Gyfarwyddiaeth**

Cronfa'r Fargen Ddinesig
Bwriad y gronfa hon yw darparu'r cyllid angenrheidiol ar gyfer cyfraniad cyfalaf y Cyngor i raglan Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Materion y Gyfarwyddiaeth
Mae'r cronfeydd wrth gefn hyn yn ymwneud â materion penodol a ragwelwyd yn 2021-22 ar gyfer y Gyfarwyddiaeth, buddsoddiad i helpu i adfer y Fwrdeistref Sirol yn sgil Covid-19 ac i gefnogi ei thrigolion, ynghyd â rhai symiau a gariwyd o 2020-21. Mae enghreifftiau'n cynnwys cronfeydd wrth gefn i gefnogi pwysau o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant sy'n Derbyn Gofal; effaith Brexit; buddsoddiad adfywio ehangach; Strategaeth Teithio Llesol, a chefnogi cynlluniau Prentisiaid a Graddedigion.

**Balansau Dirprwyedig Ysgolion**

Mae'r balansau hyn yn cynrychioli effaith gronnol gorwario a thanwario ar gyllidebau dirprwyedig yr ysgolion nad ydynt ar gael i'r Cyngor.

Dadansoddiad o Falans Dirprwyedig Ysgolion

| 2019-20 Cydbwysedd Cau £'000 | Mathau o Ysgolion | Niferoedd yn y categori | 2020-21 Cyllideb £'000 | 2020-21 Gwariant £'000 | 2020-21 Cydbwysedd Cau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| (543) | Ysgolion Cynradd | 48 | 48,902 | 44,352 | 4,550 |
| 92 | Ysgolion Uwchradd | 9 | 48,073 | 45,095 | 2,978 |
| 559 | Ysgolion Arbennig | 2 | 10,455 | 9,493 | 962 |
| **108** | **Cyfanswm** | **59** | **107,430** | **98,940** | **8,490** |

*Mae Balans Cau 2019-20 wedi'i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2020-21. Mae'r arfer cyfrifyddu hwn o gynnwys balans cau y flwyddyn flaenorol yng nghyllideb y flwyddyn bresennol yn berthnasol i ysgolion yn unig ac nid yw'n berthnasol i unrhyw faes arall o'r cyfrifon.*

**Cydraddoliad a Chronfeydd wrth Gefn Grantiau**

Mae hyn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn grantiau lle dylid dadansoddi'r holl grantiau a'r cyfraniadau o dan arferion cyfrifyddu priodol, i weld a oes unrhyw amodau penodol yn gysylltiedig â hwy. Pan fo'r amodau wedi'u bodloni'n wirioneddol, caiff y grant ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr waeth a yw'r gwariant gwirioneddol wedi digwydd ai peidio. Yn yr achosion hyn, gall y Cyngor benderfynu trosglwyddo'r arian grant i gronfa wedi'i chlustnodi i ariannu gwariant yn y dyfodol. Yn 2020-21, roedd £3.433 miliwn (2019-20 - £1.758 miliwn) o grantiau newydd wedi cael eu trosglwyddo i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, er mwyn sicrhau bod cyllid wedi'i warchod yn unol â thelerau ac amodau gwreiddiol y grant neu'r cyfraniad. Yn ogystal â hyn, ceir ambell gronfa gydraddoli sy'n sicrhau bod gwariant a ysgwyddir mewn blwyddyn neilltuol yn y dyfodol wedi'I wasgaru ar draws cyfnod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC). Mae'r rhain yn cynnwys cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ar gyfer costau etholiadau, y Gronfa Adfywio Arbennig, paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol a Rheoli Adeiladu. Cafodd £1.109 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn eu tynnu I lawr yn ystod y flwyddyn.

## 29. Cronfeydd wrth Gefn Annefnyddiadwy

Mae’r nodiadau a ganlyn yn rhoi manylion Cronfeydd wrth Gefn Annefnyddiadwy’r Cyngor.

### a) Cronfa Ailbrisio wrth Gefn (RR)

Mae'r Gronfa Ailbrisio yn cynnwys yr enillion a wnaed gan y Cyngor sy'n deillio o'r cynnydd yng ngwerth Eiddo, Offer a Chyfarpar y Cyngor. Gostyngir y balans pan fydd asedau sydd wedi crynhoi enillion:

- yn cael eu hailbrisio i lawr neu eu hamharu, gan golli’r enillion;
- yn cael eu defnyddio wrth ddarparu gwasanaethau, gan golli’r enillion drwy ddibrisiant; neu
- yn cael eu gwaredu, gan wireddu’r enillion.

Dim ond enillion sydd wedi’u cronni drwy ailbrisiadau ers 1 Ebrill 2007 a geir yn y Gronfa Ailbrisio. Mae’r enillion cronedig a gododd cyn y dyddiad hwnnw wedi’u cydgrynhoi yn y balans ar y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

| 2019-20 | | | 2020-21 | |
|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | | £'000 | £'000 |
| | 149,553 | **Balans ar 1 Ebrill** | | 145,386 |
| | | Blwyddyn flaenorol adj | | |
| 5,277 | | Ailbrisio Asedau i fyny | 10,416 | |
| (4,476) | | Ailbrisio Asedau i lawr ac Amhariadau Colledion nas codwyd ar y Gwarged/Diffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau | (2,646) | |
| | **801** | **Gwarged neu ddiffyg ar ailbrisio asedau anghyfredol nas gosodwyd ar y Gwarged neu’r Diffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau** | | **7,770** |
| (4,566) | | Y gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth teg a dibrisiant cost hanesyddol | (4,154) | |
| (402) | | Enillion cronedig ar asedau a werthwyd neu a sgrapiwyd | (363) | |
| | (4,968) | Swm a ysgrifennwyd i ffwrdd i’r Cyfrif Addasu Cyfalaf | | (4,517) |
| | **145,386** | **Balans ar 31 Mawrth** | | **148,639** |

### b) Y Gronfa Pensiynau wrth Gefn

Mae’r Gronfa Bensiynau Wrth Gefn yn amsugno’r gwahaniaethau amseru sy’n codi yn sgil y gwahanol drefniadau cyfrifyddu ar gyfer buddion ôl-gyflogaeth ac ar gyfer buddion cyllid a hynny yn unol â’r darpariaethau statudol. Mae’r Cyngor yn cyfrif buddion ôl-gyflogaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wrth i’r buddion gael eu hennill gan y gweithwyr sy’n cronni blynyddoedd o wasanaeth, gan ddiweddaru’r rhwymedigaethau a gydnabyddir er mwyn adlewyrchu chwyddiant, newid yn y rhagdybiaethau a’r enillion buddsoddi ar unrhyw adnoddau a neilltuwyd i dalu’r costau. Er hynny, mae’r trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i’r buddion a enillir gael eu hariannu wrth i’r Cyngor wneud cyfraniadau cyflogwr at y cronfeydd pensiwn neu wrth iddo dalu unrhyw bensiynau y mae’n uniongyrchol gyfrifol amdanynt yn y pen draw. Gan hynny mae’r balans debyd ar y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn yn dangos cryn ddiffyg yn y buddion a enillwyd gan weithwyr y gorffennol a’r presennol a’r adnoddau y mae’r Cyngor wedi’u neilltuo i’w talu. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau bod cyllid wedi’i neilltuo erbyn y bydd y buddion i’w talu.

| 2019-20 £’000 | | 2020-21 £’000 |
|---|---|---|
| (263,510) | **Balans ar 1 Ebrill** | (289,190) |
| (7,300) | Enillion neu golledion actiwaraidd ar asedau a rhwymedigaethau pensiwn | (2,290) |
| (35,850) | Gwrthdroad eitemau yn ymwneud â Buddion Ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i’r Gwarged neu’r Diffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant | (35,640) |
| 17,470 | Cyfraniadau Pensiwn y Cyflogwr a Thaliadau Uniongyrchol i Bensiynwyr yn Daladwy yn y Flwyddyn | 16,830 |
| **(289,190)** | **Balans ar 31 Mawrth** | **(310,290)** |

**c) Cyfrif Addasu Cyfalaf (CAA)**

Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaeth amseru sy'n codi yn sgil y gwahanol drefniadau cyfrifyddu ar gyfer defnyddio asedau anghyfredol ac ar gyfer ariannu'r broses o gaffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny o dan ddarpariaethau statudol. Mae'r cyfrif yn cael ei ddebydu am gost caffael, adeiladu neu wella wrth i ddibrisiant, colledion amharu ac amorteiddiadau gael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gan gysoni o'r Gronfa Ailbrisio er mwyn trosi ffigurau gwerth teg i sail cost hanesyddol). Mae'r cyfrif yn cael ei gredydu â'r symiau a neilltuwyd gan yr Awdurdod fel cyllid ar gyfer costau caffael, adeiladu a gwella.

Mae'r cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar Eiddo Buddsoddi.

Mae'r cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbrisio a gronnwyd ar Eiddo, Offer a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y cafodd y Gronfa Ailbrisio ei chreu i gadw enillion o'r fath.

| 2019-20 | | | 2020-21 | |
|---|---|---|---|---|
| **£'000** | **£'000** | | **£'000** | **£'000** |
| | **213,123** | **Balans ar 1 Ebrill** | | **216,218** |
| | | **Gwrthdroad eitemau yn ymwneud â gwariant cyfalaf a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Gwarged neu'r Diffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Cynhwysfawr:** | | |
| (18,218) | | Taliadau am ddibrisiant ac amhariad asedau anghyfredol | (17,892) | |
| (1,797) | | Colledion ailbrisio ar Eiddo, Peiriannau ac Offer | (698) | |
| (618) | | Gwariant Refeniw a Ariannwyd o Gyfalaf o dan Statud | (341) | |
| | | Symiau eraill gan gynnwys Taliadau Morgais | | |
| (738) | | Symiau'r asedau anghyfredol a ysgrifennwyd i ffwrdd wrth eu gwaredu neu eu gwerthu fel rhan o'r enilliad/colled wrth eu gwaredu i'r Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant | (3,124) | |
| | (21,371) | | | (22,055) |
| | 4,566 | Symiau addasu a ysgrifennwyd allan i'r Gronfa Ailbrisio | | 4,154 |
| | **(16,805)** | **Swm net a ysgrifennwyd allan o gost yr asedau anghyfredol a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn** | | **(17,901)** |
| | | **Cyllid cyfalaf a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn:** | | |
| 240 | | Defnydd y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf | 302 | |
| 12,969 | | Grantiau a chyfraniadau cyfalaf a gredydwyd i'r Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant a ddefnyddiwyd ar gyfer cyllid cyfalaf | 12,355 | |
| 5,523 | | Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddi cyfalaf a godwyd yn erbyn Cronfa'r Cyngor | 5,172 | |
| 1,168 | | Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn Cronfa'r Cyngor | 1,209 | |
| | **19,900** | | | **19,038** |
| | | Symudiad yng ngwerth marchnad Eiddo Buddsoddi a gredydwyd i'r Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant | | 455 |
| | **216,218** | **Balans ar 31 Mawrth** | | **217,810** |

**30. Rhwymedigaethau pensiynau, datgeliadau IAS 19**

Yn rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Cyngor yn cyfrannu at gost buddion ar ôl ymddeol. Er na fydd y buddion hyn yn daladwy nes bod y gweithwyr yn ymddeol, mae gan y Cyngor

ymrwymiad i wneud y taliadau (ar gyfer y buddion hyn) a'u datgelu ar yr adeg y mae'r gweithwyr yn ennill eu hawl yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor hwn yn cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sy'n cael ei gweinyddu o dan y Rheoliadau sy'n llywodraethu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Cynllun buddion diffiniedig yw hwn, sy'n golygu bod y Cyngor a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau I gronfa, yn ôl cyfradd a bennir gan Actiwari'r Gronfa ar sail prisiadau actiwaraidd bob tair blynedd, gan anelu at gydbwyso 100% o'r rhwymedigaethau pensiwn ag asedau buddsoddi. Cynhaliwyd y prisiad tair blynedd diwethaf yn 2019-20.

Ceir rhagor o wybodaeth yn Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn CBS Rhondda Cynon Taf sydd ar gael ar gais gan y Cyfarwyddwr Cyllid, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Bronwydd, Porth, Rhondda, Rhondda Cynon Taf.
http://www.rctpensions.org.uk

Trefniant budd diffiniedig heb ei gyllido yw unrhyw ddyfarniad buddion ar ôl ymddeol dewisol, ac o dan y trefniant hwn mae rhwymedigaethau'n cael eu cydnabod pan wneir y dyfarniad. Nid oes asedau buddsoddi'n cael eu cronni i dalu'r rhwymedigaethau pensiwn hyn, ac mae'n rhaid cynhyrchu arian parod i dalu'r taliadau pensiwn eu hunain pan fo'r rheiny'n ddyledus.
Prif risgiau'r cynllun i'r Cyngor yw'r rhagdybiaethau ynghylch hirhoedledd, newidiadau statudol yn y cynllun, newidiadau strwythurol yn y cynllun (hynny yw tynnu'n ôl o'r cynllun ar raddfa fawr), newidiadau mewn chwyddiant, enillion bondiau, a pherfformiad y buddsoddiadau ecwiti sydd gan y cynllun. Mae'r rhain yn cael eu lleddfu i raddau gan y gofynion statudol bod rhaid codi'r symiau sy'n ofynnol o dan y statud o'r Gronfa yn unol â'r disgrifiad yn y nodyn ar y polisïau cyfrifyddu.

Mae'r Datgeliadau sy'n angenrheidiol ar gyfer 2020-21 yn cynnwys gwybodaeth a roddwyd gan weinyddwyr y pensiwn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac Aon Hewitt Associates Limited fel actiwari'r pensiwn.

Mae'r adroddiadau prisio diwedd blwyddyn a ddarparwyd gan yr actiwari yn nodi bod data ONS yn dangos bod y dyledion cronnol yn 2020 a 2021 ymhell y tu allan i ystod y canlyniadau a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bydd effaith anuniongyrchol Covid 19, gan gynnwys iechyd y boblogaeth sydd wedi goroesi, a chanlyniadau economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol mynd i'r afael â'r pandemig, yn cael effaith ar hirhoedledd y gronfa i'w haelodau. Yn y ddau achos uchod, gallai'r effaith ar hirhoedledd fod yn gadarnhaol neu'n negyddol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i ddweud pa effaith a gaiff y gyfradd marwolaethau uwch ar lif arian parod yn y dyfodol, felly nid yw'r actiwari wedi argymell newid y dybiaeth marwolaethau at ddibenion cyfrifyddu.

**Dyfarniad McCloud**

Ym mis Rhagfyr 2018, cadarnhaodd y Llys Apêl fod darpariaethau amddiffyn wrth bontio a oedd wedi'u cynnwys yng nghynlluniau pensiwn diwygiedig barnwrol ac ymladdwyr tân, a gyflwynwyd yn rhan o ddiwygiadau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus yn 2015, yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol ar sail oedran, a'u bod felly'n anghyfreithlon. Ar 27 Mehefin 2019, gwrthododd yr Uchel Lys gais y Llywodraeth am hawl i apelio yn erbyn y penderfyniadau. Mae'r cyfrifiad o'r rhwymedigaeth yn ymgorffori effaith dyfarniad 'McCloud'.

**Trafodiadau ynglŷn â Buddion ar ôl Ymddeol**

Mae cost buddion ymddeol yn cael ei chydnabod yn y gost a gofnodir ar gyfer gwasanaethau pan gânt eu hennill gan y gweithwyr, yn hytrach na phan delir y buddion yn y pen draw ar ffurf pensiynau. Er hynny, mae'r taliad y mae'n ofynnol ei godi yn erbyn y Dreth Gyngor yn cael ei seilio ar yr arian parod sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly mae cost wirioneddol buddion ar ôl ymddeol yn cael ei gwrth-droi allan o Gronfa'r Cyngor drwy'r Datganiad ar y Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion a ganlyn wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ac ym Malans Cronfa'r Cyngor drwy'r Datganiad ar y Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn.

| Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £m 2019-20 | Buddion LGPS heb eu Cyllido £m 2019-20 | Buddion Athrawon heb eu Cyllido £m 2019-20 | Cyfanswm £m 2019-20 | Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant<br>**Cost y Gwasanaethau:** | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £m 2020-21 | Buddion LGPS heb eu Cyllido £m 2020-21 | Buddion Athrawon heb eu Cyllido £m 2020-21 | Cyfanswm £m 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Cost y gwasanaethau'n cynnwys:** | | | | |
| 29.26 | 0.00 | 0.00 | **29.26** | Cost y gwasanaeth cyfredol | 29.08 | 0.00 | 0.00 | **29.08** |
| 0.47 | 0.00 | 0.00 | **0.47** | Cost y gwasanaeth yn y gorffennol | 0.10 | 0.00 | 0.00 | **0.10** |
| 0.00 | 0.00 | 0.00 | **0.00** | (enilliad)/colled o setliadau | | 0.00 | 0.00 | **0.00** |
| | | | | **Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi:-** | | | | |
| 5.87 | 0.17 | 0.08 | **6.12** | Cost net y llogau | 6.24 | 0.15 | 0.07 | **6.46** |
| **35.60** | **0.17** | **0.08** | **35.85** | **Cyfanswm Taliadau Buddion Ôl-gyflogaeth i'r Gwarged neu'r Diffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **35.42** | **0.15** | **0.07** | **35.64** |
| | | | | **Buddion Ôl-gyflogaeth Eraill a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | |
| | | | | *Ailfesuriadau'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig net yn cynnwys:* | | | | |
| 22.71 | 0.00 | 0.00 | **22.71** | Enillion ar asedau'r cynllun (heb gynnwys y swm a gynhwyswyd yng nghost net y llogau) | (169.25) | 0.00 | 0.00 | **(169.25)** |
| (16.85) | (0.06) | (0.01) | **(16.92)** | (Enillion)/colledion actiwaraidd oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol | 181.55 | 0.48 | 0.15 | **182.18** |
| (10.53) | (0.05) | 0.00 | **(10.58)** | (Enillion)/colledion actiwaraidd oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig | 0.00 | 0.00 | 0.00 | **0.00** |
| 12.14 | (0.03) | (0.02) | **12.09** | (Enillion)/colledion actiwaraidd oherwydd rhwymedigaethau | (10.13) | (0.24) | (0.27) | **(10.64)** |
| **7.47** | **(0.14)** | **(0.03)** | **7.30** | **Cyfanswm taliadau'r Buddion Ôl-gyflogaeth i'r Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant** | **2.17** | **0.24** | **(0.12)** | **2.29** |
| | | | | **Datganiad ar y Symudiadau yn y Cronfeydd:-** | | | | |
| (35.60) | (0.17) | (0.08) | **(35.85)** | Gwrthdroad y taliadau net a wnaed am fuddion ymddeol yn unol ag IAS 19 | (35.42) | (0.15) | (0.07) | **(35.64)** |
| | | | | **Swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor am bensiynau yn y flwyddyn:-** | | | | |
| 16.63 | 0.48 | 0.36 | **17.47** | Cyfraniadau'r Cyflogwr yn daladwy i'r cynllun | 16.03 | 0.47 | 0.33 | **16.83** |
| (25.48) | (0.48) | (0.36) | **(26.32)** | Buddion Ymddeol a dalwyd allan | (23.99) | (0.47) | (0.33) | **(24.79)** |

**Asedau Pensiynau a Rhwymedigaethau a Gydnabyddir yn y Fantolen**

Mae'r symiau a gynhwysir yn y Fantolen sy'n codi o rwymedigaeth y Cyngor mewn perthynas â'I gynllun buddion diffiniedig fel a ganlyn:-

| Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £m 2019-20 | Buddion LGPS heb eu Cyllido £m 2019-20 | Buddion Athrawon heb eu Cyllido £m 2019-20 | Cyfanswm £m 2019-20 | | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £m 2020-21 | Buddion LGPS heb eu Cyllido £m 2020-21 | Buddion Athrawon heb eu Cyllido £m 2020-21 | Cyfanswm £m 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 870.04 | 6.78 | 3.16 | **879.98** | Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig | 1,071.36 | 6.70 | 2.81 | **1,080.87** |
| (590.79) | 0.00 | 0.00 | **(590.79)** | Gwerth teg Asedau'r Cynllun | (770.55) | 0.00 | 0.00 | **(770.55)** |
| **279.25** | **6.78** | **3.16** | **289.19** | **Rhwymedigaeth net sy'n codi o'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig** | **300.81** | **6.70** | **2.81** | **310.32** |

**Cysoni'r Symudiadau yng Ngwerth Teg Asedau'r Cynllun**

| £m 2019-20 | | £m 2020-21 |
|---|---|---|
| 603.29 | **Gwerth teg agoriadol asedau'r cynllun** | 590.79 |
| 14.43 | Incwm o logau ar yr asedau | 13.56 |
| (22.71) | Yr enillion ar asedau'r cynllun, heb gynnwys y swm a gynhwyswyd yng nghost net y llogau | 169.25 |
| 16.63 | Cyfraniadau gan y Cyflogwr | 16.03 |
| 4.63 | Cyfraniadau gan yr Aelodau | 4.91 |
| (25.48) | Buddion Net a dalwyd allan | (23.99) |
| **590.79** | **Balans ar 31 Mawrth** | **770.55** |

**Cysoni Gwerth Presennol Rhwymedigaethau'r Cynllun (Rhwymedigaeth Buddion Diffiniedig)**

| Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £m 2019-20 | Buddion LGPS heb eu Cyllido £m 2019-20 | Buddion Athrawon heb eu Cyllido £m 2019-20 | Cyfanswm £m 2019-20 | | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £m 2020-21 | Buddion LGPS heb eu Cyllido £m 2020-21 | Buddion Athrawon heb eu Cyllido £m 2020-21 | Cyfanswm £m 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 856.10 | 7.23 | 3.47 | 866.80 | **Balans agoriadol ar 1 Ebrill** | 870.04 | 6.78 | 3.16 | 879.98 |
| 29.26 | 0.00 | 0.00 | 29.26 | Cost Bresennol y Gwasanaeth | 29.08 | 0.00 | 0.00 | 29.08 |
| 20.30 | 0.17 | 0.08 | 20.55 | Cost Llogau | 19.80 | 0.15 | 0.07 | 20.02 |
| 4.63 | 0.00 | 0.00 | 4.63 | Cyfraniadau gan aelodau'r cynllun | 4.91 | 0.00 | 0.00 | 4.91 |
| | | | | (Enillion) a cholledion ailfesuriadau: | | | | |
| (16.85) | (0.06) | (0.01) | (16.92) | Enillion/colledion actiwaraidd yn codi o newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol | 181.55 | 0.48 | 0.15 | 182.18 |
| (10.53) | (0.05) | 0.00 | (10.58) | Enillion/colledion actiwaraidd yn codi o newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 12.14 | (0.03) | (0.02) | 12.09 | (Enillion)/colledion actiwaraidd oherwydd rhwymedigaethau | (10.13) | (0.24) | (0.27) | (10.64) |
| 0.47 | 0.00 | 0.00 | 0.47 | Cost y Gwasanaeth yn y Gorffennol | 0.10 | 0.00 | 0.03 | 0.13 |
| (25.48) | (0.48) | (0.36) | (26.32) | Buddion a dalwyd | (23.99) | (0.47) | (0.33) | (24.79) |
| 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | Rhwymedigaethau a ddilëwyd ar setliadau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| **870.04** | **6.78** | **3.16** | **879.98** | **Balans ar 31 Mawrth** | **1,071.36** | **6.7** | **2.81** | **1,080.87** |

**Asedau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:**

| Gwerth Teg Asedau y Cynllun 2019-20 £m | Rhaniad Ased 2019-20 % | | Gwerth Teg Asedau y Cynllun 2020-21 £m | Rhaniad Ased 2020-21 % |
|---|---|---|---|---|
| 376.93 | 63.80 | Ecwitïau | 544.78 | 70.70 |
| 50.74 | 8.59 | Eiddo | 49.32 | 6.40 |
| 75.18 | 12.73 | Bondiau'r Llywodraeth | 70.12 | 9.10 |
| 82.90 | 14.03 | Bondiau corfforaethol | 100.17 | 13.00 |
| 5.04 | 0.85 | Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 6.16 | 0.80 |
| 590.79 | 100.00 | Cyfanswm yr asedau | 770.55 | 100.00 |

**Y Sail ar gyfer Amcangyfrif Asedau a Rhwymedigaethau**

Mae'r Rhwymedigaethau wedi'u hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio dull amcanestyniad credydau unedol, sy'n amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y dyfodol, gan ddibynnu ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, lefelau cyflogau etc. Mae rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a rhwymedigaethau buddion dewisol wedi'u cyfrifo gan Aon Hewitt, cwmni annibynnol o actiwarïaid, yn unol ag IAS 19.

Dyma'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd gan yr Actiwari:

| 2019-20 % pa | | 2020-21 % pa |
|---|---|---|
| 2.30 | Cyfradd ddisgowntio | 2.10 |
| 2.00 | Cyfradd codiadau pensiwn | 2.70 |
| 3.25 | Cyfradd codiadau cyfloga | 3.95 |
| **Years** | | **Years** |
| | *Rhagdybiaethau marwolaeth:* | |
| | Hirhoedledd yn 65 i'r pensiynwyr presennol:- | |
| 21.70 | Dynion | 21.80 |
| 24.00 | Menywod | 24.10 |
| | Hirhoedledd yn 65 i bensiynwyr y dyfodol:- | |
| 22.70 | Dynion | 22.80 |
| 25.50 | Menywod | 25.60 |

Mae'r amcangyfrif o rwymedigaethau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd a nodir yn y tabl uchod. Mae'r dadansoddiad o'r sensitifrwydd isod wedi'i bennu ar sail y siawns resymol bosibl y bydd y rhagdybiaethau'n digwydd ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gan ragdybio yn achos pob rhagdybiaeth bod y rhagdybiaeth a ddadansoddwyd yn newid tra bydd yr holl ragdybiaethau eraill yn aros yn gyson. Mae'r rhagdybiaethau hirhoedledd, er enghraifft, yn rhagdybio y bydd disgwyliad oes dynion a menywod yn cynyddu neu'n gostwng. Yn ymarferol, nid yw hyn yn debygol o ddigwydd, a gall newidiadau mewn rhai o'r rhagdybiaethau fod yn gysylltiedig â hyn. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiad sensitifrwydd wedi dilyn polisïau cyfrifyddu'r cynllun, hynny yw ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio dull amcangyfrif credydau unedol. Nid yw'r dulliau na'r mathau o ragdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd isod yn wahanol i'r rhai a ddefnyddiwyd yn y cyfnod blaenorol.

| Cynnydd yn y rhagdybiaeth 2019-20 | Gostyngiad yn y rhagdybiaeth 2019-20 | | Cynnydd yn y rhagdybiaeth 2020-21 | Gostyngiad yn y rhagdybiaeth 2020-21 |
|---|---|---|---|---|
| £m | £m | | £m | £m |
| (17.30) | 17.66 | Cyfradd ddisgowntio rhwymedigaethau'r cynllun (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%) | (21.43) | 21.43 |
| 1.80 | (1.78) | Cyfradd cynnydd cyflogau (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%) | 2.14 | (2.14) |
| 16.68 | (16.31) | Cyfradd cynyddu pensiynau (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%) | 19.28 | (19.28) |
| 27.86 | (27.54) | Hirhoedledd (cynnydd neu ostyngiad o 1 flwyddyn) | 38.57 | (37.50) |

**Yr effaith ar Lif Arian Parod y Cyngor**

Mae natur ariannu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyflogwr a'I gyflogeion dalu cyfraniadau i mewn i'r gronfa, a gyfrifir ar lefel sydd wedi'i bwriadu i daro cydbwysedd rhwng y rhwymedigaethau pensiwn ac asedau buddsoddi. Bydd y gyfradd cyfraniad Cyflogwyr gyfredol i gyflawni lefel ariannu o 100% o rwymedigaethau'r cynllun yn cael ei hadolygu ar yr adeg hon. O ganlyniad, er bod diffyg (rhwymedigaeth) sylweddol rhwng y buddion a enillir gan gyflogeion blaenorol a chyfredol a'r adnoddau y mae'r Cyngor wedi'u neilltuo i gwrdd â hwy, bydd y trefniadau'n sicrhau y bydd cyllid wedi cael ei neilltuo erbyn yr amser y telir y buddion.

Dyma gyfraniadau disgwyliedig y cyflogwr i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021:-

| | 2021-22 £m |
|---|---|
| Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | 47.33 |
| Buddion LGPS heb eu Cyllido | 0.14 |
| Buddion Athrawon heb eu Cyllido | 0.06 |
| **Cyfanswm** | **47.53** |

Yr hyd cyfartalog wedi'i bwysoli ar gyfer rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig aelodau'r cynllun yw 20.1 mlynedd, sydd yr un fath â 2019-20.

**Athrawon**

Yn 2020-21, talodd y Cyngor £12.807 miliwn (£10.845 miliwn ar gyfer 2019-20) i'r Asiantaeth Pensiynau Athrawon ar gyfer costau pensiwn athrawon. Yn ogystal â hynny, mae'r Cyngor yn gyfrifol am yr holl daliadau pensiwn a ddyfarnwyd yn gysylltiedig â blynyddoedd ychwanegol, ynghyd â'r cynnydd cysylltiedig. Yn 2020-21, cyfanswm hyn oedd £0.378 miliwn (£0.402 miliwn ar gyfer 2019-20).

**31. Datgeliadau mewn perthynas ag Offerynnau Ariannol**

**Categorïau Offerynnau Ariannol**

Caiff y categorïau a ganlyn o offerynnau ariannol eu cario ar y Fantolen:

**Asedau Ariannol**

| 31 Mawrth 2020 | | | | | 31 Mawrth 2021 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfredol | | Ddim yn gyfredol | | | Cyfredol | | Ddim yn gyfredol | |
| Buddsoddiadau £'000 | Dyledwyr £'000 | Buddsoddiadau £'000 | Cyfanswm £'000 | | Buddsoddiadau £'000 | Dyledwyr £'000 | Buddsoddiadau £'000 | Cyfanswm £'000 |
| 28,743 | 8,118 | | 36,860 | Cost Amorteiddiedig | 46,893 | 12,873 | - | 59,766 |
| **28,743** | **8,118** | **-** | **36,860** | **Cyfanswm yr asedau ariannol** | **46,893** | **12,873** | **-** | **59,766** |
| - | - | 4,635 | 4,635 | Asedau anariannol | | | 5,090 | 5,090 |
| **28,743** | **8,118** | **4,635** | **41,495** | **Cyfanswm** | **46,893** | **12,873** | **5,090** | **64,856** |

Mae'r ffigur uchod ar gyfer buddsoddiadau cyfredol yn cynnwys incwm cronedig sy'n dderbyniadwy am fuddsoddiadau hirdymor, yn ogystal â llog byrdymor.

Mae'r ffigur dyledwyr £12.873m (2019-20: £8.118 miliwn) uchod yn gysylltiedig â dyledwyr drwy fasnach am nwyddau a gwasanaethau a gyflenwyd, ac wedi'i gynnwys yn y cyfanswm ar gyfer dyledwyr o £51.810 miliwn (2019-20: £36.342 miliwn) a geir ar y fantolen. Ceir mwy o wybodaeth am ddyledwyr yn nodyn 23.

**Rhwymedigaethau Ariannol**

| 31 Mawrth 2020 | | | | | 31 Mawrth 2021 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfredol | | Ddim yn gyfredol | | | Cyfredol | | Ddim yn gyfredol | |
| Benthyciadau | Credydwyr | Benthyciadau a Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill | Cyfanswm | | Benthyciadau | Credydwyr | Benthyciadau a Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill | Cyfanswm |
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| (915) | (6,337) | (113,848) | (121,100) | Cost Amorteiddiedig | (926) | (2,797) | (114,196) | (117,919) |
| **(915)** | **(6,337)** | **(113,848)** | **(121,100)** | **Cyfanswm** | **(926)** | **(2,797)** | **(114,196)** | **(117,919)** |

Mae'r ffigur benthyciadau cyfredol uchod yn cynnwys £0.275 miliwn o log cronedig sy'n daladwy am y flwyddyn.

Mae a wnelo'r ffigur credydwyr cyfredol o £2.797 miliwn (2019-20: £6.337 miliwn) a chredydwyr drwy fasnach am nwyddau a wasanaethau a dderbyniwyd o £2.346 miliwn (2019-20: £5.883 miliwn) a £0.451 miliwn (2019-20: £ 0.454 miliwn) o arian a ddelir gan y Cyngor ar ran trydydd partïon ac wedi'I gynnwys yn y cyfanswm ar gyfer credydwyr o £34.660 miliwn (2019-20: £34.533 miliwn) ar y fantolen. Ceir mwy o wybodaeth yn gysylltiedig â chredydwyr yn nodyn 25.

**Gwrthbwyso asedau a rhwymedigaethau ariannol**

Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol eu gwrthbwyso y naill yn erbyn y llall lle bo gan y Cyngor hawl y gellir ei gorfodi yn gyfreithiol i wneud hynny, a'i fod yn bwriadu naill ai setlo ar sail net, neu wireddu'r ased a setlo'r rhwymedigaeth ar yr un pryd. Mae'r tabl isod yn dangos yr offerynnau hynny sydd wedi cael eu gwrthbwyso ar y fantole.

| 31 Mawrth 2020 Asedua (Rhwymedigaethau) Gros £'000 Ailddatgan | Cydbwyso Asedau a Rhwymedigaethau Ariannol | 31 Mawrth 2021 Asedua (Rhwymedigaethau) Gros £'000 |
|---|---|---|
| 1,936 | Cyfrifon Banc mewn Credyd | 3,523 |
| **1,936** | **Cyfanswm yr Asedau Ariaonnol** | **3,523** |
| (3,412) | Gorddrafftiau Banc | (8,406) |
| **(3,412)** | **Cyfanswm y Rhwymedigaethau Ariannol** | **(8,406)** |
| **(1,476)** | **Sefyllfa Net ar y Fantolen** | **(4,883)** |

**Incwm, treuliau, enillion a cholledion**

Mae'r incwm, y treuliau, yr enillion a'r colledion a gydnabyddir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer offerynnau ariannol wedi'u dangos isod:

| 31 Mawrth 2020 | | | | 31 Mawrth 2021 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhwymedigaethau Ariannol Cost Amorteiddiedig £'000 | Asedau Ariannol Cost Amorteiddiedig £'000 | Cyfanswm £'000 | | Rhwymedigaethau Ariannol Cost Amorteiddiedig £'000 | Asedau Ariannol Cost Amorteiddiedig £'000 | Cyfanswm £'000 |
| 5,855 | - | 5,855 | Treuliau Llog | 5,793 | - | 5,793 |
| - | (1,099) | (1,099) | Incwm Buddsoddi a Llog Eraill Derbyniadwy | | (895) | (895) |
| **5,855** | **(1,099)** | **4,756** | **Net (ennill) / colled am y flwyddyn** | **5,793** | **(895)** | **4,898** |

**Gwerthoedd Teg Asedau a Rhwymedigaethau Ariannol nad ydynt wedi'u mesur ar sail Gwerth Teg**

Nid oes gan y Cyngor unrhyw asedau na rhwymedigaethau ariannol a gaiff eu cario ar sail gwerth teg. Yn ogystal, ni chadwyd unrhyw asedau ar gost wedi'i hamorteiddio ar gyfer 2020-21.

| 31 Mawrth 2020 | | Rhwymedigaethau Ariannol | 31 Mawrth 2021 | |
|---|---|---|---|---|
| Swm cario £'000 | Gwerth Teg £'000 | | Swm cario £'000 | Gwerth Teg £'000 |
| | | ***Rhwymedigaethau ariannol a ddelir am gost amorteiddiedig:*** | | |
| (77,617) | (111,997) | PWLB | (77,617) | (112,159) |
| (19,784) | (31,299) | LOBOs | (19,777) | (32,930) |
| (16,447) | (22,813) | PFI a rhwymedigaethau tymor hir eraill | (16,802) | (23,886) |
| **(113,848)** | **(166,109)** | **Total** | **(114,196)** | **(168,975)** |

Mae gwerth teg **Rhwymedigaethau Ariannol** yn uwch na'r swm cario gan fod portffolio'r Cyngor o fenthyciadau yn cynnwys nifer o fenthyciadau lle bo'r gyfradd llog daladwy yn uwch na'r prif gyfraddau ar ddyddiad y Fantolen.

Cyfrifir gwerth teg rhwymedigaethau drwy ddefnyddio mewnbynnau arsylladwy eraill o bwys (Lefel 2), fel a ganlyn:

- PWLB - Y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus - cyfraddau'r farchnad ar gyfer benthyciadau awdurdodau lleol a chanddynt yr un cyfnod aeddfedu yn weddill ar ddyddiad y Fantolen
- LOBO - Dewis Rhoddwr Benthyciadau, Dewis y Benthyciwr - wedi'i gynyddu yn ôl gwerth yr opsiynau sydd wedi'u hymgorffori. Mae dewisiadau'r rhoddwr benthyciadau i gynnig codi'r gyfradd llog ar y benthyciad wedi'u prisio'n unol â model priodol ar gyfer cyfnewidiadau dileadwy Bermuda. Mae pris dewisiadau digwyddiadol y benthyciwr o ran derbyn y gyfradd uwch ynteu ad-dalu'r benthyciad wedi'i osod ar sero, ar y rhagdybiaeth mai dim ond pan fydd cyfraddau'r farchnad wedi codi uwchlaw'r gyfradd llog yn y contract y bydd rhoddwr y benthyciad yn arfer ei ddewisiadau.
- Rhwymedigaethau ariannol eraill - llifoedd arian parod cytundebol gostyngol am yr elw bond corfforaethol gradd AA priodol.

**Natur a maint y risgiau sy'n deillio o Offerynnau Ariannol**

Oherwydd ei weithgareddau, mae'r Cyngor yn dod i gysylltiad ag amrywiaeth o risgiau ariannol, gan gynnwys:

- **Risg credyd –** y posibilrwydd y gallai partïon eraill fethu â thalu symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor;
- **Risg hylifedd –** y posibilrwydd na fydd gan y Cyngor arian ar gael i fodloni ei rwymedigaethau talu;
- **Risg y farchnad –** y posibilrwydd y gallai'r Cyngor wynebu colled ariannol nas cynlluniwyd ar ei chyfer yn sgil newidiadau i fesuriadau fel symudiadau cyfraddau llog.

Mae strategaeth rheoli risg gyffredinol y Cyngor wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor a'i nodi yn ei Strategaeth Rheoli Trysorlys flynyddol. Mae'r Strategaeth yn nodi'r paramedrau ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag offerynnau ariannol. Mae hyn yn cynnwys meysydd penodol fel risg cyfradd llog, risg credyd a buddsoddi arian sydd dros ben.

**Risg Credyd**

Mae risg credyd yn codi o adneuon gyda banciau a sefydliadau ariannol, yn ogystal â chysylltiadau credyd â chwsmeriaid y Cyngor. Caiff y risg ei lleihau i'r eithaf trwy'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol sydd wedi'i chynnwys yn Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor, sydd ar gael ar wefan y Cyngor trwy Eitem 10 ar agenda'r Cyngor – Strategaethau Rheoli Trysorlys a Chyfalaf 2020-21 yma.

Mae arferion rheoli risg credyd y Cyngor wedi'u nodi yn y Strategaeth Fuddsoddi. Wrth benderfynu a yw'r risg credyd yn gysylltiedig ag offerynnau ariannol wedi cynyddu ers iddynt gael eu cydnabod yn wreiddiol, mae'r Cyngor wedi adolygu teilyngdod credyd ei fuddsoddiadau ac wedi casglu na chafwyd unrhyw gynnydd o bwys i'w risg credyd.
Prif amcan y Cyngor yw rhoi'r flaenoriaeth i sicrwydd a hylifedd cyn ystyried arenillion. Caiff terfynau gwrthbartïon eu hadolygu'n gyson a lle bo amodau'r farchnad yn mynnu, gostyngwyd y terfynau hynny. Ni chafwyd unrhyw newidiadau yn ystod y flwyddyn a oedd yn golygu bod angen i'r Cyngor ystyried cynnydd mewn risg credyd yn gysylltiedig ag unrhyw fuddsoddiadau.

**Amlygiad risg credyd**

Ar 31 Mawrth 2021, roedd gan y Cyngor yr amlygiad a ganlyn i risg credyd. Roedd £48.546 miliwn o'r £51.596 miliwn o fuddsoddiadau a oedd yn weddill ar 31 Mawrth 2021 wedi'u buddsoddi gydag Awdurdodau Lleol eraill, lle nad oes angen neilltuo ar gyfer colledion disgwyliedig. Ar gyfer yr asedau ariannol hynny lle gellir cyfrifo colledion credyd disgwyliedig dros gyfnod o 12 mis, y golled credyd a gyfrifwyd yw £967. Cyfrifwyd y swm hwn drwy gyfeirio at ddata diofyn o'r gorffennol a gyhoeddwyd gan asiantaethau statws credyd, yn unol â chyngor ein Cynghorwyr Rheoli Trysorlys. Gan mai swm bychan yw'r golled credyd ddisgwyliedig, ni chafodd unrhyw addasiadau eu cynnwys ar gyfer hynny yn y cyfrifon.

| | Sgôr risg credyd (fel y'i defnyddir gan y Cyngor) | Swm cario gros £'000 |
|---|---|---|
| Colledion credyd disgwyliedig 12 mis | AA-<br>A | (1,000)<br>(2,050) |
| Ymagwedd symlach | Awdurdodau Lleol - Unrated | (48,546) |
| **TOTAL** | | **(51,596)** |

Nid yw'r Cyngor yn caniatáu credyd i'w gwsmeriaid (dyledwyr drwy fasnach) fel rheol, felly mae'r holl ddyledwyr drwy fasnach wedi'u cydnabod yn ddyledwyr byrdymor, ond mae balans o £4.949 miliwn o ddyledion wedi mynd heibio'r dyddiad talu. Nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y tabl risg credyd uchod.

**Risg Hylifedd**

Mae'r Cyngor yn rheoli ei risg hylifedd trwy ei reolaeth ar lifoedd arian i sicrhau bod arian parod ar gael pan fo angen. Mae ganddo fynediad rhwydd at gyfrifon adneuo mynediad di-oed, cyfleusterau gorddrafft a benthyciadau gan y Marchnadoedd Arian neu awdurdodau lleol eraill i ddiwallu unrhyw anghenion llif arian o ddydd i ddydd. Hefyd, gall y Cyngor gael mynediad at fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB). Mae'r Cyngor yn trefnu benthyciadau a buddsoddiadau am gyfnod penodedig gydag ystod o ddyddiadau aeddfedu o fewn y fframwaith a'r dangosyddion a gymeradwyir bob blwyddyn. Nid oes risg ganfyddedig na fydd y Cyngor yn gallu codi cyllid i gyflawni ei ymrwymiadau, yn lle hynny mae'r risg yn ymwneud ag ailgyflenwi cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg pan fo cyfraddau llog yn anffafriol. Mae'r Cyngor yn pennu terfynau ar strwythur aeddfedu benthyciadau cyfradd benodedig fel nad oes mwy na 50% o fenthyciadau'n mynd i fod yn aeddfedu mewn unrhyw flwyddyn unigol trwy gynllunio benthyciadau newydd a gymerir yn ofalus a (lle mae'n fuddiol gwneud hynny) gan wneud ad-daliadau cynnar. Mae'r dadansoddiad aeddfedu o rwymedigaethau ariannol fel a ganlyn:

| 31 Mawrth 2020 £'000 | Dadansoddiad Aeddfedrwydd Rhwymedigaethau Ariannol | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|
| (8,181) | Llai na blwyddyn | (4,809) |
| (995) | Rhwng blwyddyn a dwy flynedd | (1,233) |
| (3,248) | Rhwng dwy flynedd a phump | (13,086) |
| (26,582) | Rhwng pum mlynedd a deg | (23,425) |
| (21,800) | Mwy na deng mlynedd | (15,236) |
| (41,389) | Mwy nag 20 mlynedd | (41,389) |
| (19,784) | Dyddiad ansicr* | (19,778) |
| **(121,979)** | **Cyfanswm y Rhwymedigaethau Ariannol** | **(118,956)** |

*Mae hyn yn cyfeirio at fenthyciadau Dewis Rhoddwr Benthyciadau, Dewis y Benthyciwr y gellir eu hailamserlennu cyn eu dyddiad aeddfedrwydd yn 2054, Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn rhagweld y bydd hynny'n digwydd oherwydd y cyfraddau llog isel a geir ar hyn o bryd.

Disgwylir i'r holl symiau taladwy masnach a'r symiau taladwy eraill gael eu talu mewn llai na blwyddyn.

**Risg y Farchnad**

Mae gan y Cyngor amlygiad i'r risg o golled ariannol bosibl yn sgil newidiadau i fesuriadau fel symudiadau cyfradd llog, prisiau'r farchnad neu gyfraddau cyfnewid arian tramor.

**Risg Cyfradd Llog**

Mae gan y Cyngor amlygiad i risg symudiadau cyfradd llog yn gysylltiedig â'i fenthyciadau a'I fuddsoddiadau. Mae effaith symudiadau mewn cyfradd llog ar y Cyngor yn gymhleth. Er enghraifft, gallai cynnydd mewn cyfraddau llog greu'r effeithiau canlynol:

- benthyciadau ar gyfraddau amrywiol - bydd y gyfradd llog a godir ar y Warged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn codi
- benthyciadau ar gyfraddau sefydlog - mae'r gyfradd sefydlog yn amddiffyn y Cyngor rhag taliadau llog uwch gan y byddai benthyciad cyfatebol bellach yn costio mwy. Bydd gwerth teg y benthyciad (y rhwymedigaeth) yn gostwng
- buddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol - bydd yr incwm llog a gaiff ei gredydu i'r Warged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn codi
- buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog - mae'r gyfradd sefydlog yn atal y Cyngor rhag derbyn incwm buddsoddi uwch o'r un prifswm a fuddsoddwyd. Bydd gwerth teg yr ased yn gostwng

Ni chaiff benthyciadau eu cario ar sail eu gwerth teg, felly ni fyddai enillion na cholledion enwol ar fenthyciadau cyfradd sefydlog yn effeithio ar y Warged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau nac ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall. Fodd bynnag, bydd newidiadau i'r llog sy'n daladwy ac sy'n dderbyniadwy ar fenthyciadau a buddsoddiadau cyfradd amrywiol yn cael eu cyfeirio i'r Warged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau ac yn effeithio ar Falans Cronfa'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn monitro cyfraddau llog y farchnad a rhagolygon cyfraddau llog o fewn y flwyddyn er mwyn addasu ei amlygiad yn briodol, fel bo modd darparu ar gyfer unrhyw newidiadau andwyol. Er enghraifft, yn ystod cyfnodau pan fo cyfraddau llog yn gostwng, a lle bo amgylchiadau economaidd yn peri bod hynny'n ffafriol, mae'n bosibl y bydd benthyciadau cyfradd sefydlog yn cael eu had-dalu'n fuan i gyfyngu ar amlygiad i golledion. Yn ôl y strategaeth hon, ar 31 Mawrth 2020, pe bai cyfraddau llog wedi newid 1% a'r holl ffactorau eraill amrywiol wedi aros yn gyson, dyma fyddai'r effaith ariannol yn fras:

| | **Amcangyfrif £'000 + 1%** | **Amcangyfrif £'000 -1%** |
|---|---|---|
| Llog yn daladwy ar fenthyciadau cyfradd amrywiol | 133 | **-** |
| Llog yn dderbyniadwy ar fuddsoddiadau cyfradd amrywiol | (349) | 349 |
| **Yr Effaith ar y Gwarged neu'r Diffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **(216)** | **349** |

Nid yw'r ffigurau ar gyfer effaith fras gostyngiad o 1% mewn cyfraddau llog ar gyfer benthyca yr un peth â'r ffigurau ar gyfer y cynnydd o 1% (ond wedi'u gwrthdroi) gan mai benthyciadau LOBO yw ein benthyciadau cyfradd sefydlog, lle tybir na fyddai'r rhoddwr benthyciadau yn arfer ei ddewis pe bai cyfraddau llog yn gostwng.

***Risg pris***

Gan nad yw'r Cyngor wedi buddsoddi mewn offerynnau sy'n agored i risg pris, fel tystysgrifau adneuon a Bondiau'r Llywodraeth gan y banc, nid yw'n agored i risg pris.

***Risg Cyfnewid Arian Tramor***

Nid oes gan y Cyngor unrhyw asedau na rhwymedigaethau wedi'u pennu mewn arian tramor, felly nid oes ganddo unrhyw amlygiad i golledion sy'n deillio o symudiadau mewn cyfraddau llog.

**Trosglwyddo i IFRS9 Offerynnau Ariannol**

Mabwysiadodd y Cyngor safon cyfrifyddu IFRS9 Offerynnau Ariannol, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2018. Mae'r prif newidiadau yn cynnwys ailddosbarthu ac ail-fesur asedau ariannol, a chydnabod amhariadau ar asedau ariannol yn gynharach.

Oherwydd natur offerynnau ariannol y Cyngor, ni chafwyd unrhyw newidiadau i fantolen y Cyngor wrth drosglwyddo.

**32. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd**

Lle mae digwyddiad neu wybodaeth yn codi ar ôl y cyfnod adrodd (h.y. ar ôl 31 Mawrth 2021) sy'n ymwneud ag amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2021, byddai rhai ffigyrau penodol yn y datganiadau ariannol yn

cael eu haddasu pe bai angen, ym mhob ffordd berthnasol, er mwyn adlewyrchu effaith y digwyddiad neu'r wybodaeth. Ni fu unrhyw ddigwyddiadau o'r fath y mae angen adrodd amdanynt ar ôl 31 Mawrth 2021.

**33. Rhwymedigaethau Digwyddiadol**

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn codi lle mae digwyddiad wedi bod sy'n rhoi rhwymedigaeth bosibl i'r Cyngor na fydd ei bodolaeth ond yn cael ei chadarnhau os bydd digwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Cyngor yn dod yn ffaith neu fel arall. Ar 31 Mawrth 2021 roedd y Cyngor wedi cael ei wneud yn ymwybodol o faterion ynglŷn â safon gwaith a waned gan gontractwr sydd bellach yn ansolfent. Ni wnaed unrhyw ddarpariaeth yn y cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian Parod

## 34. Addasiadau ar gyfer Symudiadau heblaw Arian Parod

| 2019-20 £'000 | | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| (20,015) | Dibrisiant ac Amhariadau ar Asedau | (18,590) |
| 1,852 | Symudiad yn y Stoc, Dyledwyr a Chredydwyr | 14,834 |
| (18,380) | Addasiadau'r Gronfa Bensiwn | (18,810) |
| 1,251 | Darpartiaethau | 1,071 |
| (1,141) | Gwaredu asedau anghyfredol | (3,487) |
| - | Newidiadau yng Ngwerth teg Eiddo Buddsoddi | 455 |
| **(36,433)** | **Addasiadau i'r diffyg net ar y ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer symudiadau heblaw arian parod** | **(24,527)** |

## 35. Gweithgareddau gweithredu

Mae'r llifoedd arian parod ar gyfer gweithgareddau gweithredu yn cynnwys yr eitemau a ganlyn:

| 2019-20 £'000 | | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| (16,662) | Llif Arian Parod ar Weithgareddau Refeniw | (23,222) |
| 6,228 | Llogau a dalwyd | 4,554 |
| 1,305 | Elfen log prydles ariannol a thaliadau rhent PFI | 1,244 |
| (1,069) | Llogau a dderbyniwyd | (926) |
| **(10,198)** | **Llifoedd Arian Parod Net o Weithgareddau Gweithredu** | **(18,350)** |

## 36. Gweithgareddau buddsoddi

Mae'r llifoedd arian parod ar gyfer gweithgareddau buddsoddi yn cynnwys yr eitemau a ganlyn:

| 2019-20 £'000 | | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| 18,975 | Prynu Eiddo, Peiriannau ac Eiddo ac Eiddo Buddsoddi | 19,892 |
| 1,031 | Prynu / (Enillion) o Fuddsoddiadau Hirdymor a Byrdymor | 23,450 |
| (925) | Enillion o werthu Eiddo, Peiriannau ac Offer ac Eiddo Buddsoddi | (3,213) |
| **19,081** | **Llifoedd Arian Parod Net o weithgareddau Buddsoddi** | **40,129** |

## 37. Gweithgareddau cyllido

Mae'r llifoedd arian parod ar gyfer gweithgareddau cyllido yn cynnwys yr eitemau a ganlyn:

| 2019-20 £'000 | | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| 1,647 | Derbyniadau arian parod o fenthyciadau byrdymor a hirdymor | (4) |
| (13,125) | Derbyniadau Eraill o weithgareddau cyllido | (16,476) |
| **(11,478)** | **Llifoedd Arian Parod Net o weithgareddau Cyllido** | **(16,480)** |

# Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

## Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar y gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau arionnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr yn cynnwys y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant, y Fantolen, y Datganiad o Lif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu sylweddol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw cyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Peny-y-bont ar Ogwr ar 31 Mawrth 2021 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- Maent wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21

### Sail ar gyfer barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol o Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio yn adran datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol o'r Cyngor [a'i grŵp] yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

### Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Cyngor i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.
Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â phryder gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

### Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ar wahân i'r datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwiliwr arno. Y Swyddog Ariannol Cyfrifol sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn i ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn glir yn fy adroddiad fel arall, nid wyf yn mynegi unrhyw gasgliad o sicrwydd ar hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson iawn â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu'n ymddangos fel ei bod wedi'i cham-ddatgan yn sylweddol fel arall. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol posibl, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y

gwaith yr wyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod y wybodaeth arall hon yn cael ei cham-ddatgan yn sylweddol, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.
Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

## Adrodd ar ofynion eraill

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn,i sail y gwaith a wnaed yn ystid fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn berthnasol iddi yn gyson â'r datganiadau ariannol, ac mae'r Adroddiad Naratif wedi'i baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21;
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn berthnasol iddi yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu wedi'i baratoi yn unol â'r canllawiau hyn.

**Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad**

O ystyried yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Gyngor Bwrdeistrefol Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad ar Berfformiad na'r Datganiad Llywodraethiant.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol yr adroddaf i chi, os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw neu os nad oes ffurflenni treth digonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u cyflwyno gan ganghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â hwy;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni treth;
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Cyfrifoldebau

**Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol o ran y datganiadau ariannol**

Fel y caiff ei esbonio yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon a nodir ar dudalen 14, cyfrifoldeb y swyddog ariannol cyfrifol yw paratoi'r datganiad o gyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg, a chyfrifoldeb y swyddog cyfrifol hefyd yw'r rheolaeth fewnol y mae'n penderfynu y mae ei angen i allu paratoi datganiadau o gyfrifon heb unrhyw gamddatganiad sylweddol, boed drwy dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiad o gyfrifon, cyfrifoldeb y swyddog ariannol cyfrifol yw asesu gallu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a chyfrifyddu ar sail busnes gweithredol oni phennir bod hynny'n amhriodol.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o unrhyw gamddatganiadau materol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, ac i gyhoeddi adroddiad archwiliwr sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau fod o ganlyniad i dwyll neu wall, a chânt eu hystyried yn faterol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys caffael ac adolygu dogfennau ategol, ynglŷn â pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor sy'n ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso, a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i beryglon twyll, ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, twyll tybiedig, neu dwyll honedig; a
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- mewn tîm archwilio, ystyried sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio cyfnodolion anarferol, a thueddiadau wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu.
- cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod y Cyngor yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Yn ogystal â'r uchod, fy ngweithdrefnau sy'n ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio, a chynghorwyr cyfreithiol am ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a rhai posibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Cyngor; a
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy ddiystyru rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wneir wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i'r cwrs busnes arferol.

Rwyf hefyd yn cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i'r holl dîm archwilio ac yn parhau i gadw llygaid barcud am unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid wrth ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, effeithiolrwydd rheolaethau'r Cyngor, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol wedi'i leoli ar wefan y Cyngor www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o adroddiad fy archwilydd.

## Tystysgrif Cwblhad Archwiliad

Rwy'n ardystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ**

**23 Gorffennaf 2021**

*Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu / Swyddog Cleient yw cynnal a chadw a chywirdeb gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac yn unol â hynny nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan i ddechrau.*

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol



# Cynnwys

1 Rhagair
2 Fframwaith Llywodraethiant
3 Asesu Perfformiad
4 Sicrwydd Archwilio
5 Gwella Llywodraethiant
6 Datganiad Sicrwydd

# 1 Rhagair

## “Un Cyngor, yn gweithio gyda’n gilydd i wella bywydau”

**Dyma weledigaeth y Cyngor a nodir yn y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2018-2023 a adolygwyd ar gyfer 2021-22, sydd hefyd yn nodi beth yw ein Hamcanion Llesiant fel ein bod, ymhlith yr holl gymhlethdod o ran mwy o alw a llai o adnoddau’n gallu cadw ffocws clir ar yr hyn sydd wir yn bwysig i’n cymunedau.**

Mae arnom eisiau cyfrannu at le y mae pobl wrth eu bodd yn byw, yn gweithio, yn astudio ac yn cynnal busnes ynddo, lle mae gan bobl y sgiliau a’r cymwysterau y mae eu hangen arnynt i wella’u cyfleoedd bywyd, mwynhau iechyd da ac ymdeimlad o les ac annibyniaeth.

Mae angen sicrhau bod gan ein cymunedau a’r rhai sy’n defnyddio ein gwasanaethau ac yn talu amdanynt, y rhai sy’n darparu ein gwasanaethau a’n partneriaid a chyflenwyr hyder yn ein trefniadau llywodraethu. Rhaid iddynt fod wedi’u sicrhau bod ein gwasanaethau’n cael eu darparu’n effeithiol ac yn effeithlon ac yn cael eu darparu’n gyson, bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y rhoddir cyfrif yn briodol amdano; a bod penderfyniadau’n cael eu gwneud mewn modd tryloyw a chyfreithlon. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried heriau parhaus y pandemig Coronafeirws byd-eang sydd wedi effeithio ar bawb a phob busnes yn y fwrdeistref sirol ers mis Mawrth 2020. Mae mesurau ychwanegol wedi cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod y Cyngor yn cynnal trefniadau llywodraethu priodol trwy’r digwyddiad digynsail hwn.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i bennu amcanion llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Etholiadau Llywodraeth Leol (Cymru) 2021, i wneud trefniadau a pharhau i adolygu i ba raddau y mae'n arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, yn defnyddio ei hadnoddau'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol, ac i sicrhau bod ei lywodraethu yn effeithiol wrth sicrhau'r gofynion perfformiad hyn.

Mae ein trefniadau llywodraethu’n gweithredu’n effeithiol i gynorthwyo’r Cyngor i gwrdd â’i heriau a’i gyfrifoldebau, ac maent wedi parhau i wneud hynny yn y cyfnod ansicr ar hyn o bryd. Mae gwelliannau’n cael eu gwneud yn barhaus ac mae cyfleoedd i wneud hynny wrth edrych tua’r dyfodol wedi cael eu hadnabod. Bydd y rhain yn cael eu monitro yn ystod 2021-22 i sicrhau bod gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gwneud.



Cllr Huw David
Leader of the Council



Mark Shephard
Chief Executive

# 2 Fframwaith Llywodraethu

## Beth yw Llywodraethu Corfforaethol?

Mae llywodraethu corfforaethol yn cwmpasu'r systemau, prosesau, diwylliant a gwerthoedd y caiff y Cyngor ei gyfarwyddo a'i reoli, ei arwain a'i ddwyn i gyfrif yn unol â hwy, a sut y mae'n ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae a wnelo hefyd â'r ffordd y mae Cynghorwyr a chyflogeion yn meddwl ac yn gweithredu.


Mae'r Fframwaith Llywodraethu'n galluogi'r Cyngor i fonitro'r modd y cyflawnir ei amcanion strategol ac i ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, cost-effeithiol.

## Yr hyn y mae'r Datganiad hwn yn ei ddweud wrthych

Mae'r Datganiad hwn yn disgrifio i ba raddau y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i God Llywodraethu Corfforaethol a gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiadau) 2018, am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.

Mae hefyd yn nodi sut y mae'r Cyngor wedi ymateb i faterion llywodraethu a adnabuwyd yn ystod 2020-21 a chamau gweithredu sydd i'w cymryd yn ystod 2021-22 yn dilyn adolygiad blynyddol o'r Fframwaith Llywodraethu.

Mae'r Datganiad wedi cael ei baratoi yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd yn 2016: '*Delivering Good Governance in Local Government Framework*' a gynhyrchwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE)



*Tref Pen-y-bont ar Ogwr*

# Cyfrifoldebau Llywodraethu'r Cyngor

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, y rhoddir cyfrif priodol amdano a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Rhaid i'r Cyngor ystyried effaith tymor hwy unrhyw benderfyniadau y mae'n eu gwneud, a dylai gydweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill i wella llesiant yng Nghymru.[1]

Fel corff cyhoeddus, rhaid i'r Cyngor sicrhau mai llwyddo i gael canlyniadau cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd sy'n gynaliadwy yw ffocws allweddol ei brosesau a'i strwythurau llywodraethu. Cyflawnir hyn trwy:

- ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheolaeth y gyfraith
- sicrhau ei fod yn agored ac yn ymgysylltu mewn modd cynhwysfawr â rhanddeiliaid

Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn nodi ei ymrwymiad i sicrhau bod system lywodraethu gadarn yn ei lle a'i gyfrifoldeb am hynny. Mae'r Cod a'r atodlen lywodraethu ar wefan y Cyngor neu gellir eu cael gan y Swyddog Adran 151.

Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn nodi saith egwyddor llywodraethu da yn unol â 'Sicrhau Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol' CIPFA: Fframwaith'.

| | **Cod Llywodraethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (2017)**<br>**Mae Egwyddorion Llywodraethu'r Cyngor yn seiliedig ar y canlynol:** |
|---|---|
| A | Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheolaeth y gyfraith |
| B | Sicrhau ei fod yn agored ac yn ymgysylltu mewn modd cynhwysfawr â rhanddeiliaid |
| C | Diffinio canlyniadau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy |
| D | Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau bwriadedig yn y ffordd orau bosibl |
| E | Datblygu capasiti'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo |
| F | Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth gref ar arian cyhoeddus |
| G | Gweithredu arfer da mewn tryloywder, adrodd, ac archwilio i gyflawni atebolrwydd effeithiol |



[1] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

# Fframwaith Llywodraethu'r Cygnor

**Mae'r Fframwaith Llywodraethu'n cwmpasu'r systemau, prosesau a gwerthoedd y caiff y Cyngor ei gyfarwyddo a'i reoli yn unol â hwy, a'r modd y mae'n atebol i'r gymuned leol, yn ymgysylltu â hi ac yn ei harwain. Mae'n galluogi'r Cyngor i fonitro'r modd y cyflawnir ei amcanion strategol ac i ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, cost-effeithiol.**

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan arwyddocaol o'r fframwaith hwnnw ac mae wedi'i bwriadu i wneud defnydd priodol o arian cyhoeddus ac osgoi ei golli. Mae hefyd o gymorth i reoli'r risg o fethiant i gyflawni polisïau, cyrraedd nodau a chyflawni amcanion. Nid yw'n dileu'r risg i gyd; mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i bwriad i adnabod a blaenoriaethu risgiau, gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n dod yn ffaith a rheoli eu heffaith.

Er mwyn adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, darperir sicrwydd fel y bo'n briodol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgorau Craffu, y Cyngor, y Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol, a chyfle iddynt herio hynny. Hefyd, mae'r Swyddog Adran 151 yn hyrwyddo ac yn cyflawni rheolaeth ariannol dda ac mae'r Swyddog Monitro'n hyrwyddo ac yn cyflawni sicrwydd cyfreithiol a moesegol.

Caiff rhai o'r elfennau allweddol o'r fframwaith llywodraethu eu hamlygu isod.

**Pwrpas: Un Cyngor yn cydweithio i wella bywydau**

Egwyddorion Llywodraethu

**Ffynonellau sicrwydd allweddol**
Cyfansoddiad
Rheolau Gweithdrefn Contract
Cynllun Corfforaethol
Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
Rheolau Gweithdrefn Ariannol
Polisïau a Gweithdrefnau Adnoddau Dynol
Cynllun Rheoli Asedau
Polisi Rheoli Risg Corfforaethol
Polisi Atal Twyll a Llwgrwobrwyo
Polisi Atal Gwyngalchu Arian
Polisi Atal Osgoi Trethi
Fframwaith Twyll Corfforaethol
Strategaeth Rheoli'r Trysorlys
Polisïau Cwynion

Cod Llywodraethu Corfforaethol

**Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

Yn fwy eang, fel rhan o'i drefniadau partneriaeth a chydweithio, mae'r Cyngor yn rhan o drefniadau llywodraethu allanol pwrpasol a ysgogir gan y gwahanol drefniadau partneriaeth a chyflawni sy'n bodoli. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys y canlynol:

Mae'r Cyngor yn un o ddeg Cyngor sy'n cyflawni Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (BDdPRC), sydd â swyddogaeth Graffu a Chabinet ar y cyd i sicrhau trefniadau llywodraethu o ran ei rhoi ar waith. Nod BDdPRC yw gwella ffyniant economaidd, rhagolygon swyddi a gwella cysylltedd digidol a thrafnidiaeth ac mae'n fuddsoddiad sylweddol yn economi De Cymru.

- Mae’r Cyngor yn ymrwymedig i gyfrannu at gyflawni’r amcanion hyn ledled y rhanbarth i sicrhau bod y gymuned a busnesau yn y Fwrdeistref yn gallu cael budd o’r buddsoddiad hwn.

- Yn ystod 2019-20 rhoddwyd y trefniadau rhanbarthol newydd ar waith ar gyfer y bartneriaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf, ac mae'r trefniadau hyn wedi cael dechrau llwyddiannus. Mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn rhoi arweiniad ar draws y rhanbarth ar gyfer diogelu a chynllunio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn integredig. Mae nifer fach o wasanaethau allweddol sy'n dal i weithredu o fewn ffiniau’r hen 'Western Bay'.

- Mae’r Cyngor yn un o’r cyfranogwyr mewn nifer o gydwasanaethau, gydag awdurdodau lleol eraill, megis y Cydwasanaethau Rheoleiddiol gyda Chynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg, a Chonsortiwm Canol De Cymru, cydwasanaeth addysg ar gyfer pum awdurdod lleol. Llywodraethir y rhain gan gydbwyllgorau sy’n cynnwys aelodau etholedig o bob un o’r awdurdodau lleol. Mae’r Cyngor hefyd yn un o’r partneriaid yn y Cydwasanaethau Archwilio Mewnol Rhanbarthol gyda Chynghorau Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

## Gwneud Penderfyniadau a Chyfrifoldebau



**Mae gan y Cyngor 54 o Aelodau etholedig, gydag Arweinydd etholedig a Chabinet sy’n cael eu cefnogi a’u dwyn i gyfrif gan Bwyllgorau Craffu.** Mae cyfansoddiad y Cyngor yn nodi sut y mae’r Cyngor yn gweithredu, sut y caiff penderfyniadau eu gwneud a’r gweithdrefnau ar gyfer sicrhau bod y Cyngor yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Mae’n cynnwys y rheolau sylfaenol sy’n llywodraethu busnes y Cyngor, ac yn nodi rhestr o swyddogaethau y gall swyddogion eu harfer a phenderfyniadau y gall swyddogion eu gwneud. Mae hefyd yn cynnwys y rheolau a’r protocolau y mae’r Cyngor, Aelodau a swyddogion yn gweithredu’n unol â hwy.

Trwy’r Cyfansoddiad, ynghyd â’r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau, y Pwyllgor Safonau a rôl archwilio mewnol, mae’r Cyngor yn gweithredu ag **uniondeb**, yn unol â **gwerthoedd moesegol** ac o fewn ei bwerau **cyfreithiol**.

Gellir gweld agendâu, papurau, a chofnodion holl gyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau ar-lein, a chyn y pandemig roedd pob cyfarfod yn agored i'r cyhoedd oni bai bod materion eithriedig neu gyfrinachol yn cael eu trafod. Ers y pandemig cynhelir cyfarfodydd yn rhithiol a chant eu recordio a'u rhoi ar wefan y Cyngor i'r cyhoedd gael mynediad. Mae Blaenraglen waith y Cyngor yn cynnwys gwybodaeth am bob mater y mae’r Cyngor llawn neu’r Cabinet yn debygol o fod yn gwneud penderfyniad yn ei gylch yn ystod y cyfnod sydd i ddod. Maent hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â Phwyllgorau Craffu. I wella’r drefn o **fod yn agored** ac **ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn modd cynhwysfawr** mae gan y Cyngor Banel Dinasyddion, sy’n cymryd rhan mewn arolygon ar ystod o faterion. Mae’r Cyngor hefyd yn defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gwasanaethau ac ymgysylltu â’r cyhoedd ac mae’n trefnu bod gwybodaeth ar gael mewn ystod o fformatau i gynyddu i’r eithaf y cyfle ar gyfer rhannu gwybodaeth ac i drigolion gyfathrebu gyda’r Cyngor.

## Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Cafodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 20 Ionawr 2021. Mae'r Ddeddf yn ddarn sylweddol o ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â diwygio etholiadol, cyfranogiad y

cyhoedd, llywodraethu a pherfformiad a gweithio rhanbarthol. Mae llawer o ddiwygiadau o fewn y Ddeddf, fodd bynnag, yn gryno mae'r Ddeddf yn cyflwyno:

- Diwygiad o drefniadau etholiadol ar gyfer llywodraeth leol, gan gynnwys ymestyn yr hawl i bleidleisio i bobl ifanc 16 ac 17 oed;
- Cyflwyno pŵer cymhwysedd cyffredinol;
- Diwygio cyfranogiad y cyhoedd mewn llywodraeth leol;
- Diwygiadau ynghylch llywodraethu ac arweinyddiaeth ddemocrataidd;
- Gweithio ar y cyd;
- Diwygio'r drefn perfformiad a llywodraethu;
- Pwerau i hwyluso'r uniad gwirfoddol o brif gynghorau.

Er mwyn rhoi sicrwydd i awdurdodau lleol ynghylch pa newidiadau deddfwriaethol sy'n cael eu gweithredu a phryd, ac i sicrhau y gellir gwneud y paratoadau gofynnol, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud tri Gorchymyn Cychwyn, a fydd yn cynnwys is-ddeddfwriaeth berthnasol arall, a fydd yn dod â'r darpariaethau perthnasol i rym ar gyfres o ddyddiadau rhwng mis Mawrth 2021 a 5 Mai 2022.

Bydd y Ddeddf yn cael effaith eang ar drefniadaeth, pwerau, mesur perfformiad a llywodraethu'r Cyngor, gan gynnwys newidiadau i gyfansoddiad a chylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio (a ailenwyd yn Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gan y Cyngor ym mis Medi 2020, gan ragweld gofynion y Ddeddf). Mae'r cyfrifoldebau newydd yn cynnwys rôl wrth adolygu adroddiadau hunanasesu'r Cyngor a gwneud unrhyw argymhellion ar gyfer newid, ystyried y canlyniad a'r ymateb i asesiadau perfformiad panel o'r Cyngor, a chyfrifoldeb am wneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol. Bydd angen i'r Cyngor fynd i'r afael â'r newidiadau hyn a diwygio ei strwythurau a'i drefniadau llywodraethu yn unol â hynny.

**Rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

Mae'r **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** yn rhoi sicrwydd annibynnol ar amgylchedd rheolaeth fewnol y Cyngor. Mae'n Bwyllgor statudol sy'n cynnwys 12 Cynghorydd ac 1 Aelod Lleyg. Ei brif swyddogaethau yw:

- Adolygu a chraffu ar adroddiadau ac argymhellion sy'n ymwneud â Materion Ariannol y Cyngor
- Adolygu a chraffu ar adroddiadau ac argymhellion ar briodoldeb trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, a llywodraethu corfforaethol y Cyngor
- Goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol y Cyngor
- Bod yn gyfrifol am sicrhau bod craffu effeithiol ar Strategaeth a Pholisïau Rheoli'r Trysorlys
- Monitro Strategaeth Atal Twyll a Llwgrwobrwyo'r Cyngor, y Polisi Atal Gwyngalchu Arian, a'r Polisi Atal Osgoi Trethi
- Adolygu a chymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor a'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol
- Adolygu ac ystyried adroddiadau gan yr Archwilydd Allanol a'r Arolygwyr


# 3 Asesu Perfformiad

**Mae'r adroddiad yn edrych ar y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ar y camau i gyflawni'r amcanion llesiant. Mae'r adroddiad yn ystyried mesurau llwyddiant, a chaiff thargedau eu gosod yn flynyddol a'u defnyddio i ysgogi gwelliant. Yn ystod 2020-21, un ffactor allweddol y bu'n rhaid i'r Cyngor ei wynebu dros y flwyddyn oedd effaith pandemig Covid-19, a'r trefniadau a'r prosesau llywodraethu a sefydlwyd i sicrhau y gallai barhau i gefnogi trigolion a busnesau yn ystod y flwyddyn anodd a heriol hon.**

## Y Cynllun Corfforaethol

Mae Cynllun Corfforaethol 2018-23, a ddiweddarwyd ar gyfer 2021-22, ac y cytunwyd arno ym mis Chwefror 2021, yn nodi gweledigaeth y Cyngor: **'Un Cyngor yn cydweithio i wella bywydau'**. Mae'r Cynllun yn diffinio tri amcan llesiant pennaf y Cyngor yn ogystal â'r gwerthoedd a'r egwyddorion sefydliadol sy'n gosod sylfaen i'r gwaith o gyflawni ei flaenoriaethau. Diben y Cyngor, yn ei ddiffiniad ei hun, yw i 'gyfrannu at fan lle mae pobl wrth eu bodd yn byw yno, yn gweithio yno, yn astudio a gwneud busnes yno, lle mae gan bobl y sgiliau a'r cymwysterau y maent eu hangen i wella eu cyfleoedd mewn bywyd, a lle maent yn mwynhau iechyd da ac ymdeimlad o les ac annibyniaeth'.




Yn tanategu Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'i broses benderfynu i gyd, cymhwysir egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r tabl yn dangos sut y mae amcanion llesiant y Cyngor yn cyfrannu at y saith nod llesiant.

| | Amcan Llesiant | | |
|---|---|---|---|
| **Nnod Llesiant** | **Cefnogi economi gynaliadwy lwyddiannus** | **Helpu cymunedau a phobl I fod yn iachach ac yn fwy swydn** | **Gwell defnydd o adnoddau** |
| **Cymru lewyrchus** | ✓ | | ✓ |
| **Cymru gydnerth** | | | ✓ |
| **Cymru iachach** | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Cymru a diwyliant bywiof lle mae'r Gymraed yn ffynnu** | ✓ | ✓ | |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | ✓ | | ✓ |

Yn ogystal â'r saith nod llesiant, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sefydlu egwyddor datblygu cynaliadwy, ac yn diffinio'r pum ffordd o weithio y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu mabwysiadu i ddangos eu bod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Y pum ffordd o weithio yw:

**Hirdymor:** meddwl am genedlaethau'r dyfodol ac am ein hadnoddau naturiol.

**Atal:** hwn yw'r cam cyn bod unrhyw faterion yn codi ac mae wedi'i fwriadu i wneud yn siŵr bod datrysiadau ac ymyriadau'n cael eu targedu a'u bod ar gael i atal yr angen am wasanaethau statudol.

**Integreiddio a chydweithio:** gyda chydweithwyr a phartneriaid. Sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu cydgysylltu ar draws gwasanaethau a chydweithio'n agosach gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

**Cynnwys:** ymgynghori â phobl leol a'u cynnwys wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

| 5 Ffordd o Weithio | Hirdymor | Atal | Integreiddio | Cydweithrediad | Cyfraniad |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ein Hegwyddorion** | | | | | |
| Cefnogi cymunedau a phobl i greu eu datrysiadau eu hunain a lleihau dibyniaeth ar y Cyngor. |  |  | |  |  |
| Canolbwyntio adnoddau sy'n lleihau ar gymunedau ac unigolion sydd â'r angen mwyaf. |  | | |  |  |
| Defnyddio gwybodaeth dda gan ddefnyddwyr gwasanaeth a chymunedau i lywio ei benderfyniadau. |  | |  |  |  |
| Annog a datblygu gallu ymhlith y trydydd sector i nodi ac ymateb i anghenion lleol. |  |  | |  |  |
| Peidio â gadael i ansicrwydd ynghylch dyfodol gwasanaethau cyhoeddus atal cydweithredu ystyrlon a phragmatig â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus. |  | |  |  | |
| Gweithio fel un Cyngor a rhwystro gwahanol rannau o'r sefydliad rhag datblygu prosesau lluosog neu ddulliau gwahanol yn ddiangen. |  | |  |  | |
| Trawsnewid y sefydliad a llawer o'i wasanaethau i sicrhau gostyngiadau yn y gyllideb ariannol yn ogystal â gwelliannau. |  | | |  |  |

**Y Gymraeg** – Mae gan Gymru ddwy iaith swyddogol, Cymraeg a Saesneg, a dylai gwasanaethau a gwybodaeth fod ar gael yn gyfartal yn y ddwy. Saesneg yw iaith fusnes fewnol y Cyngor, ond bydd yr holl wasanaethau a gwybodaeth a ddarperir gennym ar gyfer pobl leol ar gael yn gyfartal yn y naill iaith a'r llall.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi nifer o egwyddorion sy'n tanategu ei Amcanion Llesiant ac mae wedi mabwysiadu set o werthoedd sy'n cynrychioli'r hyn y mae'r Cyngor yn sefyll drosto ac yn dylanwadu ar ei ffordd o weithio. Nodir yr egwyddorion allweddol isod.

- Lle bynnag y bo modd bydd y Cyngor yn cefnogi cymunedau a phobl i ddatrys pethau eu hunain ac i leihau eu dibyniaeth ar y Cyngor
- Bydd y Cyngor yn canolbwyntio adnoddau sy'n prinhau ar y cymunedau a'r unigolion sydd â'r angen mwyaf
- Bydd y Cyngor yn defnyddio gwybodaeth dda a geir gan ddefnyddwyr gwasanaethau a chymunedau i lywio ei benderfyniadau
- Bydd y Cyngor yn annog ac yn datblygu gallu'r trydydd sector i nodi ac ymateb i anghenion lleol
- Ni fydd y Cyngor yn caniatáu i ansicrwydd ynghylch dyfodol gwasanaethau cyhoeddus atal cydweithio ystyrlon a phragmatig â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus
- Bydd y Cyngor yn gweithio fel un Cyngor ac yn annog gwahanol rannau o'r sefydliad i osgoi datblygu prosesau lluosog neu ddulliau sy'n wahanol heb fod angen

- Bydd y Cyngor yn trawsnewid y sefydliad a llawer o'i wasanaethau ac wrth wneud hynny bydd yn sicrhau gostyngiadau ariannol yn y gyllideb yn ogystal â gwelliannau

Gwerthoedd y Cyngor yw:

- **T**eg – gan ystyried anghenion a sefyllfaoedd pawb
- **U**chelgeisiol – bob amser yn ceisio gwella'r hyn a wnawn ac anelu at ragoriaeth
- **C**anolbwyntio ar y dinesydd – gan gofio ein bod yma i wasanaethu ein cymuned leol
- **E**ffeithlon – yn darparu gwasanaethau sy'n cynnig gwerth am arian.

## Covid-19

Aeth y DU i mewn i gyfnod clo ar 23 Mawrth 2020, cam digynsail i geisio cyfyngu ar ledaeniad coronafirws. Daeth hyn yn sgil mesurau tebyg mewn gwledydd eraill ledled y byd. Dim ond am rai rhesymau cyfyngedig y caniataodd Llywodraeth y DU i bobl adael eu cartrefi. O ganlyniad, bu'n rhaid i lawer o siopau a busnesau nad oeddent yn hanfodol gau, caewyd ysgolion, ac roedd yn ofynnol i bob gweithiwr weithio gartref lle'n bosibl. I ddechrau, roedd y cyfyngiadau symud i'w gosod am gyfnod o 3 wythnos, ond cafodd hyn ei ymestyn dros yr ychydig fisoedd canlynol, gyda Phrif Weinidog Cymru yn cyhoeddi y byddai rheolau'r cyfyngiadau symud yn cael eu llacio o 1 Mehefin i fis Gorffennaf 2020, gyda chadarnhad y gallai pyllau nofio, campfeydd, canolfannau hamdden ac ardaloedd chwarae dan do agor o 3 Awst 2020. Cafwyd cyfnodau pellach o gyfyngiadau symud, pythefnos o 'firebreak' o 23 Hydref tan 9 Tachwedd yn gyntaf, ac yna cyfyngiadau symud pellach o hanner nos 19 Rhagfyr 2020 yn sgil ymchwydd sylweddol mewn achosion o amrywiolyn newydd o'r feirws.

Drwy gydol y cyfnod hwn bu'n rhaid i'r Cyngor addasu a gweithredu newidiadau sylweddol i reolaeth y Cyngor o ddydd i ddydd, a natur a darpariaeth ei weithrediadau. Er mwyn sicrhau parhad gwasanaethau lle bynnag y bo modd, aeth y Cyngor ati ar fyrder i roi technoleg symudol i staff swyddfa ar ddiwedd mis Mawrth 2020 ac i'r flwyddyn ariannol newydd, er mwyn galluogi iddynt weithio gartref o fewn amserlen fer iawn. Mae staff swyddfa bellach gyda'r offer a'r gallu i weithio gartref, naill ai gyda gliniaduron â chyfleusterau ffôn wedi'u gosod arnynt, neu ar gyfrifiaduron cartref sydd wedi'u cysylltu â rhwydwaith gorfforaethol y Cyngor. Cynyddwyd gallu seilwaith y Cyngor yn sylweddol i alluogi pawb a allai weithio gartref i wneud hynny. Roedd hyn yn cynnwys darparu sawl llwyfan hygyrchedd er mwyn galluogi mynediad. Mae capasiti storio'r ochr gefn wedi cynyddu. Er bod diogelwch y rhwydwaith yn parhau i fod ar lefel uchel, ataliwyd y defnydd o Outlook Web Access er mwyn lliniaru risgiau posibl,. Yn ogystal â hyn, ac i gryfhau diogelwch y rhwydwaith ymhellach, mae'r Cyngor wedi cynyddu ei ddarpariaeth wal dân. Gwnaed penderfyniadau i symud cyflogeion i feysydd blaenoriaeth allweddol lle bynnag y bo modd er mwyn sicrhau parhad gwasanaethau hanfodol. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd y ffocws ar sicrhau gwydnwch gwasanaethau rheng flaen yn wyneb absenoldeb a meysydd dan bwysau acíwt, a chefnogi gwasanaethau sy'n hybu iechyd y cyhoedd, gan gynnwys y gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu ac, yn ddiweddarach, y rhaglen frechu a phrofi cymunedol.

Ar ddechrau'r pandemig cafodd nifer o wasanaethau eu hatal, gan gynnwys ysgolion, ond parhaodd y Cyngor i gynnal nifer sylweddol o wasanaethau hanfodol, yn enwedig gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion sy'n agored i niwed a'r gwasanaethau casglu plant a gwastraff. Roedd y gwasanaethau a ataliwyd yn cynnwys sefydliadau diwylliannol, canolfannau hamdden, canolfannau ailgylchu cymunedol, a gwasanaethau dydd. Yn ystod y flwyddyn, wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo ddechrau cael eu llacio, cafodd nifer o'r rhain eu hailagor, ond gyda mesurau ymbellhau cymdeithasol ar waith neu trwy gael eu darparu'n wahanol. Addaswyd ysgolion i ddarparu dysgu cyfunol ac, pan fo cyfyngiadau symud llawn, dysgu ar-lein, gyda'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael eu haddysgu gartref ar gyfrifiaduron. Danfonwyd parseli bwyd wythnosol i gartrefi'r disgyblion

hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a sicrhawyd cyllid i alluogi disgyblion sydd ddim a gwasanaethau digidol i barhau i ddysgu oddi cartref.

Pan osodwyd cyfyngiadau symud ar y wlad, cafodd holl gyfarfodydd ffurfiol y Cyngor eu canslo ar unwaith. Fodd bynnag, o dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020, rhoddwyd pwerau i Awdurdodau Lleol gynnal cyfarfodydd yn rhithwir gan ddefnyddio technoleg fideo-gynadledda o 22 Ebrill 2020. O ganlyniad, cynhaliodd y cyfarfod rhithwir cyntaf Pwyllgor Rheoli Datblygu'r Cyngor ar 4 Mehefin 2020, ac yna cyfarfod o'r Cabinet ar 30 Mehefin 2020. Cafwyd cyfarfodydd pwyllgor rhithwir eraill yn sgil hyn, gyda chyfarfod cyntaf y Cyngor llawn ar 22 Gorffennaf 2020, a chafwyd rhaglen lawn o gyfarfodydd ers hyn. Cynhaliwyd y cyfarfodydd ar Skype i ddechrau, ond bellach cant eu cynnal ar Microsoft Teams, a chant eu recordio a'u lanlwytho i wefan y Cyngor wedi'r cyfarfod. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau llawn a thryloyw, ac mae'n cynnwys gweithdrefnau ar gyfer galluogi Aelodau i bleidleisio ar benderfyniadau allweddol. Cafodd y grŵp Covid-19 cychwynnol, a oedd yn cynnwys aelodau o'r Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol (CMB), ynghyd â nifer o swyddogion allweddol, ei atal pan ailddechreuwyd y cyfarfodydd swyddogol, ond adferwyd cyfarfodydd ddwywaith yr wythnos y Cabinet a'r CMB er mwyn ystyried busnes arall y Cyngor. Ym mis Ionawr 2021, wrth i'r cyfyngiadau symud diweddaraf ddod i rym, cyflwynodd CMB gyfarfod Aur CMB penodol i drafod materion yn ymwneud â Covid, y tu allan i'w hagenda CMB reolaidd. Ategwyd hyn gan Grŵp Arian Covid, a oedd yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaeth, rhai rheolwyr grŵp a swyddogion allweddol eraill, i ystyried mwy o oblygiadau gweithredol y pandemig. Mae Grŵp Arian Covid yn parhau ag unrhyw benderfyniadau angenrheidiol ac unrhyw argymhellion a wnaed i Grŵp Aur Covid. Cyfarfu'r ddau grŵp yn wythnosol i ddechrau, ond wrth i'r argyfwng gilio gostyngwyd hyn i bob pythefnos. Yn fwy diweddar, mae'r grwpiau, mewn perthynas ag ymateb Covid, wedi'u rhyddhau yn yr un modd â'r grwpiau rheoli 'pandemig' rhanbarthol a chenedlaethol eraill, ond mae'r fantais o gael grwpiau o'r fath wedi arwain at eu hailffocysu i ystyried materion strategol, gweithredol, ac ehangach ar draws y Cyngor nad ydynt yn ymwneud â Covid, ac maent wedi parhau yn hyn o beth.

Ym mis Mehefin 2020 cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet yn argymell sefydlu Panel Adfer trawsbleidiol, etholedig i helpu i lunio, hysbysu a chynghori'r Cabinet ar gynllunio adferiad y Cyngor. Cyfarfu'r Panel ar chwe achlysur yn ystod mis Awst. Yn ystod ei gyfarfodydd, ystyriodd y Panel gyflwyniadau gan wahoddedigion, gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BSB), Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO), y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, cyfarwyddwr Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr, a Phennaeth Gwasanaethau Partneriaeth a Rheolwr Grŵp – Tai. Cyflwynwyd argymhellion y Panel i'r Cabinet ar 15 Medi 2020 ac yna fe'u symudwyd ymlaen i'w hystyried. Cytunwyd y byddai gwaith y Panel yn parhau gydag argymhellion pellach yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol a'r Cabinet i'w cymeradwyo. Darparwyd ymateb gan y Cabinet i argymhellion y Panel Adfer i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol i'w ystyried ym mis Rhagfyr 2020.

Un rhan o'r ymateb cenedlaethol i effaith y pandemig oedd darparu cymorth ariannol ychwanegol i'r economi, gan gynnwys dosbarthu Grantiau Busnes ac ymestyn rhyddhad ardrethi busnes, a gweinyddwyd y ddau beth gan y Cyngor. Mae hyn wedi ei gwneud yn ofynnol i staff ganolbwyntio ar weinyddu, rheoli a thalu nifer fawr o grantiau o fewn amserlenni byr. Yn ystod y flwyddyn ariannol ariannwyd nifer o grantiau a chynlluniau gwahanol gan Lywodraeth Cymru, ond fe'u rheolir a'u gweinyddu gan y Cyngor, gan roi cymorth i fusnesau gan gynnwys:

| | |
|---|---|
| • Grantiau Busnes ac Elusennau Cam 1 | Mawrth 2020 |
| • Grant Ardrethi Annomestig Cyfnod Clo / Cyfnod Atal Byr | Tachwedd 2020 |
| • Cronfa Cyfyngiadau Busnes (gwahanol gyfnodau) | Rhagfyr 2020 |

Mae cyfanswm o dros £50 miliwn wedi'i dalu i ystod eang o fusnesau ac elusennau drwy gydol y flwyddyn. Mae gan bob un o'r grantiau hyn feini prawf gwahanol (y rhai sy'n talu ardrethi busnes

yn unig, neu garfan ehangach), gwahanol brosesau dyfarnu (proses dalu neu ymgeisio'n awtomatig), a symiau ariannu gwahanol. Mae hyn wedi gofyn am ymdrech gydgysylltiedig a chwim rhwng yr adran drethiant, y tîm adfywio, a busnesau cymwys, gan sicrhau fod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol a bod mecanweithiau rheoli ar waith i ddiogelu'r cyllid.

Mae hyn yn ychwanegol at amrywiaeth o daliadau grant unigol eraill, gan gynnwys:

- Taliadau Gweithlu Gofal Cymdeithasol o £500
- Taliadau Hunanynysu i'r rhai ar incwm isel
- Taliadau Salwch Statudol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol

Mae pob un ohonynt wedi ei gwneud yn ofynnol i brosesau newydd gael eu rhoi ar waith i'w gweinyddu, gan gynnwys newidiadau digidol i alluogi ceisiadau i gael eu cyflwyno ar-lein, newidiadau i'r system, rheoli arian parod a phrosesau cyfrifo i'w hystyried. Gan ystyried y grantiau busnes, mae dros £53 miliwn o incwm grant ychwanegol wedi mynd drwy gyfrifon y Cyngor ar gyfer y grantiau penodol hyn yn unig.

Bu’n rhaid i wasanaethau eraill ailystyried sut y gallent barhau i ddarparu gwasanaethau yn ystod y cyfnod clo. Mae'r rhan fwyaf o feysydd gwasanaeth wedi gorfod addasu ac mae llawer o weithwyr wedi gallu gweithio mewn ffordd wahanol a mwy hyblyg. Mae her sylweddol i'r sefydliad wrth symud ymlaen o ran sicrhau bod llawer o'r ffyrdd newydd o weithio a fu’n effeithiol yn parhau i fod yn effeithiol. Bu'n rhaid i wasanaethau eraill ailystyried sut y byddent yn parhau i gyflawni er budd y cyhoedd dros amser. Un enghraifft yw darparu prydau ysgol am ddim, a wnaed i ddechrau gyda threfniant 'pecyn cinio', a gasglwyd gan ddisgyblion o leoliadau penodol. Dros amser, ac er mwyn cydymffurfio â rheolau ymbellhau cymdeithasol, newidiwyd hyn yn wasanaeth dosbarthu parseli bwyd i gartrefi disgyblion. Er bod opsiynau amgen i ddarparu’r gwasanaeth wedi'u hystyried yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys talu arian parod neu dalebau i rieni, mae'r Cyngor yn dal i deimlo ar hyn o bryd mai'r gwasanaeth hwn yw’r opsiwn gorau i ddisgyblion yn gyffredinol, gan ystyried gwerth maethol a’r gefnogaeth i blant tra byddant gartref. Fodd bynnag, mae hyn yn cael ei adolygu'n gyson.

Yn ogystal â'r grantiau busnes, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu nifer o grantiau penodol i dalu costau ychwanegol Awdurdodau Lleol o ganlyniad i'r pandemig, a hynny ar gyfer costau yn gyffredinol ac wedi'u targedu at feysydd penodol, megis gofal cymdeithasol i oedolion, prydau ysgol am ddim, digartrefedd ac offer amddiffynnol personol. Caiff costau eu coladu ar draws y Cyngor i alluogi'r grantiau hyn i gael eu tynnu i lawr, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu hawlio yn erbyn Cronfa Caledi Llywodraeth Cymru. Mae’r incwm a gollir o ffioedd a thaliadau yn cael effaith hefyd ac yn rhoi pwysau ychwanegol, ynghyd â lleihad yn y dreth gyngor a gesglir oherwydd amgylchiadau ariannol nifer o breswylwyr, a'r cynnydd yn y rhai sy'n hawlio gostyngiad yn y dreth gyngor oherwydd hynny. Mae'r Cyngor wedi hawlio a derbyn y symiau canlynol:

| **Cronfa Caledi Llywodraeth Cymru** | **Wedi’i Hawlio £000** | **Wedi’i Dalu £000** | **Wedi'i Wrthod £000** |
|---|---:|---:|---:|
| Gwariant ychwanegol | 15,791* | 15,013 | 778 |
| Colled Incwm | 5,697 | 5,574 | 104 |
| **Cyfanswm** | **£21,488** | **£20,587** | **£882** |

* gan gynnwys £271,000 yn ymwneud â 2019-20.

Mae’r costau a cholled incwm na ysgwyddir gan Lywodraeth Cymru wedi rhoi pwysau ychwanegol ar gyllideb y Cyngor, felly sefydlodd y Cyngor gronfa benodol wedi'i chlustnodi ar ddiwedd 2019-20 i'w alluogi i liniaru unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â Covid nas ariannwyd yn 2020-21 a thu hwnt.

Dilynodd y Cyngor y canllawiau a'r cyngor a nodir yn Hysbysiad Polisi Caffael 01/20: Ymateb i Covid-19, a’r hysbysiadau dilynol, a rhoi nifer o fesurau ar waith i gefnogi cyflenwyr, gan gynnwys talu cyn cyflenwi lle y bo'n briodol, cynnal lefelau ffioedd rheoli ar gyfer rhai o'n darparwyr allweddol yn ystod y pandemig, a chynyddu nifer y taliadau BACS a wneir yr wythnos i sicrhau bod cyllid yn cyrraedd cyfrifon cyflenwyr yn gyflymach. Gwnaed hyn gan ystyried Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor, y broses bwerau dirprwyedig a'r broses o wneud penderfyniadau Covid-19. Er mwyn lleihau unrhyw risg o dwyll wrth roi’r gefnogaeth hon i gyflenwyr, gofynnwyd i'r rhai a dderbyniodd gyllid gan y Cyngor gofrestru ar gyfer proses gyfrifyddu llyfr agored fel bo modd i’r Cyngor wirio unrhyw gyllid a gafodd y sefydliad, er mwyn sicrhau na roddwyd unrhyw gyllid ddwywaith.

Er bod nifer o gynlluniau cyfalaf y Cyngor wedi'u gohirio, ysgwyddodd y Cyngor gostau ychwanegol hefyd o ganlyniad i'r angen i gadw pellter cymdeithasol ar safleoedd adeiladu, pan fydd cynlluniau newydd wedi'u tendro, felly mae'n amlwg na ellir gwybod na meintoli canlyniadau tymor hwy pandemig y coronafeirws yn llawn hyd yma. Fodd bynnag, mae'n ymddangos yn anochel y bydd nifer o fusnesau mewn trafferthion ariannol ac efallai'n mynd allan o fusnes, er gwaethaf y gwahanol gynlluniau cymorth sydd wedi'u rhoi ar waith dros y flwyddyn. Gall canol y dref gael ergyd arbennig o drom os bydd angen i staff barhau i weithio gartref lle bo modd, yn hytrach na’u swyddfa arferol, gan gynnwys staff ym mhrif swyddfeydd Cyngor yng nghanol y dref, gan leihau niferoedd sy’n mynychu’r prif ardaloedd manwerthu hyn. Mae'n debygol hefyd y bydd cynnydd mewn lefelau amddifadedd, a’r gofynion cysylltiedig ar wasanaethau'r Cyngor o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n gwneud cais am gredyd cynhwysol a chymorth gyda'r dreth gyngor. Yn ariannol, rydym yn disgwyl pwysau ar gostau gwasanaeth, llai o incwm o dreth gyngor ac ardrethi busnes, incwm is parhaus o feysydd parcio, incwm rhent lle mai'r Cyngor yw'r landlord a chaeau chwarae a chyfleusterau eraill wrth i bobl barhau i fod yn betrus i fynd allan a chymdeithasu mewn grwpiau mawr. Er bod y rhaglen frechu yn mynd rhagddi'n dda, ac mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob un o'r naw grŵp blaenoriaeth fod wedi cael eu brechiad cyntaf erbyn canol mis Gorffennaf 2021, disgwylir i effaith y pandemig gael ei theimlo am flynyddoedd lawer i ddod, ac yn anghyfartal o bosibl, gyda'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn teimlo’r ergyd fwyaf. Bydd mesurau tymor byr, fel gwyliau rhent i fusnesau a rhyddhad ardrethi busnes, yn rhoi rhywfaint o gymorth iddynt, ond bydd yn anodd gwrthbwyso'r effaith economaidd ddinistriol y mae'r pandemig wedi'i hachosi. Yn ogystal, mae arferion defnyddwyr wedi newid, gyda phobl wedi cael eu gorfodi i siopa a gwneud busnes yn wahanol, ac nid oes sicrwydd y byddant yn dychwelyd i hen arferion.

Ym mis Mawrth 2019, arolygodd Estyn wasanaethau addysg llywodraeth leol Pen-y-bont ar Ogwr. Yn dilyn yr arolygiad, nododd Estyn bedwar argymhelliad i wella darpariaeth gwasanaethau addysg Pen-y-bont ar Ogwr i blant a phobl ifanc. Roedd y rhain yn cynnwys yr angen i ddatblygu llythrennedd mewn ysgolion cynradd, cefnogi ysgolion, ysgolion sy’n peri pryder, datblygu addysg ôl-16, a chefnogi gwaith y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg statudol. Er bod gwaith yn erbyn y pedwar argymhelliad wedi parhau ers mis Mawrth 2020, mae'r pandemig wedi effeithio ar y cynnydd a wnaed. Rhoddir diweddariadau i Grŵp Gwella Ysgolion y Cyngor bob deufis a byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yn erbyn y meysydd blaenoriaeth hyn.

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi cynnal arolygiadau rheoleiddio o ddarpariaeth gofal cofrestredig y Cyngor. Roedd un gwasanaeth, cartref gofal preswyl i blant, yn wasanaeth a oedd yn peri pryder am gyfnod yn 2020 ond mae bellach wedi bodloni'r holl ofynion rheoliadol. Cafwyd arolygiadau rheoleiddiol cadarnhaol o’r darpariaethau eraill. Mae'r Cyngor yn ddarparwr sylweddol o wasanaethau gofal a reoleiddir ar gyfer oedolion a phlant, a Phennaeth y Gwasanaethau i Oedolion a Phennaeth y Gwasanaethau i Blant yw’r Unigolion Cyfrifol ar gyfer y ddarpariaeth, gyda chyfrifoldebau cyfreithiol yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal (Cymru) (2018). Cafwyd cyfarfodydd rheolaidd rhwng uwch swyddogion ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn ystod 2020-21 i roi sicrwydd o ran diogelwch a lles pobl yn ystod pandemig Covid-19. Cynhaliwyd gwiriad sicrwydd gan Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Ebrill 2021 a bydd unrhyw feysydd i'w gwella a nodwyd yn cael eu datblygu'n brydlon.

Mae'r Llywodraeth yn debygol o osod rheolau cadw pellter cymdeithasol am beth amser i ddod, a bydd hynny'n cael effaith ar wasanaethau megis rhai hamdden a diwylliannol, lle bydd yn rhaid i dorfeydd mewn canolfannau hamdden, pyllau nofio, a digwyddiadau perfformiad cyhoeddus addasu i unrhyw reolau newydd yn dilyn Covid-19. Bydd gwasanaethau manwerthu a hamdden sy'n annibynnol o'r Cyngor hefyd yn cael eu heffeithio gan ei bod yn cymryd amser i hyder y cyhoedd gynyddu. Ym mis Gorffennaf 2020 gofynnwyd i bob Cyfarwyddiaeth gwblhau holiadur corfforaethol ("Asesiad Cynllunio Adfer Gwasanaethau COVID-19") a gynlluniwyd i nodi'r gwersi a ddysgwyd o bob un o'i meysydd gwasanaeth yn ystod Cyfyngiadau Symud Covid-19. Datblygwyd Cynllun Gwella i "sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn cael eu darparu'n ddiogel ac i safon uchel yn ystod pandemig Covid-19." Mae'r ymarfer hwn wedi helpu i sicrhau bod y Cyngor yn gallu ymateb yn fwy effeithiol i unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol yn y dyfodol sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau. Yn y flwyddyn i ddod bydd angen i'r Cyngor ganolbwyntio ar adfer gwasanaethau a chefnogi cymunedau, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, yn ogystal â gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu ein heconomi leol i wella. Mae meithrin y gallu i weithio'n ystwyth wedi rhoi cyfleoedd i'r Cyngor sicrhau arbedion effeithlonrwydd a manteision i'r sefydliad a'r gweithwyr. Mae hyn yn cynnwys llai o deithio ac effaith hynny ar amseroedd gweithio, yn ogystal â manteision amgylcheddol. Bydd parhau i weithio ystwyth yn rhoi cyfle i'r Cyngor asesu ei anghenion am swyddfeydd yn ogystal â manteision dull gweithio ystwyth i staff yn y tymor hwy.

## Gwelliant Blynyddol

Mae Archwilio Cymru , ein Harchwilydd Allanol, yn asesu trefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus a'n perfformiad dilynol, a chyhoeddir eu canlyniadau yn eu **Crynodeb Archwilio Blynyddol 2020**. Ym mis Ionawr 2020, adroddwyd bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi ardystio bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol ar gyfer cynllunio ac adrodd ar welliannau, ac yn credu ei fod yn debygol o fodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009) yn ystod 2020-21'.

Mae Archwilio Cymru wedi cynnal ac adrodd ar nifer o adolygiadau yn ystod y flwyddyn, y caiff eu canlyniadau allweddol eu nodi isod.

| Adroddiad | Canlyniadau Allweddol |
|---|---|
| **Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol, Chwefror 2020** | **Diben yr adolygiad oedd asesu cynaliadwyedd sefyllfa ariannol tymor byr i ganolig y cyngor.** Roedd hyn yn cynnwys canolbwyntio ar strategaeth ariannol pob cyngor yn ogystal ag adolygu rhai dangosyddion ariannol allweddol o sefyllfa ariannol pob cyngor mewn perthynas â:<br>• perfformiad yn erbyn y gyllideb;<br>• cyflawni cynlluniau arbedion;<br>• defnyddio cronfeydd wrth gefn;<br>• y dreth gyngor; a<br>• benthyca.<br>Yn gyffredinol, canfu'r adolygiad y Cyngor mewn sefyllfa ariannol gref, ond byddai agweddau ar gynllunio ariannol a'i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn elwa o gael eu cryfhau. Mae'r rhesymau dros hyn fel a ganlyn:<br>• Byddai Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn elwa o gael ei gryfhau mewn rhai meysydd pwysig. Canfu'r adolygiad mai dim ond am flwyddyn y cynhwyswyd pwysau cost; nid yw'n darparu amcanestyniadau gweithgarwch a gwariant manwl ar gyfer pedair blynedd y Strategaeth, ac nid yw'n gwerthuso perfformiad ariannol y gorffennol, megis tanwariant yn y gyllideb a'r defnydd is na'r disgwyl o gronfeydd wrth gefn.<br>• Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi tanwario ei holl gyllidebau blynyddol |

| Adroddiad | Canlyniadau Allweddol |
|---|---|
| | • Mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni'r rhan fwyaf o'i arbedion arfaethedig<br>• Mae gan y Cyngor lefel uchel o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio, ac maent wedi'u neilltuo at ddibenion penodol a risgiau posibl i'r Cyngor. Mae tua thraean o gyfanswm y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi i ariannu cynlluniau penodol o fewn rhaglen gyfalaf y Cyngor ac mae 5% yn ymwneud â chyfartalu a chronfeydd grant.<br>• Mae gan y Cyngor hanes da o gasglu ei dreth gyngor<br>• Mae gan y Cyngor lefel gymharol isel o gostau benthyca a llog ac nid yw wedi ceisio unrhyw fenthyciadau hirdymor newydd ers 2012. |
| **'Gwella Ein Perfformiad' Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru, Gorffennaf 2020** | **Diben yr adroddiad oedd archwilio saith 'thema allweddol' i sicrhau bod y trefniadau ar gyfer atal a chanfod twyll yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn effeithiol.** Y saith 'thema allweddol' a archwiliwyd oedd:<br><br>• Arweinyddiaeth a diwylliant<br>• Fframweithiau rheoli a rheoli risg<br>• Polisïau a hyfforddiant<br>• Capasiti ac arbenigedd<br>• Offer a data<br>• Cydweithio<br>• Adrodd a chraffu<br><br>Ar gyfer pob thema mae'r adroddiad yn archwilio:<br><br>• Pam fod hyn yn bwysig<br>• Yr hyn a nodwyd yng ngwaith maes yr archwiliad o ran arferion gwaith cyfredol a'u heffeithiolrwydd ar draws y 40 o gyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru a archwiliwyd<br>• Beth sydd angen digwydd i gynhyrchu gwelliant<br><br>Cynhaliodd y Cyngor ymarfer mapio a nododd fod llawer o agweddau cadarnhaol ar draws pob un o'r themâu. Gosodir safonau uchel ar gyfer Aelodau a Swyddogion ac mae'r Cyngor pob amser wedi delio ag unrhyw honiadau neu amheuon o dwyll, llwgrwobrwyo, a llygredd yn brydlon. Mae hyfforddiant twyll wedi gwella'n ddiweddar ac mae modiwl e-ddysgu bellach ar waith. Y cam nesaf fydd datblygu cynllun gweithredu i gryfhau'r mesurau sydd eisoes ar waith i sefydlu arfer gorau o ran atal, ymchwilio a chanfod twyll yn unol â'r themâu a'r argymhellion yn adroddiad Archwilio Cymru. |

[1] Ers 1 Ebrill 2020 adnabyddir Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol fel Archwilio Cymru. Yr enwau statudol yw Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru o hyd.

## Rheoli Risg

**Mae'r Cyngor yn wynebu ystod o risgiau fel y byddid yn disgwyl o'r ystod eang o wasanaethau y mae'n eu darparu a gweithgareddau y mae'n ymgysylltu â hwy. O ddydd i ddydd mae risg weithredol yn codi o'r her sy'n gysylltiedig â sicrhau digon o gapasiti a gallu i gynghori ynghylch amcanion polisi allweddol y Cyngor a chyflawni'r rhain.**

Mae'r Cyngor wedi datblygu dull cadarn o reoli risg. Mae'r Polisi Rheoli Risg Corfforaethol wedi'i alinio â Chynlluniau Cyfarwyddiaethau a fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor. Mae'r Cyngor yn diffinio risg fel: 'Unrhyw ddatblygiad neu ddigwyddiad posibl a fyddai, pe bai'n dod yn ffaith, yn peryglu gallu'r Cyngor i:

- gyflawni ei Amcanion Llesiant
- darparu gwasanaethau fel a fwriadwyd
- cyflawni ei ddyletswyddau statudol, gan gynnwys y ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus.'

Caiff risgiau eu hystyried o safbwynt Gwasanaethau a'r Cyngor cyfan sy'n sicrhau bod risgiau allweddol yn cael eu distyllu yn yr Asesiad Risg Corfforaethol. Mae'r Asesiad Risg yn nodi sut y mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r risgiau hyn a'r camau lliniaru a fydd yn cael eu rhoi ar waith i'w lleihau. Mae'n cael ei adolygu a'i herio'n rheolaidd gan uwch reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio. Nid yw'n bosibl dileu pob risg o fethiant i gyrraedd targedau ym mholisïau, nodau ac amcanion y Cyngor ac felly ni ellir darparu sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd, ond yn hytrach sicrwydd rhesymol o hynny.

## Rheolaeth Ariannol

**Mae rheolaeth ariannol y Cyngor yn cael ei chynnal yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol a'r Cyfansoddiad. Mae gan y Cyngor Reolau Gweithdrefn Ariannol, Rheolau Gweithdrefn Contractau, Cynllun Ariannol penodol ar gyfer ysgolion ac mae'r cynllun dirprwyo hefyd yn darparu'r fframwaith ar gyfer rheolaeth ariannol. Y Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am sefydlu fframwaith clir ar gyfer rheoli materion ariannol y Cyngor ac am sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud i'w gweinyddu'n briodol.**

Mae gallu'r Cyngor i gyflawni arbedion a chadw ei wariant o fewn ei gyllideb ar y cyfan yn dra sefydledig. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol yn y dyfodol wrth i'r Llywodraeth wneud cynlluniau pellach i leihau gwariant cyhoeddus, yn enwedig gan y tybir y bydd angen i'r Llywodraeth adennill ei gwariant ychwanegol sylweddol yn ystod y pandemig. Mae ansicrwydd sylweddol o hyd hefyd o ganlyniad i Brexit a'r effaith y gallai hyn ei chael ar wasanaethau'r Cyngor gan gynnwys derbyn grantiau Ewropeaidd. Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi ystyried pwysau cost a meysydd blaenoriaeth yn unol â'r Cynllun Corfforaethol ac wedi ymgynghori'n helaeth i sicrhau proses gadarn. Mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd angen iddo gyflawni oddeutu £22 miliwn o arbedion dros y cyfnod rhwng 2021-22 a 2024-25. Er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn cymryd mwy o ran yn natblygiad y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, cynhaliwyd ymgynghoriad wyth wythnos 'Parod at y Dyfodol' rhwng 19 Hydref a 13 Rhagfyr 2020, gyda'r pwyslais ar gynlluniau adfer y Cyngor yn dilyn y pandemig, gan gynnwys yr hyn yr oedd y cyhoedd yn teimlo oedd yn wasanaethau pwysig yn ystod y cyfyngiadau symud a pha wasanaethau yr oeddent yn eu defnyddio mewn gwirionedd. Oherwydd gofynion ymbellhau cymdeithasol, cafodd yr ymgynghoriad ar y gyllideb ei lansio ymlaen llaw ar y cyfryngau cymdeithasol cyn i'r arolwg fynd yn fyw, ac roedd yr ymgynghoriad ei hun yn canolbwyntio mwy ar ddulliau ymgysylltu ar-lein, cyfryngau cymdeithasol a rhyngweithiol. Defnyddiwyd amrywiaeth eang o ddulliau i gyfathrebu, gan gynnwys arolygon, y cyfryngau cymdeithasol, sesiynau ymgysylltu ar-lein, Cwestiynau Cyffredin ar-lein, yn ogystal â fideos, hysbysebion radio a datganiadau i'r cyfryngau. Er mwyn casglu barn pobl ifanc, aeth y tîm ymgynghori i gyfarfod o Gyngor Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr yn ogystal â hyrwyddo'r ymgynghoriad ymysg dysgwyr, staff a rhieni yn ysgolion uwchradd Pen-y-bont ar Ogwr a Choleg Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i'w gweld ar wefan y Cyngor yma. O ystyried y cyllid am un flwyddyn a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor wedi datblygu cyllidebau manwl ar gyfer blwyddyn gyntaf y Strategaeth gyda chyllidebau dangosol wedi hynny yn seiliedig ar ystod o senarios ariannu.

Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn ar gyfer rheolaeth ariannol effeithiol trwy weithdrefnau cyfrifyddu'r Cyngor, systemau ariannol allweddol a'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol. Mae hyn yn cynnwys gweithdrefnau sefydledig ar gyfer cynllunio'r gyllideb ac adroddiadau monitro'r gyllideb a gyflwynir yn rheolaidd i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu, yn ogystal â gwybodaeth fanwl i ddeiliaid cyllidebau. Mae'r Cyngor yn paratoi ei Gyfrifon Blynyddol fel sy'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r Cyngor yn dilyn Cod CIPFA ar Reoli Trysorlys a Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol i sicrhau bod arian a fuddsoddir yn ddiogel, yn hygyrch pan fo angen ac yn denu adenillion priodol a bod unrhyw fenthyciadau y mae eu hangen yn gyson â Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor, a gymeradwywyd gan y Cyngor. Yn ystod pandemig y Coronafeirws mae dibyniaeth ar gyngor ynghylch Rheoli Trysorlys wedi bod yn allweddol bwysig, ac roedd lefelau sylweddol o symudiadau arian parod yn golygu bod angen mwy o ffocws ar reoli llifoedd arian mewn modd mor ddiogel â phosibl. Fe wnaed defnydd sylweddol o Swyddfa Rheoli Dyledion y Trysorlys i adneuo arian yn ystod cyfnod cychwynnol yr argyfwng i gynnal diogelwch a hylifedd, ond wrth i'r argyfwng ddechrau lleddfu bydd arian yn cael ei fuddsoddi mewn offerynnau ehangach yn unol â chyngor Ymgynghorydd Rheoli Trysorlys y Cyngor.

Roedd y Cod Darbodus a Chod Ymarfer Rheoli'r Trysorlys, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017, yn nodi gofynion newydd mewn perthynas â chynhyrchu Strategaeth Gyfalaf. Ar hyn o bryd mae CIPFA yn ymgynghori ar y ddau God Ymarfer hyn. Mae'r newidiadau arfaethedig i'r Cod Darbodus yn cynnwys: y dylai buddsoddiad masnachol fod yn 'gymesur' â gwariant gwasanaeth a refeniw; dylai gwariant cyfalaf fod yn "gynaliadwy yn unol ag amcanion corfforaethol yr awdurdod"; dylai strategaethau cyfalaf roi mwy o sylwadau ar fforddiadwyedd gweithgareddau masnachol; 'Meincnod Atebolrwydd' i ddisodli'r dangosydd darbodus ar ddyledion gros a'r gofyniad ariannu cyfalaf; a dau ddangosydd darbodus newydd ar fforddiadwyedd. Mae'r newidiadau arfaethedig i God Rheoli'r Trysorlys yn cynnwys: amserlenni gwybodaeth a sgiliau newydd ar gyfer rolau rheoli'r trysorlys i asesu ac olrhain cymwyseddau; pwyllgorau cyngor newydd i ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar graffu ar benderfyniadau rheoli'r trysorlys; a chanllawiau newydd Rheoli'r Trysorlys ar asesu risgiau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu buddsoddiadau yn y dyfodol. Bydd angen ystyried canlyniad yr ymgynghoriadau hyn wrth ddiwygio Strategaethau Rheoli a Chyfalaf y Trysorlys. Ar hyn o bryd mae'r Strategaeth Gyfalaf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried y tymor hwy yn ogystal â'r tymor byr. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau gwariant cyfalaf fod yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy, ac iddynt amlinellu ymrwymiadau'r dyfodol fel y gellir deall fforddiadwyedd y cynllun hirdymor ac unrhyw gynigion newydd yn iawn. At hynny, mae'n galluogi gwell dealltwriaeth o oblygiadau cyfalaf a refeniw parhaus gwariant cyfalaf. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn esblygu i ddarparu cynllun cyfalaf cadarn, canolig i hirdymor i'r Cyngor.

## Cydymffurfio â Chod Ymarfer Rheoli Ariannol CIFPA

Lansiodd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) y Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol (Cod FM) ym mis Tachwedd 2019. Datblygwyd y Cod FM yng nghyd-destun pryderon cynyddol am wydnwch ariannol a chynaliadwyedd awdurdodau lleol.

Mae'r Cod FM yn nodi'r egwyddorion a ddylai arwain awdurdodau wrth iddynt reoli eu harian a'r safonau penodol y dylent, ar y lleiaf, geisio'u cyflawni. Mae'n egluro sut y dylai Prif Swyddogion Cyllid fodloni eu cyfrifoldeb statudol am weinyddu ariannol da fel sy'n ofynnol yn adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac mae'n pwysleisio cyfrifoldeb ariannol cyfunol yr arweinyddiaeth gyfan gan gynnwys yr aelodau etholedig perthnasol.

Drwy gydymffurfio â'r egwyddorion a'r safonau o fewn y cod bydd awdurdodau'n gallu dangos eu cynaliadwyedd ariannol. Er bod y Cod wedi'i gynllunio i fod ddigon hyblyg i addasu i natur, anghenion ac amgylchiadau pob awdurdodau unigol, mater i bob awdurdod yw penderfynu i ba raddau y mae'n cydymffurfio â Chod FM ac i nodi pa gamau y gallai ddymuno eu cymryd i fodloni'n well y safonau y mae Cod FM yn eu nodi. Disgwylir cydymffurfiad llawn ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 (h.y. o fis Ebrill 2021) gyda blwyddyn ariannol 2020-21 yn gweithredu fel blwyddyn gysgodol. Yn ei Fwletin Cyfarwyddyd 06 (Cymhwyso Fframwaith Llywodraethu Da 2020/21) mae CIPFA wedi datgan y dylai'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2020-21 gynnwys casgliad cyffredinol yr asesiad o gydymffurfiad y sefydliad ag egwyddorion Cod FM. Hefyd, lle mae materion neu feysydd sydd dal angen eu gwella, dylid cynnwys y rhain yn y cynllun gweithredu.

Mae'r Cyngor wedi asesu ei gydymffurfiaeth bresennol â'r 19 Safon a amlinellir yn y Cod FM. Mae'r asesiad wedi nodi y gall y Cyngor ddangos cydymffurfiaeth â'r holl Safonau, ond y gellir cymryd camau pellach i wella cydymffurfiaeth yn ystod 2021-22. Mae'r camau hyn wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu yn Adran 5.

# 4 Sicrwydd Archwilio

## Archwilio a Sicrwydd Archwilio

**Mae’r Cyngor yn cael ei archwilio’n allanol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a gefnogir gan Swyddfa Archwilio Cymru. Amcanion yr archwiliad hwn yw cael sicrwydd nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed trwy dwyll neu wall, yn y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd; bod y cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion deddfwriaethol a’r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig; a chyhoeddi barn arnynt. Maent hefyd yn asesu ein trefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau.**

Yn 2020 rhoddodd yr Archwilydd Allanol farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2019-20.

Mae Archwilio Cymru hefyd yn archwilio nifer o hawliadau am grantiau ac yn y flwyddyn fe gwblhaodd 5 o archwiliadau o grantiau a ffurflenni. Cadarnhaodd yr archwiliad bod papurau gwaith cadarn yn bodoli ar y cyfan a chafodd yr holl hawliadau eu hardystio cyn y terfynau amser archwilio a oedd yn bodoli. Cymhwyswyd un cais am Fudd-dal Tai oherwydd ychydig o wallau ond nid oedd hyn yn effeithio ar ad-daliad yr hawliad.

Hefyd, mae Archwilio Cymru yn cynnal adolygiadau o amryw wasanaethau a hefyd adolygiadau o berfformiad trwy gydol y flwyddyn, yr adroddir wrth y Pwyllgor Archwilio arnynt.

Barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor ar gyfer 2020-21 yw:

***“Sicrwydd Rhesymol”***

Mae'r farn yn nodi, yn seiliedig ar y gwaith a gwblhawyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol a Rennir ar gyfer y flwyddyn ariannol, na nodwyd unrhyw faterion rheoli trawsbynciol sylweddol a fyddai'n effeithio ar amgylchedd rheoli cyffredinol y Cyngor. Mae'r gwendidau a nodwyd yn rhai sy’n benodol i wasanaethau.

Fel y disgrifiwyd yn gynharach yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, mae pandemig COVID 19 wedi cael effaith ddifrifol ar y ffordd y bu'n rhaid i'r Cyngor weithredu yn ystod 2020-21. Mae llawer o staff wedi gweithio o bell, ac mae systemau a phrosesau wedi gorfod addasu er mwyn darparu ar gyfer y ffyrdd newydd o weithio. Yn yr un modd, digwyddodd yr Archwiliad Mewnol o bell, gan gynnal archwiliadau a chael tystiolaeth yn ddigidol. Mae pob archwiliad wedi ystyried effaith bosibl COVID 19 a gweithio o bell er mwyn sicrhau bod rheolaethau a threfniadau llywodraethu digonol yn parhau.

Cafodd y pandemig rywfaint o effaith ar gyflawni'r cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2020-21 a gohiriwyd nifer cyfyngedig o archwiliadau oherwydd y pwysau ar rai meysydd gwasanaeth. Bydd yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal yn 2021-22. Roedd cwmpas yr Archwiliad Mewnol yn dal yn ddigonol i'r Pennaeth Archwilio allu rhoi barn.

Mae'r argymhellion a wnaed i wella llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth wedi'u derbyn ac maent wedi'u gweithredu i wahanol raddau.

Yn ystod y flwyddyn, roedd trefniadau dros dro yn parhau i fod ar waith i gwmpasu sefyllfa statudol Swyddog Adran 151/Pennaeth Cyllid y Cyngor, sy'n peri rhywfaint o bryder o safbwynt parhad a chapasiti. Er nad oes fawr ddim risg, os o gwbl, yn y tymor byr gan fod y Swyddog Statudol presennol yn brofiadol iawn ac yn fwy tebygol i gyflawni'r rôl, mae'n bwysig bod y swydd wag yn cael ei llenwi'n barhaol cyn gynted â phosibl. Er mwyn helpu i gryfhau gwydnwch y swyddogaeth Gyllid, penodwyd Dirprwy Bennaeth Cyllid dros dro a swydd Swyddog Adran 151 ym mis Mai 2019. Yn dilyn adolygiad o rôl y Pennaeth Cyllid, cytunodd y Cyngor y dylid ail-ddynodi'r swydd yn Brif Swyddog, Cyllid, Perfformiad a Newid. Hysbysebwyd y swydd wedyn ar ddechrau 2020 ac eto ym mis Mehefin 2020, ond ni chafwyd ymgeiswyr â chymwysterau digonol a'r sgiliau a'r profiad gofynnol i allu parhau drwy holl gamau'r broses benodi.



*Y Pafiliwn, Porthcawl*

# 5 Gwella Llywodraethu

Nodwyd nifer o faterion arwyddocaol yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2019-20 y Cyngor. Dangosir y cynnydd a wnaed ar y materion arwyddocaol isod:

| Mater | Cynnydd wedi'i wneud |
|---|---|
| Bydd Covid-19 yn cael effaith sylweddol wrth i'r gyfradd heintio gynyddu. Bydd hyn yn effeithio ar y gweithlu, ar y ddarpariaeth o wasanaethau, ac ar bwysau economaidd a chymdeithasol ac aflonyddwch am fisoedd, os nad blynyddoedd, i ddod. | A hithau dros flwyddyn ers yr achosion gwreiddiol o Covid-19 yn y DU a'r cyfyngiadau symud cenedlaethol, mae'r Cyngor yn parhau i ddysgu sut i ddygymod � chanlyniadau darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol yng nghanol pandemig byd-eang parhaus. Mae'r rhan fwyaf o staff y Cyngor yn parhau i weithio gartref, a gwnaed buddsoddiad sylweddol i sicrhau y gellir gwneud hyn mor effeithiol â phosibl. Er bod llawer o ffocws o hyd ar ddarparu gwasanaethau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r pandemig, gan gynnwys sicrhau PPE digonol, cynnal y drefn prawf, olrhain a diogelu, a chefnogi'r rhaglenni brechu torfol, rhoddir blaenoriaeth hefyd i 'adferiad'. Mae'r Cyngor wedi gosod cynllun adfer cymeradwy sy'n seiliedig ar bedair thema o sefydlogrwydd ariannol ar gyfer y sefydliad, ar gyfer adferiad economaidd, i adfer gwasanaethau (gan addasu gwasanaethau i sicrhau eu bod yn ddiogel), ac ar gyfer iechyd y cyhoedd. Mae'r panel adfer trawsbleidiol a sefydlwyd wedi gwneud un ar bymtheg o argymhellion cychwynnol i'r Cabinet i lywio gwaith cynllunio adferiad manwl y Cyngor. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd ymarfer gwersi a ddysgwyd a chynhyrchwyd dogfen i sicrhau fod y Cyngor yn y sefyllfa orau bosibl i ymateb i unrhyw gyfyngiadau symud neu argyfyngau yn y dyfodol. |
| Mae'n ddigon posibl y bydd yr ansicrwydd ynghylch effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd yn gosod disgwyliadau a galwadau cynyddol a pharhaus ar sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r Cyngor y bydd angen eu cynnwys yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig | Wrth i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, gyda chytundeb munud olaf, daeth Cytuniad newydd i rym o 1 Ionawr 2021, gan ddisodli trefniant y cyfnod pontio blaenorol. Mae'n anochel fod canlyniadau cael cytundeb masnach ar waith yn debygol o fod yn fwy cadarnhaol na sefyllfa heb gytundeb. Fodd bynnag, mae'n annhebygol na fydd unrhyw effaith, er ei bod yn rhy gynnar i wybod beth fydd hyn yn union. Mae pandemig Covid-19 wedi rhoi effaith gadael yr UE yn y cysgod, a bydd yn rhoi pwysau parhaus ar adnoddau a chyllidebau'r Cyngor, o leiaf yn y tymor byr i ganolig. Bydd y ddau ddigwyddiad yn parhau i gael effaith yn y dyfodol, a bydd angen i'r Cyngor fonitro costau a cholli incwm yn ofalus o ganlyniad i ddigwyddiadau arwyddocaol ar ei gyllideb a gofynion llif arian. |
| Newidiadau mewn Uwch Reolwyr ar lefel Bwrdd Rheoli Corfforaethol | Dechreuodd Cyfarwyddwr Corfforaethol newydd Cymunedau ei swydd ym mis Mawrth 2020. Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles i fod i ymddeol ddiwedd Ebrill 2020 ond cytunodd i barhau i arwain y gwasanaeth am gyfnod o 6 mis yn ystod y pandemig. Gwelwyd bod yr ymarfer recriwtio rhithwir ar gyfer y swydd wag hon wedi gweithio'n dda, gyda chryn ddiddordeb yn y swydd a phroses recriwtio effeithiol, a dechreuodd yr ymgeisydd |

| Mater | Cynnydd wedi'i wneud |
|---|---|
| | llwyddiannus yn ei swydd ym mis Hydref 2020. Erbyn hyn mae mwy o wytnwch ar draws uwch dîm rheoli'r Cyngor.<br><br>Nid lwyddodd y Cyngor recriwtio Prif Swyddog, Cyllid, Perfformiad a Newid ac mae'r trefniadau dros dro wedi parhau. |
| Canlyniad adroddiad Archwilio Cymru ar Ddiogelu a'r gwaith o weithredu'r argymhellion a wnaed ynddo | Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2020 adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru o fis Hydref 2019: 'adolygiad dilynol o drefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu plant'. Nodwyd y camau gweithredu a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y cynigion ar gyfer gwella a chofnodwyd bod yr eitem wedi'i datrys. |
| Canlyniad Arolygiaeth Gofal Cymru – Arolygu Gwasanaethau Oedolion Hŷn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Ionawr 2020) | Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddatblygu argymhellion arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru o bobl hŷn. Mae effaith Covid-19 yn golygu bod rhai amserlenni o fewn cynlluniau gweithredu wedi'u gohirio gan fod y gwasanaethau i oedolion wedi canolbwyntio ar effaith sylweddol y pandemig ar wasanaethau gofal cymdeithasol. |
| Cryfhau trefniadau craffu a goruchwylio gwasanaethau iechyd yr amgylchedd a gweithio gyda'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (SRS) a darparwyr eraill i archwilio'r cyfleoedd ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol | Trefnwyd i adroddiad ar SRS fynd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol (COSC) ym mis Mawrth 2020 ond yn anffodus cafodd y cyfarfod ei ganslo oherwydd pandemig Covid-19 a dim ond cyfarfodydd COSC hanfodol a gynhaliwyd tan Gyfarfod Blynyddol y Cyngor, pan ailddechreuwyd gwaith craffu gyda llai o adroddiadau. Bydd Blaenraglen Waith ddrafft ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cael ei pharatoi'n fuan a bydd SRS ar y Flaenraglen.<br><br>Mae SRS ar flaen y gad wrth ymateb i Covid, gan ennyn mwy o amlygrwydd i'w rôl. Cynhelir cyfarfodydd o Gyd-bwyllgor yr SRS o hyd a chyfarfodydd rheolaidd gyda Phennaeth y Gwasanaeth a'r Aelod Cabinet perthnasol. |
| Y risg o dwyll, yn enwedig yn y pandemig Covid-19 presennol, gyda chyllid sylweddol yn symud o gwmpas a mwy o drafodiadau digidol gyda'r Cyngor | Mae'r Cyngor wedi rhoi pwyslais cryf ar atal twyll yn ystod pandemig Covid-19, yn enwedig gyda nifer a gwerth y grantiau a delir i unigolion a sefydliadau drwy amrywiol gynlluniau cymorth Llywodraeth Cymru.<br><br>Penodwyd Uwch Ymchwilydd Twyll gan y Cyngor ym mis Awst 2020, ac maent yn chwarae rhan arweiniol yn y gwaith o ganfod ac ymchwilio i weithgarwch twyllodrus tybiedig o fewn y Cyngor, a mynd ati i hyrwyddo ymwybyddiaeth o dwyll ar draws y Cyngor.<br><br>Mae'r modiwl e-ddysgu Atal Twyll wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno i staff, mae gwybodaeth am dwyll yn cael ei ddiweddaru a'i ddarparu i staff ar y fewnrwyd, ac mae proses asesu risg twyll manylach yn cael ei datblygu a fydd yn cysylltu â'r broses rheoli risg gorfforaethol. Mae polisi Atal Osgoi Treth Corfforaethol hefyd wedi'i ddatblygu a'i gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Chwefror 2021.<br><br>Mae'r Cyngor wedi cyflwyno Gwybodaeth Twyll Genedlaethol (NFI) mewn dwy ran. Cyflwynwyd y data grant cyntaf nad oedd yn ymwneud |

| Mater | Cynnydd wedi'i wneud |
|---|---|
| | â Covid-19 i'r Fenter erbyn 9 Hydref 2020, a chyflwynwyd data grantiau Covid-19 ar 7 Ionawr 2021. |
| Cyllidebau Ysgolion sy'n dod yn fwy a mwy heriol, a'r potensial ar gyfer mwy o ddiffyg mewn cyllidebau ysgolion | Mae effaith Covid-19 ar ysgolion wedi bod yn sylweddol, gyda'r ysgolion yn cau ar 20 Mawrth 2020 a heb ailagor tan fis Medi 2020, er i rai gael eu defnyddio fel canolfannau gofal plant yn ystod misoedd yr haf. Roedd yn dal yn ofynnol i gyllidebau ysgolion gael eu pennu ar gyfer y flwyddyn ariannol gyda chynlluniau adfer diffyg ar waith yn unol â'r Cynllun Ariannol ar gyfer Ysgolion. Oherwydd y pandemig a chau ysgolion, bu hon yn broses arafach na'r arfer, ond parhaodd y gwaith o gefnogi'r rhai mewn diffyg, gan gytuno ar gynlluniau adfer diffyg a monitro balansau yn gyffredinol.<br><br>Er y rhagwelwyd y byddai ysgolion yn aros ar agor tan 18 Rhagfyr 2020, caeodd llawer ohonynt yn gynnar unwaith eto oherwydd y pandemig a'r ymchwydd yn y gyfradd heintio. Dechreuodd ysgolion ailagor ar gyfer plant hyd at 7 oed ar 22 Chwefror 2021, ac ni ddychwelydd y mwyafrif o blant eraill i addysg llawn amser tan ar ôl gwyliau'r Pasg.<br><br>Cafwyd rhai arbedion yng nghyllidebau ysgolion o ganlyniad i gau ysgolion, gan gynnwys arbedion ar ynni, glanhau, cyflenwi a rhai adnoddau. Fodd bynnag, pan oedd ysgolion wedi ailagor bu pwysau cost ychwanegol i sefydlu systemau i gadw pellter cymdeithasol, i lanhau'n fwy rheolaidd, a phrynu offer TGCh i alluogi addysg barhaus i'r plant hynny sy'n hunanynysu. Mae rhywfaint o'r cyllid wedi'i dalu o grantiau untro gan Lywodraeth Cymru (e.e. adnoddau glanhau) ac mae eraill yn cael eu hawlio o Gronfa Caledi Llywodraeth Cymru, ond nid yw pob un ohonynt yn gymwys. Roedd yn rhaid i unrhyw hawliadau am gostau ychwanegol fod yn net o unrhyw arbedion a wnaed, felly roedd angen gwaith sylweddol i nodi'r rhain.<br><br>Y balansau ysgol cyffredinol net ar 31 Mawrth 2021 oedd £8.491 miliwn. Bu gwelliant sylweddol o'r sefyllfa o ddiffyg rhagamcanol ar gyfer ysgolion a adroddwyd yn ystod y flwyddyn, yn bennaf oherwydd arian grant ychwanegol a dderbyniwyd yn hwyr yn 2020-21 yr ymrwymwyd at ddefnydd ysgolion yn 2021-22. |

Yn seiliedig ar adolygiad o'r fframwaith llywodraethu, ac asesiad o gydymffurfiaeth â Chod Rheoli Ariannol CIPFA, eir i'r afael â'r materion arwyddocaol canlynol a nodwyd yn 2020-21 yn 2021-22 gyda chysylltiadau â'r **Egwyddorion Llywodraethu** ar dudalen 81:

| Mater | Egwyddor Llywodraethu | Beth yw'r mater | Camau Gweithredu Arfaethedig i fynd i'r afael â mater |
|---|---|---|---|
| Gweithredu Deddf Llywodraeth Leol ac | A | Bydd y Ddeddf yn cyflwyno newidiadau sy'n ymwneud â diwygio | Bydd angen i'r Cyngor weithredu mesurau i gydymffurfio â'r Ddeddf. |

| Mater | Egwyddor Llywodraethu | Beth yw'r mater | Camau Gweithredu Arfaethedig i fynd i'r afael â mater |
|---|---|---|---|
| Etholiadau (Cymru) 2021 | | etholiadol, cyfranogiad y cyhoedd, llywodraethu a pherfformiad, a gweithio rhanbarthol. Bydd hyn yn cael effaith ar y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu. | Bydd hyn yn cynnwys, er enghraifft, newidiadau i gyfansoddiad a chylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o fis Mai 2021, sefydlu Cydbwyllgorau Corfforaethol, adolygiadau perfformiad a hunanasesiadau ehangach, a chyflwyno mesurau i sefydlu cyfranogiad y cyhoedd. Bydd y Cyngor yn ystyried Gorchmynion Cychwyn ac is-ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru a bydd yn rhoi prosesau ar waith ar gyfer gweithredu'r newidiadau gofynnol. |
| Cynaliadwyedd Ariannol | F | Bydd pwysau ariannol parhaus y pandemig, a’i bwysau cynyddol ar wariant a llai o incwm, yn effeithio ar flwyddyn ariannol 2021-22. | Gofynnir am gyllid allanol i leddfu’r pwysau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gronfa Caledi lle bo hynny'n bosibl. Bydd cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi yn cael eu hadolygu a'u cynnal i gefnogi costau Covid-19 penodol sy'n deillio o benderfyniadau lleol, yn ogystal â darpariaeth i ddygymod â phwysau eraill nas ariennir, megis gostyngiadau yn incwm y dreth gyngor a chostau ychwanegol cymorth gyda'r dreth gyngor. Bydd rhagdybiaethau ar gyfer cyllidebau'r blynyddoedd i ddod yn parhau i gael eu hadolygu a'u diwygio i |

| Mater | Egwyddor Llywodraethu | Beth yw'r mater | Camau Gweithredu Arfaethedig i fynd i'r afael â mater |
|---|---|---|---|
| | | | adlewyrchu'r amgylchiadau sy'n newid. |
| Adolygiad o Reolau Gweithdrefn Ariannol | F | Mae'n allweddol bod y Rheolau Gweithdrefn Ariannol yn cael eu diweddaru i sicrhau eu bod yn addas i'r diben. | Yn 2017 y diweddarwyd hwy ddiwethaf, mae angen adolygu a diweddaru anghenion i adlewyrchu arferion cyfredol, yn enwedig gyda threfniadau gweithio hyblyg a gweithio gartref. |
| Adolygiad o'r Cod Llywodraethu Corfforaethol a'r amserlen gysylltiedig | A | Mae sicrhau bod y Cod Llywodraethu Corfforaethol yn cael ei ddiweddaru yn hanfodol er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben. | Yn 2017 y diweddarwyd y Cod ddiwethaf, ac mae angen ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r fframwaith llywodraethu presennol. |
| Parhau i gefnogi datblygiad proffesiynol | E | Er mwyn darparu'r gwasanaethau gorau ac i fodloni gofynion statudol, rhaid i staff fod â digon o sgiliau i gyflawni eu cyfrifoldebau. | Asesu anghenion sgiliau fel rhan o'r ailstrwythuro cyllid a chefnogi datblygiad proffesiynol parhaus ar bob lefel lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol. Hefyd i ystyried hyfforddiant arall i staff cyllid a staff nad ydynt yn rhai cyllid, yn ogystal ag Aelodau Etholedig. |
| Digidol / rheoli asedau TGCh gyda ffyrdd newydd o weithio | A | Oherwydd Covid-19, mae'r ystâd TGCh wedi'i datganoli gyda swyddogion yn gweithio gartref, gan greu heriau o ran cofnodi a rheoli'r dyfeisiau. | Newid prosesau rheoli – gan gynnwys rheoli patsys ar gyfer yr holl ddyfeisiau a rhaglenni ar draws y tirlun TGCh.<br><br>Defnyddio Cronfa Ddata Rheoli Ffurfweddu (CMDB) i storio gwybodaeth am asedau caledwedd a meddalwedd.<br><br>Asesiadau Archwilio Annibynnol sy'n adolygu'r ffordd y rheolir y seilwaith TGCh gan gynnwys dyfeisiau a meddalwedd. |

| Mater | Egwyddor Llywodraethu | Beth yw'r mater | Camau Gweithredu Arfaethedig i fynd i'r afael â mater |
|---|---|---|---|
| Twyll Seibr | F | Mae Risgiau Seibrddiogelwch yn cyfeirio at unrhyw berygl o golled ariannol, tarfu, neu ddifrod i enw da sefydliad sy'n deillio o fethiant ei systemau technoleg gwybodaeth. | Gweithdrefnau a chanllawiau staff drwy bolisïau diogelwch IT, e.e. Chwe Rheol Syml, hyfforddiant Diogelu Data.<br><br>Rhwystrau corfforaethol ar storio ffeiliau ar-lein.<br><br>Rheoli porthau ac amgryptio dyfeisiau USB.<br><br>Achrediad Rhwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus / Ardystio. |
| Effaith pandemig Covid-19 ar y sector gofal cymdeithasol a rhoi diwedd ar gyllid caledi i'r sector | C | Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar y sector Gofal Cymdeithasol. Mae cyllid caledi tymor byr wedi helpu i gefnogi'r sector, ond bydd dod â'r cyllid hwn i ben yn cael effaith wrth symud ymlaen. | Mae cynllun sefydlogrwydd y farchnad yn cael ei ddatblygu i liniaru effaith y pandemig ar gartrefi gofal pobl hŷn ac i sicrhau bod nifer ac ansawdd y ddarpariaeth yn parhau i fod yn ddigonol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. |
| Materion GDPR gyda ffyrdd newydd o weithio | A | O gymharu â gweithio mewn swyddfeydd canolog, mae gweithio o bell yn gofyn am safbwynt diogelwch gwahanol, a rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â chyfreithiau diogelu data. | Dosbarthwyd neges Bridgenders ym mis Medi 2020 ar ddiogelu data a gweithio gartref. Roedd yn rhoi arweiniad ar faterion fel cyfathrebu'n ddiogel, diweddaru meddalwedd, sicrhau nad oes unrhyw ddata personol yn cael ei beryglu, defnyddio technoleg gymeradwy'r Cyngor yn unig.<br><br>Mae gan y Cyngor bolisïau Ddeddf TGCh a Diogelu Data (DPA) llym ac mae'r Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth (gyda chynrychiolaeth o bob Cyfarwyddiaeth) yn |

| Mater | Egwyddor Llywodraethu | Beth yw'r mater | Camau Gweithredu Arfaethedig i fynd i'r afael â mater |
|---|---|---|---|
| | | | parhau i gwrdd yn chwarterol i sicrhau bod diogelwch gwybodaeth yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth yn ystod y cyfnod hwn.<br><br>Mae hefyd yn ofynnol i'r holl staff ac Aelodau Etholedig ymgymryd â modiwl e-ddysgu gorfodol y Ddeddf Diogelu Data. |
| Materion yn ymwneud â'r gweithlu / lles | E | Nodi modelau gweithio ar gyfer staff yn y dyfodol, wrth i gyfyngiadau Covid-19 lacio, a sicrhau bod ystyriaethau lles yn cael blaenoriaeth. | Datblygu polisïau Adnoddau Dynol i gefnogi trefniadau gweithio yn y dyfodol. Datblygu a gweithredu camau gweithredu ychwanegol i gefnogi diwylliant lles ar draws y sefydliad. Gwella cyfathrebu i helpu staff i gael gafael ar wybodaeth sy'n ymwneud â Covid-19 ac adferiad. |

Caiff y materion hyn eu monitro drwy gynllun gweithredu manwl yn ystod 2021-22, gyda'r swyddog cyfrifol a'r dyddiad cau ar gyfer gweithredu wedi'u nodi ar gyfer pob cam gweithredu ac adroddiadau i'r Cabinet/Bwrdd Rheoli Corfforaethol ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

# 6 Datganiad Sicrwydd

Ymatebodd y Cyngor yn gyflym i bandemig Covid-19 i roi rheolaethau ar waith i wneud yn saff bod cofnod yn cael ei gadw o'r penderfyniadau a wnaed i sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith. O ystyried y trefniadau hyn, nid oes unrhyw faterion rheolaeth fewnol na llywodraethu sylweddol wedi codi, ac mae'r Cyngor yn parhau i fod â threfniadau rheolaeth fewnol a llywodraethu priodol ar waith.

Yn amodol ar ddatrys y materion uchod, yn gyffredinol gallwn roi sicrwydd rhesymol bod trefniadau llywodraethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i fod yn addas i'r diben.

Bydd camau i fynd i'r afael â'r materion y cyfeirir atynt uchod yn cael eu cymryd i wella ein trefniadau llywodraethu ymhellach.

Signed: ______________________________________ Date: 12/07/2021______________
(Prif Weithredwr)

Signed: ____________________________________ Date: 12/07/2021______________
(Arweinydd)

# Rhestr Termau

**Actiwari**
Mae actiwari'n berson sy'n cyfrifo premiymau yswiriant a phensiwn, gan gymryd i ystyriaeth ffactorau fel disgwyliad oes.

**Addasiad blwyddyn flaenorol**
Yr addasiadau perthnasol hynny sy'n gymwys i flynyddoedd blaenorol yn sgil newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu neu yn sgil cywiro gwallau sylfaenol.

**Amorteiddio**
Gostyngiad yng ngwerth gwariant cyfalaf nad yw wedi creu ased, drwy newidiadau mewn refeniw.

**Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)**
Yr NNDR, neu'r Ardrethi Busnes, yw'r tâl sy'n cael ei godi ar ddeiliaid mangreoedd busnes. Mae'r arian a gesglir yn cael ei dalu i Lywodraeth Cymru a'i ailddosbarthu i'r awdurdodau unigol yn gymesur â'r oedolion yn eu poblogaeth.

**Archwiliad**
Mae archwiliad yn golygu archwiliad annibynnol ar gyfrifon y Cyngor.

**Asedau cyfredol**
Asedau byrdymor yw'r rhain sydd ar gael i'r Cyngor eu defnyddio yn ystod y flwyddyn gyfrifyddu nesaf.

**Asedau gweithredol**
Asedau yw'r rhain sy'n cael eu defnyddio wrth redeg neu ddarparu gwasanaethau.

**Atebolrwydd**
Mae rhwymedigaeth yn swm sy'n daladwy ar ryw adeg yn y dyfodol.

**Balansau dirprwyedig ysgolion**
O dan ddarpariaethau Rheoli Ysgolion yn Lleol, mae unrhyw falansau sydd wedi cronni ar ddiwedd y flwyddyn yn cael eu dirprwyo i'r ysgolion unigol. Mae'r cronfeydd hyn yn cael eu cadw y tu allan i falansau Cronfa'r Cyngor.

**Benthyciad neu fuddsoddiad dros dro**
Dyma arian sydd wedi'i fenthyca neu wedi'i fuddsoddi am gyfnod cychwynnol o lai na blwyddyn.

**Blwyddyn ariannol**
Dyma'r cyfnod cyfrifyddu. Yn achos awdurdodau lleol mae'n dechrau ar 1 Ebrill ac yn dod i ben ar 31 Mawrth yn y flwyddyn ddilynol.

**Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB)**
Cyfleuster benthyca a ddarperir gan Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO) y Llywodraeth yw hwn, sy'n darparu benthyciadau tymor hwy ar gyfer awdurdodau lleol.

**Cod Ymarfer ar gyfer Adroddiadau ar Wasanaethau (SeRCOP)**
Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Adroddiadau ar Wasanaethau yn fframwaith cyson ar gyfer adroddiadau ar ddata awdurdodau lleol. Adolygir SeRCOP bob blwyddyn gan y corff rheoleiddio priodol i sicrhau ei fod yn datblygu yn unol ag anghenion llywodraeth leol fodern, tryloywder, y gwerth gorau a diwygio gwasanaethau cyhoeddus.

**Costau Na Ellir Eu Dosbarthu (NDC)**
Mae CDC yn gategori o gostau a ddiffinnir gan y Cod Ymarfer Cyfrifo Gwerth Gorau ac ni ellir ei ddyrannu i wasanaethau penodol. Mae'n cynrychioli:
• costau I.T. cyfleusterau,
• costau asedau tymor hir nas defnyddiwyd, na ellir eu gwireddu,
• rhai costau cronfa bensiwn

**Craidd Corfforaethol a Democrataidd (CDC)**
Mae'r CDC yn wasanaeth a ddiffinnir gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon y Gwerth Gorau, sef costau sy'n ymwneud a gweithgareddau Aelodau (Cynrychiolaeth Ddemocrataidd a Rheoli) a chostau sy'n darparu'r isadeiledd i sicrhau bod modd i wasanaethau gael eu darparu (Rheoli Corfforaethol).

**Credydwr**
Credydwr yw sefydliad neu rywun y mae ar y Cyngor arian iddo ar ddiwedd y flwyddyn ariannol am nwyddau neu wasanaethau a gafwyd yn ystod y flwyddyn ariannol neu'r blynyddoedd blaenorol.

**Cronfa Ailbrisio**
Mae hon yn cynrychioli'r cynnydd/gostyngiad annosbarthadwy ym mhrisiad asedau sefydlog.

**Cronfa a Glustnodwyd**
Cronfeydd wrth gefn sydd wedi'i neilltuo at ddiben penodol yw'r rhain.

**Cronfa refeniw**
Cyfrif yw hwn sy'n cofnodi'n gwariant a'n hincwm o ddydd i ddydd ar eitemau fel cyflogau misol ac wythnosol, costau rhedeg gwasanaethau ac ariannu gwariant cyfalaf.

**Cronfa ymddiriedolaeth**
Mae cronfeydd ymddiriedolaeth yn cadw arian ar ran unigolion neu sefydliad. Bydd ymddiriedolwyr yn gweinyddu'r cronfeydd ar ran y perchnogion.

**Croniad**
Mae croniad yn swm a ddangosir yn y cyfrifon ac sy'n cynrychioli incwm neu wariant am y cyfnod cyfrifyddu ond nad oedd wedi'i gael neu wedi'i dalu ar ddyddiad y fantolen.

**Cyfrif Addasu Cyfalaf**
Arian yw hwn sydd wedi'i neilltuo yng nghyfrifon y Cyngor ar gyfer gwariant cyfalaf ac i ad-dalu benthyciadau.

**Cyfrif escrow**
Trefniant cyfreithiol yw escrow, lle mae arian yn cael ei draddodi i drydydd parti (o'r enw asiant escrow) i'w gadw mewn ymddiriedolaeth hyd nes i ryw ddigwyddiad penodol godi neu nes y bodlonir amod neu amodau mewn contract.

**Cyllideb**
Mae cyllideb (neu amcangyfrif) yn gynllun incwm a gwariant, y seilir y dreth gyngor arni. Wedyn mae'r gwariant a'r incwm gwirioneddol yn cael eu monitro yn erbyn y cynllun hwn.

**Darpariaeth**
Mae darpariaeth yn swm y byddwn yn ei neilltuo yn ein cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau a ddisgwylir na allwn eu mesur yn fanwl gywir.

**Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP)**
Swm yw hwn sydd wedi'i neilltuo i ad-dalu benthyciadau. Dylai fod yn swm darbodus.

**Datganiad ar y Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn (MIRS)**
Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan yr Awdurdod.

**Datganiad Gwariant a Chyllid**
Mae'r datganiad hwn yn dwyn ynghyd berfformiad awdurdodau lleol a adroddir ar sail gwariant a fesurir o dan arferion cyfrifyddu cywir gyda thaliadau wedi'u diffinio'n statudol i Gronfa'r Cyngor.

**Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**
Mae'r cyfrif hwn yn cofnodi'r gwariant a'r incwm beunyddiol ar eitemau fel cyflogau misol ac wythnosol, costau rhedeg gwasanaethau ac ariannu gwariant cyfalaf.

**Datganiad Llif Arian**
Dyma ddatganiad sy'n crynhoi'r symudiadau arian parod yn ystod y flwyddyn.
Derbyniad cyfalaf Derbyniadau cyfalaf yw'r enillion a geir drwy werthu asedau sefydlog megis tir neu adeiladau.

**Derbynneb cyfalaf**
Mae'r derbyniadau cyfalaf yn elw o werthu asedau sefydlog fel tir neu adeiladau.

**Dibrisiant**
Dibrisiant yw'r amcangyfrif o'r golled yng ngwerth asedau sefydlog a ddangosir yn y Fantolen.

**Dyledwr**
Dyledwr yw sefydliad neu rywun y mae arno arian i'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol am nwyddau neu wasanaethau a gafwyd yn ystod y flwyddyn ariannol neu'r blynyddoedd blaenorol.

**Grantiau'r llywodraeth**
Cymorth oddi wrth y llywodraeth ac asiantaethau rhynglywodraethol a chyrff tebyg, lleol, cenedlaethol neu ryngwladol, ar ffurf arian parod neu drosglwyddiadau asedau i awdurdod yn gyfnewid am gydymffurfio yn y gorffennol neu'r dyfodol ag amodau penodol ynglŷn â gweithgareddau'r awdurdod.

**Gwaith sydd ar y gweill (WIP)**
Ystyr gwaith sydd ar y gweill yw gwerth gwaith a wneir ar brosiect sydd heb ei orffen ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac nad yw wedi'i godi eto ar y cyfrif refeniw.

**Gwariant cyfalaf**
Gwariant ar asedau sefydlog yw gwariant cyfalaf. Dyma asedau a fydd yn cael eu defnyddio am sawl blwyddyn wrth ddarparu gwasanaethau, sef eitemau fel adeiladau, offer a cherbydau.

**Gwerth Gwireddadwy Net**
Pris gwerthu ased, wedi'i ostwng yn ôl cost berthnasol (uniongyrchol) ei werthu.

**Gwerth y Farchnad Agored yn y Diben Presennol (OMVEU)**
Mae OMVEU yn sail ar gyfer prisio asedau sefydlog.

**Mantolen**
Mae'r fantolen yn ddatganiad o'n hasedau, ein rhwymedigaethau a'n balansau eraill, ar ddyddiad diwedd y flwyddyn ariannol, sef 31 Mawrth.

**Menter cyllid preifat (PFI**) – menter gan y llywodraeth ganolog sy'n ceisio cynyddu lefelau'r cyllid sydd ar gael i'r gwasanaethau cyhoeddus drwy ddenu ffynonellau cyllid preifat. Ategir y PFI gan nifer o gymhellion i annog yr awdurdodau i gymryd rhan.

**Postio digwyddiadau mantolen**
Eitemau ôl-fantolen yw'r rhai sy'n codi ar ôl dyddiad y Fantolen. Mae'r rhain yn eitemau nad oeddent yn bodoli ar yr adeg y paratowyd y Fantolen ond dylid eu datgelu os ydynt yn berthnasol i gyflwyniad teg y cyfrifon.

**Praeseptau**
Dyma'r swm sy'n cael ei dalu i awdurdod nad yw'n bilio (er enghraifft cyngor cymuned) er mwyn iddo dalu ei gostau (ar ôl caniatáu am ei incwm).

**Prydlesi cyllid**
Defnyddir prydlesi cyllid i ariannu pryniannau lle mae'r Cyngor yn ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r risgiau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar yr ased.

**Prydlesi gweithredu**
Prydlesi yw'r rhain lle mae risgiau perchnogaeth yr ased yn aros gyda'r perchennog.

**Prydlesu**
Mae hwn yn ddull o ariannu gwariant cyfalaf trwy dalu'r perchennog i ddefnyddio eiddo neu offer am nifer o flynyddoedd.

**Pwyllgor Dehongli'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRICs)**
Corff dehongli'r Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol sydd wedi'i fwriadu i helpu'r Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol i wella trefniadau adrodd ariannol trwy adnabod, trafod a datrys materion adrodd ariannol yn brydlon o fewn fframwaith y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

**Rhwymedigaethau cyfredol**
Rhwymedigaethau byrdymor yw'r rhain sydd i'w talu gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn gyfrifyddu ddilynol.

**Rhwymedigaethau digwyddiadol**
Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn rhwymedigaeth bosibl sy'n codi yn sgil digwyddiadau yn y gorffennol ac y bydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau wrth i ddigwyddiadau ansicr godi yn y dyfodol.

**Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS)**
Rheoliadau ariannol sydd i'w dilyn ac fel y'u gosodwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu (ASB).

**Stocrestrau**
Deunyddiau crai a brynir i'w defnyddio o ddydd i ddydd yw stocrestrau. Dangosir gwerth yr eitemau hyn sydd heb eu defnyddio ar ddiwedd y flwyddyn ariannol fel asedau cyfredol yn y fantolen.

**Trafodion Partïon Cysylltiedig**
Dyma drosglwyddiadau asedau neu rwymedigaethau neu gyflawniad gwasanaethau gan barti cysylltiedig, drosto neu ar ei ran, p'un a fydd tâl yn cael ei godi ai peidio.

